# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 1AF RHAGFYR, 2022**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad**
**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 24/11/22)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 1 RHAGFYR 2022**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 1AF RHAGFYR, 2022 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 18

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

(a) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 y Cyfansoddiad.

Cwestiwn gan Mr Paul D.Gill (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad)

"Pam bod y Cyngor yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor mewn ardal sy'n ddibynnol iawn ar y diwydiant twristiaeth a gwariant lleol gan dwristiaid heb ymchwil annibynnol ac adroddiad ar hynny i'r Cyngor ar effaith polisi o'r fath ar yr economi leol o gofio y bydd gorfodi'r cynnydd yn arwain at lai o wario'n lleol gan dwristiaid gan roi swyddi a busnesau lleol mewn perygl yn arbennig mewn cyfnod o chwyddiant a biliau ynni uchel?

(b) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad.

**7. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2023-24** 19 - 23

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM** 24 - 123

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**9. ADRODDIAD HUNAN-ARFARNIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR** 124 - 147

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

**10. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU** 148 - 149

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**11. ARGYMHELLIAD PANEL CYFWELD - PENODI AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** 150 - 151

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel Cyfweld.

**12. CYNLLUN DEISEBAU** 152 - 167

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol.

**13. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR - ADRODD YN OL AR GANLYNIADAU HOLIADUR I GYNGHORWYR** 168 - 175

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol.

**14. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Huw Rowlands yn cynnig fel a ganlyn:-

"Cynigiaf fod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at y Llywodraethau a'r cwmnïoedd trên perthnasol, gan fynegi anfodlonrwydd am safon y gwasanaethau trên a ddarperir gan Avanti West Coast a Thrafnidiaeth Cymru yng Ngwynedd, ac effaith negyddol hynny ar drigolion ac economi'r Sir."

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD LLIO ELENID OWEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Llio Elenid Owen yn cynnig fel a ganlyn:-

"Mae Ambiwlans Awyr Cymru (AAC) yn wasanaeth meddygol brys tyngedfennol a hollol hanfodol i drigolion Gwynedd. Mi fyddai cau eu

safleoedd presennol yn Ninas Dinlle a'r Trallwng a'i ganoli yng ngogledd ddwyrain Cymru yn arafu'r ymateb brys i'r ardaloedd pellaf ac anoddaf eu cyrraedd. Mae hyn yn bryder eithriadol i'n trigolion yma yng Ngwynedd. Bydd hyn hefyd yn golygu bod gwasanaeth eithriadol o bwysig arall yn symud o ogledd orllewin Cymru i'r gogledd ddwyrain, a hynny ar draul ein cymunedau gwledig.

Mae natur wledig a ffyrdd diarffordd yn gwneud achub bywydau yn ein hardaloedd yma yng Ngwynedd yn heriol, a bydd adleoli AAC yn fwy fyth o her.

Rhaid diogelu'r gwasanaeth amhrisiadwy yma.

Cynigiaf felly bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Ambiwlans Awyr Cymru a'r cyrff perthnasol i gadw'r canolfannau yn Ninas Dinlle a'r Trallwng, ac adeiladu ar y gwasanaethau yn eu lleoliadau presennol."

## (C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AB ELWYN

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elfed Wyn ab Elwyn yn cynnig fel a ganlyn:-

"Bod y Cyngor yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i ail agor rheilffyrdd Cymru, i greu rheilffordd drwy orllewin Cymru, ac yn galw arnynt am astudiaeth sgôp / dichonoldeb o'r linell rhwng Afon wen a Bangor."

## 15. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL 176

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elfed Wyn ab Elwyn i gyfarfod 6 Hydref, 2022 o'r Cyngor ynglŷn â'r teitl Tywysog Cymru.

# Eitem 2



## Y CYNGOR DYDD IAU, 6 HYDREF 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Elin Hywel, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, Linda A.Jones, June Jones, Menna Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Hawis Jones (Rheolwr Comisiynu, Contractau a Phrosiectau), Alun Williams (Uwch Reolwr Busnes), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Gwenllian Williams (Ymgynghorydd Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**

Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 9)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Alan Jones Evans, Louise Hughes, Iwan Huws, Beth Lawton, Linda Morgan, Gareth Coj Parry, Arwyn Herald Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts a Hefin Underwood.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn fel rhai cywir:-

- 23 Mehefin, 2022
- 25 Awst, 2022 (Cyfarfod Arbennig)

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Alan Jones Evans a'r teulu ar farwolaeth ei Nain

- Y Cynghorydd Menna Jones a'r teulu ar farwolaeth ei Thadcu.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Estynnwyd croeso i Dylan Owen, olynydd i Morwena Edwards fel Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i longyfarchwyd ar ei benodiad.

Llongyfarchwyd Geraint Owen hefyd ar ei benodiad yntau'n Gyfarwyddwr Corfforaethol.

Llongyfarchwyd Medi Harris o Borth y Gest ar ennill medal efydd yn y gystadleuaeth nofio 100m ar y cefn yng Ngemau'r Gymanwlad yn ddiweddar, a nodwyd y daeth ei Thîm Cyfnewid hefyd yn 4ydd i Gymru. Nodwyd hefyd, fel rhan o Dîm Ras Gyfnewid y DG yn Rhufain, bod Medi wedi ennill medalau aur, arian ac efydd, a'i bod hefyd wedi cystadlu yn y Pencampwriaethau Byd, lle daeth yn 7fed yn y cystadleuthau nofio 50m a 100m ar y cefn.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Elin Hywel**

"Pa gamau mae'r Cyngor yn gymryd i sicrhau cydraddoldeb i bobl ifanc mewn addysg wrth iddynt baratoi a chwblhau gwaith y tu allan i oriau dysgu, ar amseroedd o'u dewis hwy, ta waeth gallu eu teuluoedd neu warchodwyr i allu fforddio y gost gynyddol o ynni i bweru eu offer technoleg gwybodaeth angenrheidiol, megis gliniaduron?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae'r cwestiwn yn un pwysig iawn achos mae'n tynnu sylw at y myrdd o heriau mae teuluoedd a phobl ifanc yn wynebu yn sgil yr argyfwng costau byw sy'n ein hwynebu, ac mae'r Adran Addysg wedi rhoi sawl peth ar waith i gyfarch yr ystod o heriau sydd o'n blaenau i gyd. Ond un peth rwy'n arbennig o falch ohono ydi ein Strategaeth Ddigidol, sef bod modd i unrhyw ddisgybl gael mynediad i ddyfais ddigidol, a bod y ddyfais honno - a dyma'r darn pwysig - yn mynd adref hefo'r plentyn yn y sector uwchradd er mwyn cyfarch y problemau anghyfartaledd a nodwyd yn y cwestiwn. Strategaeth Gwynedd ydi hon ac mae'n un flaengar. Ond ar y mater o'r ynni a'r gwefru a'r gost o hynny, mae'r dyfeisiadau sydd wedi'u dewis yn rhai sy'n gwneud defnydd rhesymol o drydan ar gost resymol, a bydd yna gyfle i'r disgyblion wefru eu dyfeisiadau yn yr ysgol, ac mewn clybiau cyn ac ar ôl ysgol ac mewn llyfrgelloedd hefyd. Mae yna weithdai wedi'u trefnu mewn ysgolion hefyd i drafod gwefru a bydd y mater a godwyd gan yr aelod yn cael sylw yn y fan honno hefyd."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Elin Hywel**

"I warchod ein cymunedau rhag artaith gwleidyddiaeth a pholisïau Llywodraeth bresennol San Steffan, ac i gefnogi trigolion a dysgwyr Gwynedd drwy'r argyfwng

hinsawdd ynni a chostau byw, beth yw cynlluniau'r Cyngor i sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd ein hysgolion a chanolfannau addysg ac adeiladau cyhoeddus tu hwnt, megis llyfrgelloedd, er mwyn galluogi sicrwydd cyflenwad a phris ynni yn yr hir dymor?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae hyn, wrth gwrs, yn fater i'r Adran Eiddo hefyd, ond, wrth gwrs, mae'r Adran Addysg yn teimlo'n gryf iawn bod angen cyfarch y math yma o bethau. Mae yna 2 brosiect ar y gweill gan yr Uned Ynni a Gwasanaethau Masnachol, sef prosiect paneli solar fydd yn cael eu rhoi ar amryw o safleoedd y Cyngor, a gobeithio y bydd hynny yn cynnwys ambell ysgol, a phrosiect golau LED er mwyn rhoi gwell rheolyddion i mewn i'r ysgolion, er mwyn sicrhau pethau fel bod y golau yn cael ei ddiffodd ar ddiwedd y dydd. Ond yn amlwg mi fyddwn i'n cefnogi unrhyw symudiad tuag at leihau ein dibyniaeth ar y grid yn y maes yma yn y cyd-destun a nodwyd."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 eu bod yn cyflwyno newidiadau i'r ddeddf Gynllunio gan gyflwyno:
(i) 3 dosbarth defnydd newydd
(ii) Erthygl 4 a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol Cymru i osod trothwyon ar niferoedd tai haf / unedau gwyliau mewn ardaloedd penodedig
(iii) Treth Tir benodol ar ail dai

Sydd oll yn weithredol o fis Hydref 2022 ymlaen.
Pa waith paratoi, recriwtio staff ac adnabod dulliau casglu data ayyb mae'r Cyngor wedi'i gyflawni a hynny er mwyn gweithredu ar y mesurau arloesol yma cyn gynted â phosib?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Rwy'n croesawu'n fawr y cyhoeddiad gan y Llywodraeth sydd wedi dod ar ôl cryn bwysau gan y Cyngor yma dros y blynyddoedd a mudiadau eraill – Hawl i Fyw Adra, Cymdeithas yr Iaith, ac eraill, wrth gwrs. Mae'r ateb ysgrifenedig a gylchredwyd yn ateb eithaf hir i gwestiwn eithaf byr, ac mae hynny am y rheswm bod y maes deddfwriaeth cynllunio o reidrwydd yn gymhleth a thrwsgwl. Mae'r ateb yna fel ag y mae. Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi ydi mai newid fydd yn dod i mewn ymhen ychydig wythnosau ydi'r newid i'r dosbarthiadau defnydd. Bydd raid i'r Cyngor hwn, ac rwy'n credu mai'r Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad, gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n rhoi'r hawl i ni reoli'r symudiad rhwng un dosbarth defnydd a'r llall. Yr hyn sy'n siomedig yw mai ond yn ddiweddar y cawsom ni glywed bod gofyn i ni ddisgwyl 12 mis ar ôl gwneud y cyflwyniad cyn gallu gweithredu oherwydd bod yna bosibilrwydd o orfod talu iawndal yn sgil gwneud penderfyniadau. Mae hynny'n rhwystredig, ond gallaf eich sicrhau bod y gwaith o hel tystiolaeth yn mynd yn ei flaen. Eisoes mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith mawr yn 2020 yn hel tystiolaeth. Bydd angen diweddaru'r gwaith hwnnw ac mae'r gwaith yna yn mynd rhagddo."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"Onid yw'n gynamserol felly bod y Cyngor yn cysidro codi mwy o Dreth Premiwm trwy fynd i ymgynghoriad cyhoeddus heb yn gyntaf roi cyfle i weld a fydd y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith bositif ar reoli'r farchnad tai haf / unedau gwyliau, a thrwy hynny yn gwarchod tai ein cymunedau ar gyfer cartrefi?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae'n debyg bod y ddau arf yma yn arfau y gellid eu defnyddio ac maent yn sefyll ar eu pennau eu hunain i raddau helaeth. Mae'r penderfyniad ynglŷn â'r Premiwm yn gwestiwn i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf, os mai dyna fydd argymhelliad y Cabinet. Ni allwn weithredu ar y newid defnydd hyd at 12 mis ar ôl cyflwyno Erthygl 4, felly bydd yna gryn amser wedi mynd heibio cyn i ni weld effaith hwn."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Gyda chymaint o sôn am y Dreth Twristiaeth, pa fuddiannau mae'r Adran Cyllid / Economi yn ei weld i'r Sir o gyflwyno'r fath dreth, h.y., lle ydych yn credu y dylid gwario'r incwm y buasai yn dod o gyflwyno'r dreth yma?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn o bryd ar sefydlu Ardoll Twristiaeth ar gyfer Cymru. Byddai hyn yn golygu bod ymwelwyr sy'n aros dros nos yn talu ardoll i'r Awdurdod Lleol yma yng Ngwynedd.

Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfu, ac mae hynny am gymryd amser, amser hir iawn i roi grymoedd trethu i Awdurdodau Lleol benderfynu os ydynt am godi Ardoll o fewn y fframwaith genedlaethol o ganllawiau a gweithdrefnau.

Gan nad oes gan y Cyngor hwn y grym i godi Ardoll ar hyn o bryd a chan mai dechrau'r broses ymgynghori yw hyn, ni fyddai'n briodol i'r Cyngor ddatgan sut y dylai'r incwm yma gael ei wario ar y pwynt yma.

Mae'n bwysig nodi, er gwybodaeth, bod y Cyngor wrthi'n datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy mewn partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a bydd y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad maes o law, ac erbyn y dyddiad cau o 13 Rhagfyr 2022. Gai bwyso arnoch chi i gyd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma, ac mae'n bosib' ei wneud ar-lein."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Rhaid i mi ddatgan fy siom gyda'r ymateb yma yn anffodus. Mae gan y Cyngor, yn fy marn i, rôl bendant i arwain a helpu i addysg pobl Gwynedd am wahanol faterion a buasai ateb clir i'r cwestiwn yma wedi bod o gymorth i'r bobl hynny sy'n cwestiynu manteision cyflwyno'r dreth yma. Gai felly ofyn am sicrwydd y bydd y Cyngor yn gwneud datganiad clir am y manteision unwaith y byddent wedi ymateb i'r ymgynghoriad?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Rwy'n cydnabod rhwystredigaeth yr aelod, ond gan nodi eto mai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ydi hwn, ac ni fyddai'n briodol i'r Cyngor ddatgan sut y dylid gwario'r incwm yn bresennol, ac yn sicr rydw i'n ymrwymo i sicrhau datganiad am y manteision pan fydd y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Mewn theori mae geiriad Categori 3, fel diffinnir hwnnw yng nghanllaw categoreiddio ysgolion uwchradd Llywodraeth Cymru, yn caniatáu i gyfran go helaeth (hyd at 40%) o blant mewn ysgol benodol osgoi addysg cyfrwng Cymraeg yn llwyr, neu i raddau

helaeth. Pa fesurau sydd mewn lle i sicrhau nad ydi sefyllfa felly yn bodoli mewn unrhyw ysgol Categori 3 yng Ngwynedd? ”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

“Mi wnai ddechrau drwy fanylu ar beth yn union ydi Categori 3. Categori 3 uwchradd ydi pan fo’r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu mewnol, ethos Gymraeg gadarn ym mhob cyd-destun cymdeithasol oddi fewn ac oddi allan i’r ysgol, pob plentyn yn gallu siarad, darllen, sgwennu a gwrando yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn unol â’i oed a’i allu, a bod ystod eang o’r meysydd dysgu a phrofiad yn cael eu cynnig drwy’r Gymraeg ac o leiaf 60% o’r dysgwyr yn gwneud o leiaf 70% o’u gweithgareddau ysgol yn y Gymraeg. Felly mae’n anodd i unrhyw blentyn osgoi’r Gymraeg mewn ysgol Categori 3, fel y gwelwch o’r diffiniad yna. Rydw i’n derbyn y pwynt, a hyn sy’n bwysig, mae sefyllfa Gwynedd yn unigryw, wrth gwrs, o ran bod gennym ni ein polisi iaith ein hunain sy’n gyffredin i holl ysgolion y sir fel bod neb yn cael ei adael ar ôl. Yn sgil hynny mae disgwyl i’r ysgolion gynllunio’n ieithyddol ar gyfer pob math o ddysgwr sydd yn ein sir, o’r mwyaf rhugl i’r lleiaf rhugl, a phopeth yn y canol, sy’n golygu bod y ddarpariaeth ddwyieithog yn hynod gymhleth yng Ngwynedd. Ond nid yw’r cymhlethdod yna, wrth gwrs, yn tynnu oddi wrth yr angen i fynd i’r afael â hyn go iawn a gwneud gwahaniaeth go iawn ac i fynd ati o ddifri’ i gael darlun cywir a diweddar a manwl o’r ddarpariaeth sydd ymhob ysgol ar hyn o bryd er mwyn i ni wedyn fynd ati o ddifri’ i roi cynlluniau manwl mewn lle, fel bod ni’n gallu cynyddu’r ddarpariaeth ymhob ysgol yn unol â dyhead pob un ohonom gobeithio.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rhys Tudur**

“O ystyried bod y categori yn darparu mai o leiaf 60% o’r plant sy’n cael addysg Gymraeg, ydi’r Aelod Cabinet yn cytuno bod angen cymryd camau polisi i wella ar y gwaelodlin a’r ddarpariaeth o’r Gymraeg sydd ar gyfer Gwynedd ar hyn o bryd?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

“Rydw i’n meddwl bod nifer fawr o ysgolion Gwynedd yn gwneud yn well na gwaelodlin y categori yn barod. Ond, wrth gwrs, o wybod beth yn union ydi’r sefyllfa ymhob ysgol, gallwn wella wedyn ar y gwaelodlin, ac rydw i’n gwbl agored i syniadau gwahanol ynglŷn â sut i wneud hynny. Mae 'na rai syniadau wedi dod ymlaen yn barod ac mi fyddwn yn hollol hapus i glywed pob math o syniadau ynglŷn â hynny ac i dderbyn cefnogaeth. Mae yna gyfrifoldeb ar lywodraethwyr. Mae yna nifer ohonom ar gyrff llywodraethol, ond mae eisiau data diweddar, mae eisiau cynlluniau gweithredu, mae eisiau craffu, mae eisiau cefnogaeth ar ei gyfer, a gallaf eich sicrhau, fel un sydd wedi ymgyrchu dros addysg Gymraeg yn y gorffennol, nad ydw i wedi dod i’r portffolio i weld pethau yn llithro yng Ngwynedd.”

**(5) Cwestiwn gan y Cynghorydd Menna Baines**

“O ystyried bod:
(A) Llithriad yn y nifer sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg wrth fynd o addysg Gynradd i Uwchradd;
(B) CSGA (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) 2016 wedi methu gyda’r nod o gael 74.9% o blant i astudio 5 pwnc TGAU trwy'r Gymraeg erbyn 2020;
(C) y nifer sy'n astudio 5 pwnc TGAU trwy'r Gymraeg wedi gostwng yn hytrach na chynyddu o 2016 i 2022
Pa gamau polisi ydych chi am eu cymryd i sicrhau bod cynnydd am fod yn y mesuryddion uchod yn y blynyddoedd nesaf yn hytrach na llithriad?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

“Dyma gwestiwn pwysig arall ar fater y Gymraeg mewn addysg, ac er mor bwysig yw dathlu sefyllfa’r Gymraeg yng Ngwynedd, sy’n hollol unigryw, wrth gwrs, mae’r sefyllfa honno yn gallu llithro os nad ydym ni’n cadw llygaid barcud ar bethau. Mae yna beth llithriad wedi bod, fel mae’r cwestiwn yn nodi, ac nid yw hynny, wrth gwrs, yn adlewyrchu ein dyhead ni ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd. Ond rydym ni mewn cyfnod newydd rŵan ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at y CSGA newydd yma, ac mae yna drefniadau mewn lle i sefydlu’r Fforwm Iaith Addysg, er mwyn monitro’r cynnydd yn erbyn targedau CSGA. Bydd y swyddogion a’r aelodau etholedig, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Iaith yn rhan o’r Fforwm, a gellid enwebu aelodau’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd i fod ar y fforwm, os ydi pobl yn dymuno hynny, er mwyn adrodd yn ôl. Bydd yna adroddiad o flaen y Pwyllgor Iaith yn flynyddol a bydd yr Adran yn cydweithio hefo’r ysgolion er mwyn annog a chefnogi cynnydd. Ond gwaith tîm ydi hyn, wrth gwrs, ac rydw i’n mynd yn ôl at lywodraethwyr eto, achos rydym ni i gyd yn y fan hyn hefo’n gilydd, ac mae rôl a chyfrifoldeb o ran y ddarpariaeth sydd yn ein hysgolion unigol ni, a byddwn yn annog pob aelod etholedig sydd ar fwrdd llywodraethol i weithio efo’r Adran a hefo’r Cyngor er mwyn cyrraedd at yr hyn y byddem i gyd yn hoffi weld, sef bod plant Gwynedd yn cael yr holl elw posib o’r Gymraeg, a gwaith tîm ydi hynny.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Menna Baines**

“Gan ei bod yn bwysig deall pam bod y llithriad wedi digwydd, oes 'na waith ymchwil am fod ar hyn?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

“Mae’r llithriad yn y cyfnod pontio cynradd / uwchradd yn batrwm cenedlaethol, wrth gwrs, ac mae’n rhywbeth y dylai beri pryder i ni, ac mae’n bwysig ein bod yn mynd i’r afael â pham bod hynny’n digwydd. Wrth gwrs, o ran dewis iaith, mae’r rhieni yn dewis, ac mae yna waith i’w wneud i ennill calonau a meddyliau drosodd i’r Gymraeg. Mae yna waith yn cael ei wneud yn Ysgolion Friars ac Ein Harglwyddes sy’n rhoi swyddogion datblygu i mewn i weithio o ran y Gymraeg yn y fan honno, ac rwy’n credu bod y Cynllun Trochi am fod yn cyfrannu’n helaeth at hyn. Rydym ni’n sôn am Fangor eto, gan mai yno mae yna golli rhwng y cynradd a’r uwchradd, ac rwy’n meddwl bod y cyfnod canol yna yn mynd i gael ei gyfarch i raddau helaeth efo’r Cynllun Trochi newydd ym Mangor. Mae’n bwysig iawn ein bod yn trio deall beth sy’n digwydd a pham bod rhieni yn dewis newid cyfrwng addysg yn y cyfnod yma, a buaswn yn annog pawb i siarad hefo rhieni ac i fod yn lladmeryddion dros y Gymraeg yn hynny o beth.”

**(6) Cwestiwn gan y Cynghorydd Angela Russell**

“Hoffwn ofyn cwestiwn am gyn wasanaeth bws a ddaeth i ben yn ystod y pandemig Cofid. Y gwasanaethau bws o dan sylw ydi’r rhai a fyddai’n gadael Pwllheli am 10 o’r gloch ar nos Sadwrn, ac yn teithio trwy nifer o bentrefi, yn cynnwys Llanbedrog, ar draws Pen Llŷn. Hefyd y gwasanaeth i Edern trwy Nefyn a Boduan.

Roedd y gwasanaethau hyn yn bwysig a phrysur dros ben gan fod nifer o bobl yn dibynnu ar y gwasanaethau yma i’w galluogi i gymdeithasu mewn nifer ffordd, hynny yw, ymweld â ffrindiau a theulu, mynychu llefydd bwyta a thai tafarn a nifer o ddigwyddiad eraill yn yr ardaloedd. Gwyddwn i gyd yma heddiw pa mor bwysig yw cymdeithasu yn ein bywydau ni, lleihau unigrwydd, codi calon a helpu gydag iechyd meddwl. Mewn ardaloedd gwledig mae trigolion ac ymwelwyr yn dibynnu ar fysiau lleol – nid oes gan bawb gar. Yn ogystal â hyn, bydd nifer o bobl yn awyddus i fynd allan gyda’r nos i rywle cynnes, tŷ ffrind, teulu, ac ati, yn lle aros gartref a methu rhoi'r

gwres ymlaen oherwydd y costau difrifol heddiw. Mae yna lawer o dlodi mewn ardaloedd gwledig fel y gwyddwn. Felly hoffwn gael gwybod beth yw'r bwriad ar gyfer ail sefydlu'r gwasanaethau bws yma?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

“Cwestiwn amserol iawn, ac rwy'n cydymdeimlo'n fawr â'r rhai sy'n methu cael gwasanaeth bws, ac mae'n hynod o bwysig bod 'na gludiant cyhoeddus ar gyfer pobl sydd heb geir, yn enwedig pan rydym yn trio delio hefo effeithiau ar yr amgylchedd. Er ei fod yn gwestiwn sy'n benodol ar gyfer un ardal ac un daith bws, mae hon yn broblem sy'n effeithio arnom i gyd - mae'n effeithio yn sicr ar yr ardal rydw i'n byw ynddi. Mae yna broblemau rhwng Dyffryn Ogwen a Bangor wedi bod yn ddiweddar, ac rwy'n siŵr bod hyn yn rhywbeth sydd wedi bod yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonom fel aelodau. Fel mae'n sôn yn yr ateb, y broblem yn fan hyn, fel mewn llawer ardal, ydi prinder gyrwyr bws, ac o'r herwydd bod cwmnïau bysiau yn methu tendro am y teithiau yma. Roeddwn yn clywed yn ddiweddar am gwmni bws lleol sydd 6-7 o yrrwr yn brin ac yn methu tendro. Mae hyn yn broblem, ac rwy'n credu bod y daith rydym yn sôn amdani yn daith nos, ac mae gwaith nos yn waith lle mae hyd yn oed yn fwy anodd cael gafael ar yrwyr. Felly dyna lle rydym ni. Mae'r Uned Cludiant yn cynnal adolygiadau mewn gwahanol ardaloedd o'r sir drwy gydweithrediad gyda Thrafnidiaeth i Gymru, felly rydw i'n gobeithio'n fawr y byddwn yn gallu datrys llawer o'r problemau yn y misoedd nesaf drwodd i 2023.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Angela Russell**

“Beth ydi'r newidiadau sylweddol sydd ar y gweill achos mae'r bws yma yn bwysig dros ben i bobl yn ardal Pen Llŷn?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

“Dyna yr union waith sy'n mynd ymlaen. Wn i ddim os ydi'r aelod yn ymwybodol am y gwaith sy'n digwydd yn ardal Llanberis lle mae Sherpa'r Wyddfa wedi ei ail lunio yn benodol ar gyfer cyfarch anghenion lleol yn ogystal ag anghenion twristiaid? Felly, mae'n rhaid i ni feddwl ychydig bach yn wahanol gan feddwl pa fysus ydi'r rhai pwysig a sut rydym yn darparu, ac efallai nad bws ydi'r ateb, ond rhyw fath gwahanol o drafnidiaeth, a bod ni'n trafod gyda chymunedau lleol a chwmnïau tacsis. Hynny ydi, nid bws 50 sedd yn mynd i bob man ydi'r ateb bellach, ond mae angen meddwl am yr atebion creadigol yma. Mae hynny'n digwydd, ond mi fydd yn cymryd amser i fynd drwy'r sir yn adolygu pob ardal.”

**(7) Cwestiwn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards**

“Hoffwn ddiolch i'r Cabinet am gytuno i gyllido gwyliau Gŵyl Ddewi i weithlu'r Cyngor y llynedd.

Tra'n hynod siomedig ag ymateb sarhaus, ond nid annisgwyl, Llywodraeth Llundain, bu'r ymateb ar draws Cymru yn gadarnhaol iawn. Gwnaed datganiad o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a chan gynghorau sir sy'n amlygu'r dyhead i'n cenedl gael ei thrin â pharch drwy ddathlu'n nawddsant mewn modd haeddiannol.

A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad o'r sefyllfa eleni, ac ar unrhyw gamau i wireddu'n dyhead fel cenedl?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Diolch i’r aelod am y cwestiwn, ac yn arbennig am y cynnig a roddodd o flaen y Cyngor yma, ac a basiwyd yn unfrydol bron i flwyddyn yn ôl bellach. Do, mi gawsom ni ymateb sarhaus gan ryw Is-weinidog sydd bellach, mae’n siŵr, wedi diflannu dros y gorwel gwleidyddol, fel y gwnawn nhw i gyd cyn bo hir gobeithio. Ond mae pethau wedi symud ymlaen.

Mae cynrychiolwyr cyflogwyr llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cynnig codiad cyflog terfynol i weithwyr llywodraeth leol ar gyfer 2022/23, sy’n cynnwys ychwanegu un diwrnod i flwyddyn gwyliau pob gweithiwr oddi ar y 1af o Ebrill, 2023.

Mae’r cynnig yma yn derbyn sylw gan y tri undeb yn bresennol gyda rhagolygon y byddant yn ymateb yn ffurfiol iddo tua canol y mis hwn ar ôl ymgynghori gyda’u haelodau.

Yn y cyfamser, mae trafodaeth wedi’i chynnal gyda chynrychiolwyr yr undebau yn lleol ac mae lle i gredu y byddai cefnogaeth ganddynt i’r diwrnod ychwanegol o wyliau yma gael ei glustnodi ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi i’r dyfodol.

Pe byddai’n bosibl gwireddu’r cytundeb yma, ni fyddai cost ychwanegol i’r Cyngor, uwchben yr hyn y byddai’n rhaid darparu ar ei gyfer fel rhan o’r cytundeb cenedlaethol arfaethedig.

Byddai modd i ni symud y drafodaeth honno yn ei blaen efo’r undebau yng Ngwynedd yn unig ond rwy’n agor trafodaeth gyda rhai o’m cyd-arweinyddion ar draws awdurdodau eraill yng Nghymru yn cynnig bod yna gyfle yma i ni weithredu ar lefel genedlaethol h.y. bod pob sir yn dynodi’r diwrnod ychwanegol yma yn wyliau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Byddai’n ofynnol sicrhau cydsyniad yr undebau llafur, wrth gwrs, cyn trosglwyddo’r mater i’r awdurdodau unigol i weithredu’n lleol.

Os na cheir y consensws hwnnw, y bwriad fyddai symud ymlaen i geisio sicrhau cytundeb ffurfiol yn lleol a thrwy hynny glustnodi’r 1af o Fawrth (neu’r diwrnod gwaith agosaf i’r dyddiad hwnnw) ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi o fewn Cyngor Gwynedd i’r dyfodol.

Fe gafwyd ymateb syfrdanol i’r ffaith bod y Cyngor yma wedi dynodi diwrnod o wyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi, a chafwyd cefnogaeth ryfeddol ar draws y pleidiau eraill, heblaw am un blaid, ac yn wir roedd yna ddatganiadau cefnogol ymhob man. Fe wnaed datganiad gan Arweinydd Plaid Geidwadol Lloegr yng Ngymru yn eu cynhadledd yn dweud eu bod hwy bellach yn cefnogi cael diwrnod gŵyl banc ar Ŵyl Dewi ac rydw i am ysgrifennu at yr Arweinydd hwnnw yn gofyn iddo basio’r neges ymlaen i ba bynnag weinidog sydd ganddynt bellach yn San Steffan yn ei atgoffa ein bod ni yma yng Nghymru yn haeddu ein cydnabod fel cenedl, a’n bod ni yn haeddu cael diwrnod i ddathlu ein Nawddsant a’n hunaniaeth, ac mi wnâi hynny yn ystod yr wythnos nesaf”.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Elwyn Edwards**

“Be ydi’r amserlen o ran trafod hefo’r undebau?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Mi wnes i gyfeirio at yr amserlen. Pe bai’r undebau yn cytuno i’r amodau newydd, yna mi fydd y rheini yn dod i rym yn Ebrill 2023. Mae gennym felly'r 6 mis nesaf i agor y drafodaeth gyda’n cyd-arweinyddion ar draws Cymru. O ran ysgrifennu at

arweinyddion y Blaid Geidwadol Seisnig yng Nghymru, mi wnâi hynny yn ystod yr wythnos nesaf."

**7. ADRODDIAD SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD DRAFFT 2022**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan, adroddiad yn darparu trosolwg o Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru 2022, a luniwyd fel gofyn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cyngor llawn i'r ddogfen.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i bawb fu'n gysylltiedig â pharatoi'r adroddiad mewn amser mor fyr, a hefyd am y gwaith hynod bwysig yn y maes sy'n aml yn anweladwy.
- Holwyd a fyddai'n werth herio Llywodraeth Cymru i roi mwy o arian yn uniongyrchol i'r cynghorau ar gyfer talu am ofalwyr. Mewn ymateb, eglurwyd bod sgyrsiau aeddfed, a dyddiol bron, yn cymryd lle rhwng y Cyngor, y rhanbarth a gweinidogion y Llywodraeth ar hyn o bryd. O ran taliadau, cyfeiriwyd at y system daliadau uniongyrchol i ofalwyr, a nodwyd bod gwaith ar droed i hyrwyddo hynny ymhellach dros y cyfnod nesaf.
- Mewn ymateb i sylw, cadarnhawyd bod gofal seibiant yn flaenoriaeth uchel, a bod y Cyngor yn gefnogol, ac yn awyddus iawn i wneud gymaint ag y gellid i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ein cymunedau.
- Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ail-edrych ar y dull o dalu costau teithio i ofalwyr, yn enwedig oddi fewn i'r gwaith, wrth iddynt deithio o un lleoliad i'r llall. Mewn ymateb, eglurwyd bod hyn yn rhan o'r gwaith o ail-ddylunio gofal cartref, ac y byddai yna fanteision, nid yn unig i'r bobl sy'n derbyn y gofal, ond hefyd i'r gweithwyr, gan y byddai'r Cyngor yn ail-edrych ar eu telerau gwaith fel rhan o hyn.
- Nodwyd bod costau uchel tanwydd ac yswiriant car yn rwystr i bobl ifanc rhag gweithio fel gofalwyr.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg gwelyau nyrsio yn Nwyfor a Meirionnydd a galwyd am sefydlu'r cartref nyrsio newydd ar safle Penrhos, Pwllheli. Mewn ymateb, nodwyd, er na ellid cadarnhau'r amserlen ar hyn o bryd, bod Penrhos yn gynllun eithriadol gyffrous a blaengar, ac awgrymwyd y gellid cynnal cyfarfod gyda'r aelod lleol i leddfu ei phryderon, gan hefyd roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r datblygiad arfaethedig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Sefydlog y Farchnad Gogledd Cymru 2022.**

**8. DIWYGIO POLISI IAITH GYMRAEG Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Jones, adroddiad yn gwahodd y Cyngor llawn i fabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig er mwyn adlewyrchu:-

- Y newidiadau mawr yn y modd mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016; ac
- Uchelgais cyfredol y Cyngor o ran hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Gan gyfeirio at Atodiad B i'r adroddiad – Crynodeb Ymgysylltu y Polisi – croesawyd y ffaith bod y ddogfen ar ei newydd wedd yn ystyried y materion a godwyd yng nghyfarfod 20 Mehefin, 2022 o'r Pwyllgor Iaith, ond gofynnwyd am eglurhad ar y paragraff "*Mae gennym bryder am ymrwymo mewn cymal polisi i fesur effaith cynlluniau yn uniongyrchol ar nifer a chanran siaradwyr, gan nad hawdd yw gwneud cyswllt uniongyrchol rhwng polisïau, prosiectau a chynlluniau strategol y Cyngor a newid yn nifer a chanran siaradwyr, ac felly nid hawdd fyddai profi yr effaith."* Cydnabyddid bod hynny'n anodd, ond ni chredid y dylai hynny fod yn rheswm dros beidio asesu effaith polisïau. Mewn ymateb, nodwyd mai'r hyn oedd yn anodd oedd gwybod sut i roi hynny fel egwyddor yn y polisi ei hun, ond cadarnhawyd bod hyn yn waith oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gan yr Uned i fod yn datblygu mesuryddion ar gyfer gwahanol brosiectau a pholisïau.
- Nodwyd y dylai unrhyw asesiad effaith ystyried pethau sy'n fesuradwy a'i bod yn hanfodol gwybod beth ydi'r mesuryddion. Awgrymwyd bod canran siaradwyr mewn cymuned neilltuol yn rhywbeth y mae modd ei fesur, yn fwy na phethau meddal. Ni chredid bod problem yn y maes cynllunio, er enghraifft, i fesur hynny, ond derbynnid y gallai fod yn anodd mewn rhai meysydd eraill lle mae cysylltu'r dystiolaeth a'r polisi yn anodd.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd edrych ar bethau fel yr iaith Gymraeg a thechnoleg a bod y polisi'n cyfarch y materion pwysig yma i'r dyfodol.
- Croesawyd amcan y Cyngor i gyfeirio at ei hun fel '*Cyngor Gwynedd'* yn hytrach na '*Cyngor Gwynedd Council'* o hyn allan.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2021-22

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2021-22.

Nododd y Dr Einir Young mai hwn fyddai'r tro olaf iddi ddod gerbron y Cyngor i gyflwyno'r adroddiad blynyddol, gan fod ei thymor ar y Pwyllgor yn dod i ben. Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor, y Swyddog Monitro, y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth am eu holl gymorth a chefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Diolchodd hefyd i'r aelodau etholedig am gynnal safonau ac am wneud gwaith y pwyllgor yn haws.

Diolchodd y Swyddog Monitro i'r Dr Einir Young am ei gwasanaeth ac am gadeirio ac arwain y Pwyllgor yn lleol ac yn rhanbarthol hefyd. Diolchodd iddi hefyd am y gefnogaeth a'r gwaith caled a'r weledigaeth, gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Ategwyd geiriau'r Swyddog Monitro gan y Cadeirydd, yr Arweinydd ac Arweinydd yr Wrthblaid, a diolchwyd i'r Dr Einir Young am ddod gerbron y Cyngor yn flynyddol i roi cyflwyniad clir, cytbwys a chadarn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. PENDERFYNIAD BRYS CABINET

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er gwybodaeth, ar benderfyniad brys gan y Cabinet ar 27 Medi, 2022 i gymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer newidiadau posib' i'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a thai gwag. Eglurwyd, oherwydd effaith gohirio cyfarfod 13 Medi o'r Cabinet yn sgil marwolaeth y Frenhines, y byddai gweithredu'r cyfnod galw i mewn ar gyfer penderfyniadau wedi golygu y byddai dyddiad cychwyn y cyfnod ymgynghori wedi llithro'n sylweddol. Gan hynny, bu'n ofynnol

gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad i eithrio'r mater o'r drefn galw i mewn i graffu er sicrhau bod y Cyngor yn medru cychwyn ar y broses ymgynghori yn amserol.

Mewn ymateb i gais gan aelod, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod copïau papur o'r pecyn ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar gael drwy ffonio'r Adran Gyllid.

Holwyd beth fyddai sefyllfa aelodau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad, gan y byddent wedi mynegi barn ar y mater cyn i'r Cyngor llawn ei drafod ym mis Rhagfyr. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro na ddymunid agor trafodaeth ar y Premiwm yn y cyfarfod hwn, ond y gallai'r aelod gysylltu ag ef yn uniongyrchol i gael cyngor ar hynny. Ychwanegodd nad trafod y Premiwm oedd pwrpas yr eitem oedd gerbron, eithr eitem dechnegol ydoedd, yn adrodd ar drefn a ddilynwyd ar gyfer y penderfyniad.

Mynegodd aelod ei anfodlonrwydd gyda'r broses ar y sail bod y Cabinet wedi gofyn am yr hawl i fwrw ymlaen â mater na chafodd yr holl aelodau gyfle i'r drafod. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Monitro y drefn unwaith yn rhagor, gan nodi mai'r Cyngor llawn fyddai'n dod i benderfyniad ar y mater maes o law, ond mai rôl y Cabinet oedd gwneud y penderfyniad cychwynnol i gynnal ymgynghoriad er mwyn sicrhau priodoldeb y drefn a gwneud yn siwr na fyddai'n agored i her.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 11. RHYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elfed Wyn ab Elwyn o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

(i) Bod y Cyngor hwn yn datgan gwrthwynebiad i barhad y teitl 'Tywysog Cymru' ac yn gofyn i'r awdurdodau perthnasol ymgynghori'n ffurfiol â phoblogaeth Cymru ar ddiddymu'r teitl ai peidio.
(ii) Bod y Cyngor yn gwrthwynebu unrhyw arwisgiad rhag cael ei gynnal yng Ngwynedd neu unrhyw le ar diroedd Cymru.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig gan nodi:-

- Bod teitl Tywysog Cymru wedi bod yn friw ar ein cenedl ers canrifoedd a'i fod yn ein hatgoffa ein bod ni'n eiddo i'r drefn, yn hytrach na'n ddinasyddion yn ein gwlad. Nodwyd bod yr amser wedi dod i ni fel cenedl wrthwynebu'r teitl yma, ac i wrthwynebu'r gwerthoedd annemocrataidd mae'r syniad o dywysog Cymru yn ei gynrychioli.
- Nad oedd yn gweld ei hun fel eiddo'r dywysogaeth, ond yn hytrach yn gyfartal i'w gyd-ddyn.
- Bod yr ariannu cyhoeddus sy'n mynd at gynnal y Teulu Brenhinol, gan gynnwys swydd Tywysog Cymru, yn wastraffus gan ystyried yr argyfwng costau byw mae'n pobl yn ei ddioddef.
- Bod rhai aelodau'n cofio arwisgiad 1969, a'r rhwyg cenedlaethol a'r drwg deimlad gododd yn sgil hynny, ond gwaeth fyddai'r drwg deimlad a'r ffraeo fyddai'n codi yn sgil unrhyw arwisgiad heddiw.
- Bod llawer iawn wedi newid ers 1969, gyda Chymru nawr yn meddu ar Senedd ei hun, gyda'r gwerthoedd democrataidd Cymreig i'w gweld yn tyfu wrth i'n Llywodraeth a'n Senedd ni dderbyn mwy o rym. Nodwyd bod yr hen drefn o weld Cymru fel tywysogaeth, neu 'the little principality' bellach yn rhywbeth sy'n perthyn i'r mileniwm diwethaf, a'i bod yn bryd i ni symud ymlaen yn rhydd o'r hen deitl yma sy'n peri cymaint o warth i ni.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Nododd aelod y byddai'n atal ei bleidlais ar y mater ar y sail:-

- Nad oedd yn gweld bod y cynnig o bwys mawr i'n cenedl yn y sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd, ac mai'r ffordd orau o gyfarch yr argyfwng costau ynni, ac unrhyw argyfwng arall fydd yn ein hwynebu, yw drwy sicrhau annibyniaeth i Gymru.
- Bod yna amryw o bobl sydd o blaid annibyniaeth hefyd o blaid y Teulu Brenhinol.
- Bod 54 gwlad yn rhan o'r Gymanwlad, ac y dymunai i Gymru fod yn o'r rheini hefyd.

Cefnogwyd y cynnig gan nifer o aelodau ar y sail:-

- Mai nod amgen ceidwadaeth wleidyddol ydi parch at hierarchaeth ac awdurdod, a bod unrhyw un sydd am weld cymdeithas lle mae pawb yn gyfartal yn ymwrthod â'r syniad o frenhiniaeth, oherwydd bod y syniad o frenhiniaeth ynddo'i hun yn gosod anghydraddoldeb wrth galon ein sefydliad gwleidyddol ni.
- Bod brenhiniaeth yn gosod seilwaith o anghydraddoldeb ac yn anghydnaws â'r oes sydd ohoni a bod sawl gwlad arall ar draws y byd wedi ymwrthod â'r cysyniad yn llwyr.
- Bod y penderfyniad i roi'r teitl i'r Tywysog William wedi'i wneud heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru.
- Ei bod yn bwysig clywed llais dinasyddion Cymru ar y mater, a bod y cynnig yn fodd i hynny ddigwydd yn agored ac yn ddemocrataidd.
- Bod y teitl Tywysog Cymru wedi'i greu i fychanu Cymru, ac i'n hatgoffa nad ydym yn annibynnol, nac am fod yn annibynnol.
- Nad yw Tywysog Cymru yn gwybod dim am ein gwlad a'n hiaith, nac yn gwybod dim am y gwasanaethau rydym ni'n ddefnyddio yng Nghymru.
- Na chredid bod cefnogi annibyniaeth yn gydnaws â chefnogi'r teitl Tywysog Cymru.
- Bod y teitl Tywysog Cymru yn symbol o rywbeth annemocrataidd ac anghyfartal ac yn gwbl groes i egwyddorion craidd Cynllun y Cyngor hwn.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

<u>O blaid</u> (46) Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Elin Hywel, Nia Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, Linda A.Jones, June Jones, Menna Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Rheinallt Puw, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

<u>Yn erbyn</u> (4) Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Eryl Jones-Williams, John Pughe a Rob Triggs.

<u>Atal</u> (4) Y Cynghorwyr:- Annwen Hughes, Richard Medwyn Hughes, Dewi Owen a Gwynfor Owen.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**(i)** **Bod y Cyngor hwn yn datgan gwrthwynebiad i barhad y teitl 'Tywysog Cymru' ac yn gofyn i'r awdurdodau perthnasol ymgynghori'n ffurfiol â phoblogaeth Cymru ar ddiddymu'r teitl ai peidio.**

**(ii)** **Bod y Cyngor yn gwrthwynebu unrhyw arwisgiad rhag cael ei gynnal yng Ngwynedd neu unrhyw le ar diroedd Cymru.**

**11. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth:-

(a) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Rhys Tudur i gyfarfod 23 Mehefin 2022 o'r Cyngor ynglŷn ag ymgynghoriadau ar ail-gartrefi.

(b) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gwynfor Owen i gyfarfod 23 Mehefin, 2022 ynglŷn â llwyddiant Tîm Pêl-droed Cymru wrth gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **1 Rhagfyr 2022** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2023/24** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2023** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1 Tynnir sylw aelodau'r Cyngor fod gofyn statudol i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn yn flynyddol, hyd yn oed os nad oes newid yn y cynllun ers y flwyddyn flaenorol. Dyna'r achos eleni – argymhellir dim newid i'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 2 Rhagfyr 2021.**

**1.2 Gofynnir i aelodau hefyd nodi fod yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor YN UNIG, sef cynllun cymorth sydd yn seiliedig ar brawf modd mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol amdano gan y Gwasanaeth Budd-dal. NID YW'R CYNLLUN HWN, na'r adroddiad yma, yn berthnasol i unrhyw gynllun disgownt neu eithriad Treth Cyngor arall (e.e. disgownt person sengl, eithriad eiddo gwag sy'n cael ei adnewyddu, tai myfyrwyr).**

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2023/24.

2.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

2.3 Yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029)*, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2022/23) gan y Cyngor Llawn ar 2 Rhagfyr 2021.

2.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

2.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

2.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei newid ar gyfer 2023/24.** Mae eglurhad manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 3. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**3.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2023 fel ag yr oedd yn ystod 2022/23. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**3.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2023/24, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2012, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (SI 2013/3029)* yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

4.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2022/23 gan y Cyngor Llawn ar 2 Rhagfyr 2021. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

**5. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2023/24**

5.1 Mae’r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i’r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy’n rhagflaenu’r flwyddyn ariannol pan fo’r diwygiad neu’r cynllun a amnewidir i gael effaith.

5.2 Mae’r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo’r swyddogaeth o wneud y cynllun i’r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

5.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni’r gofyn i’r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

5.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Gellir defnyddio disgresiwn i wneud yn elfennau hyn yn fwy hael na’r cynllun cenedlaethol, ond nid yn llai hael.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

5.5 Mae disgresiwn i gynyddu’r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o’r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Oherwydd hyn, mae’r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi’i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24. Ym mis Tachwedd 2022, roedd 27 o hawlwyr yn manteisio o’r disgresiwn yma.

Argymhellir fod caniatáu’r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

5.6 Mae disgresiwn i gynyddu’r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o’r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i’r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2022/23 oddeutu £1,100. Yn 2022/23 hyd at ganol Tachwedd, roedd 15 achos lle roedd “taliadau estynedig” o’r fath wedi eu caniatáu yn unol â’r Cynllun Rhagnodedig.

Argymhellir parhau i beidio addasu’r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy’n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

5.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £22,973 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2022/23, a hyd at ganol Tachwedd mae 112 hawliad wedi cael peth elfen o ôl-ddyddio yn 2022/23.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**5.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2023/24 yn unol â threfniadau cyfredol 2022/23.**

## 6. YMGYNGHORI

6.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

6.2 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Fel nodir ym Rhan 4 o'r adroddiad yma, yng nghyd-destun y Cynllun Rhagnodedig sydd yn ei le ar gyfer holl hawlwyr Gostyngiad Treth Cyngor ar draws Cymru gyfan, cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol, ar wahân i dri maes penodol iawn.

7.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun cenedlaethol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb. Cynhaliwyd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol yn 2013 pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, a bryd hynny gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r cynllun lleol tra'n cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau.

7.3 Mae'r Cyngor angen penderfynu, felly, yw os ydi'r penderfyniadau a geisir yn 2.1 a) – c) yn effeithio ar unrhyw un sydd ag un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyfan. Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ers 2013. Mae asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn awgrymu fod casgliadau asesiad 2013 yn parhau'n ddilys ac na fydd y penderfyniadau cyfyngedig hyn a geisir yn effeithio unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig yn wahanol i'r boblogaeth gyfan.

## 8. ADNODDAU

8.1 Ar sail adolygiad refeniw diwedd Awst 2022, disgwylir y bydd y Cynllun Gostyngiadau Treth Cygnor yn costio oddeutu £9.5m yn ystod 2022/23 ac mae hynny o fewn y gyllideb sydd wedi ei osod.

8.2 Nid oes dewis ond wynebu cost parhaus y Cynllun, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol wrth lunio cyllideb 2023/24.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Eitem 8

| CYFARFOD: | Y Cyngor Llawn |
|---|---|
| DYDDIAD: | 1 Rhagfyr 2022 |
| AELOD CABINET: | Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet Cyllid |
| TEITL: | TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM |
| AMCAN: | Cadarnhad ffurfiol am 2022/23 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 150% neu 100% ar eiddo perthnasol o'r fath. |
| SWYDDOG CYSWLLT: | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

1.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

1.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).

1.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Penderfynodd y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2021 y byddai'n cadw'r lefel heb ei newid ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

**ARGYMHELLIAD**

**Argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fod Cyngor Gwynedd yn:**

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**
- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**

## 2. CYFLWYNIAD

2.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

2.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

2.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

2.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

2.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

2.6. Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

2.7. Er mwyn ei alluogi i wneud argymhelliad yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022, penderfynodd y Cabinet ar 27 Medi 2022 y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn y cyhoedd sut dylid ymateb i'r newid yn y Ddeddf. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, a phwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad, yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol eraill, fel bod modd i'r Cabinet bwyso a mesur yr adborth sydd wedi ei dderbyn cyn penderfynu ar argymhelliad i'w gynnig i'r Cyngor llawn.

2.8. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnwys yn Rhan 4 yr adroddiad yma.

## 3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cyd-destun

3.1. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

3.2. Yn *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105)* mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

3.3. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

3.4. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

3.5. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

3.6. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&

3.7. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

3.8. Mae strategaeth ariannol 2022/23, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2022/23.

3.9. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

3.10. Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:

- **4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- **229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
- **753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

3.11. Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

3.12. Gellir gweld sut mae'r niferoedd wedi newid yn y tabl isod:

| | Gorffennaf 2016 | Tachwedd 2020 | Tachwedd 2022 |
|---|---|---|---|
| Ail-gartrefi Dosbarth B* | 4,841 | 4,718 | 4,564 |
| Annedd gwag hirdymor | 1,115 | 1,130 | 1,099 |

** eithriad ddim yn berthnasol*

Gofynion Statudol

3.13. Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm (yn wreiddiol hyd at 100% ac yna hyd at 300%) ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Mae copi o'r Canllawiau Statudol i'w gael yn Atodiad 1.

3.14. Mae paragraffau 20 i 22 o'r Canllawiau yn amlinellu'r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriad cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, ac yna bob blwyddyn pan yn dod i benderfyniad ar y Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu argymell cynyddu lefel y Premiwm bydd angen iddo ystyried y canlynol eto, a sut mae'r dystiolaeth sydd i law yn cyflawni'r isod.

**20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:**

- **adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a**
- **chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.**

**21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.**

**22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.**

- **Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;**
- **Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;**
- **Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;**
- **Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;**

- **Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;**
- **Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.**

3.15. Wrth gyflwyno’r Premiwm o 50%, rhoddwyd sylw penodol i ddau astudiaeth. Yn gyntaf, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013 oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwyso am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a’r gyfundrefn treth busnes. Roedd y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad fanwl yn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi’r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Rhannwyd canlyniad y dadansoddiad yma gydag aelodau ar y pryd, a bu’n ystyriaeth allweddol wrth wneud y penderfyniad i godi Premiwm ar ail gartrefi.

3.16. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Dai 2013-17 yn rhoi sylw i eiddo gwag o fewn Gwynedd, a datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag oedd: “Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu’r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu’r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau’r pwysau ar y Rhestr Aros Tai”.

3.17. Erbyn hyn, mae’r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai newydd (Cyngor llawn, 18 Gorffennaf 2019), ac mae tri adroddiad allweddol wedi cael sylw gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020 a Mehefin 2021:

15 Rhagfyr 2020

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

Cynllun Gweithredu Tai.

15 Mehefin 2021

Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru

3.18. Mae’r uchod yn dystiolaeth allweddol er mwyn ystyried os oes cyfiawnhad dros newid lefel bresennol y Premiwm.

**Ail Gartrefi**

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

3.19. Mae canlyniad y Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn rhoi cefndir o'r sefyllfa yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd:

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Atodiad – Ymchwil:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1

3.20. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd y penderfyniad "yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf".

3.21. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried "cartrefi gwyliau" fel cyfuniad o ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar. Roedd yr astudiaeth yn amlygu'r nifer uchel o anheddau a ddefnyddir o fewn Gwynedd at bwrpasau gwyliau, gyda dros 4,800 o ail-gartrefi ac oddeutu 2,000 o unedau gwyliau hunan-ddarpar (Tachwedd 2020):

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer o unedau preswyl | 61,645 | 988,418 |
| Nifer o ail-gartrefi | 4,873 | 18,547 |
| Nifer o lety gwyliau hunan-ddarpar (uned busnes annomestig) | 1,976 | 6,906 |
| Cyfanswm cyfunol | 6,849 | 25453 |
| Canran cyfunol o lety gwyliau | 10.76% | 2.56% |

*Ffynhonnell: Adroddiad Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau, Rhagfyr 2020*

3.22. Casgliadau'r adroddiad oedd fod y gwaith ymchwil wedi yn adnabod fod yna rai ardaloedd yn y DU a gwledydd/dinasoedd ar y cyfandir sydd wedi gweithredu neu yn y broses o gyflwyno mesurau er mwyn ceisio rheoli llety gwyliau tymor byr. Mae'r dulliau rheolaeth yn amrywio ac yn aml yn ddibynnol ar ffactorau cyd-destunol o ran effaith cartrefi gwyliau ar yr ardal leol ac yn ehangach. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos heb unrhyw amheuaeth fod cyfraddau uchel o gartrefi gwyliau yn cael effaith andwyol yn economaidd, gymdeithasol a diwylliannol ar gymunedau.

3.23. Mae dros 1 o bob 10 uned preswyl yng Ngwynedd yn lety gwyliau gydag 8% yn ail gartrefi. Nid yw'r unedau gwyliau hunan-ddarpar yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Treth Cyngor gan eu bod wedi trosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig, a rhoddir mwy o sylw i'r eiddo hyn yn Rhan 6 yr adroddiad yma.

3.24. Fel mae'r Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn nodi, ers cyflwyno premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn 2018 a chyflwyno'r cynllun rhyddhad treth i unedau llety gwyliau hunanarlwyo cymwys sy'n talu'r cyfraddau trethi annomestig, mae nifer yr ail gartrefi wedi lleihau'n raddol gyda nifer yr eiddo sy'n talu cyfraddau treth annomestig yn cynyddu'n raddol.

3.25. Fodd bynnag, disgwylir bydd newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn weithredol rym yn Ebrill 2023 yn debygol o arafu'r trosglwyddiad yma. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Rhan 6 isod.

Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru

3.26. Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr o dan y teitl "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" (awdur Dr Simon Brooks) mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Mae copi o'r adroddiad i'w gael yma:

Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru

3.27. Mae'r adroddiad yn un cynhwysfawr, ond un o'r pwyntiau sy'n cael eu nodi ynddo yw fod y "*disgwrs presennol ynghylch ail gartrefi a'u heffaith ar gynaliadwyedd cymunedau yng Nghymru a'r iaith Gymraeg yn aml yn anecdotaidd ac nid yw wedi'i wreiddio mewn ymchwil drylwyr. Mae'n 19 o flynyddoedd ers cyhoeddi'r astudiaeth gynhwysfawr ddiwethaf o'r maes. O ganlyniad, ceir nifer helaeth o dybiaethau a honiadau am ail gartrefi mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru heddiw sy'n haeddu ystyriaeth bellach*". Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i restru pedair tybiaeth cyffredin, sef:

- Tybiaeth 1: Ail gartrefi sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau tai mewn cymunedau penodol
- Tybiaeth 2: Pe bai llai o ail gartrefi, byddai pobl leol yn symud i'r cymunedau hyn i fyw
- Tybiaeth 3: Mae gostwng prisiau tai'n ddymunol
- Tybiaeth 4: Mae ail gartrefi yn niweidio'r iaith Gymraeg

3.28. Â'r adroddiad ymlaen i ystyried y bedair dybiaeth yma yn eu tro, ac mae'n dod i'r casgliad canlynol.

3.29. "*Nid gwaredu ail gartrefi yn gyfan gwbl yw'r ateb gorau mewn cymunedau lle maent yn ffurfio rhan sylweddol o'r stoc dai. Am y rhesymau a nodwyd, byddai troi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd sydyn fwy na thebyg yn arwain at gynnydd sylweddol mewn mewnlifiad parhaol i gefn gwlad Cymru a allai gael effaith niweidiol ar y Gymraeg.*

3.30. *"Mewn cymunedau Cymraeg glan môr mewn ardal fel Dwyfor lle ceir 20% a mwy o'r stoc dai yn ail gartrefi, gallai trosi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd nad oedd wedi ei gynllunio'n ofalus fod yn gatastroffig.*

3.31. *"Ond byddai cynyddu canran yr ail gartrefi yn y cymunedau hyn hefyd yn niweidiol gan y byddai'n lleihau niferoedd absoliwt siaradwyr Cymraeg yn lleol. Creulondeb y sefyllfa o safbwynt y gymuned Gymraeg yw fod trosi rhagor o dai annedd yn ail gartrefi yn niweidiol i'r Gymraeg, ond byddai gostyngiad mawr neu sydyn yn niferoedd yr ail gartrefi hefyd yn niweidiol. Mae'r ddau beth yn wir am eu bod yn gysylltiedig â'r un ffenomen, sef anallu pobl leol i gystadlu yn y farchnad dai yn erbyn prynwyr o'r tu allan i'r gymuned.*

3.32. *"Mae dadl felly dros lunio polisi cyhoeddus sy'n ceisio sefydlogrwydd o ran nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau a effeithir ganddynt, neu sy'n ceisio lleihau nifer yr ail gartrefi mewn modd graddol dros nifer o flynyddoedd*".

3.33. Mae adroddiad Dr Brooks yn cynnwys 12 argymhelliad ac ar 15 Mehefin 2021 trafododd y Cabinet ymateb y Cyngor i'r adroddiad:

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r adroddiad "Ail Gartrefi - Datblygu Polisiau Newydd Yng Nghymru"

3.34. Roedd penderfyniad y Cabinet fel a ganlyn:

"Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd".

**Anheddau Gwag**

3.35. Ers cyflwyno'r Premiwm am y tro cyntaf yn 2018 mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r un gyfarfod ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Un o'r rhesymau am hyn oedd ymarferoldeb cadw trosolwg o'r eiddo oedd wedi eu dodrefnu a'r rhai sydd ddim (sef y gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddau fath o eiddo).

3.36. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau bilio yng Nghymru yn codi cyfradd wahanol o Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi, ac mae hyn yn bosibilrwydd yng Ngwynedd hefyd.

3.37. Dylid nodi hefyd fod cyfanswm o 1,099 eiddo gwag hir-dymor, tra'n gymharol isel o'i gymharu â nifer yr ail gartrefi o fewn Gwynedd, yn ffigwr uchel pan yn ystyried y galw am gartrefi fforddiadwy o fewn y sir ac mae hyn wedi ei gydnabod yn y Strategaeth Tai. Yn ôl Ystadegau Cymru, mae amcangyfrifon yn awgrymu fod Gwynedd yn 5$^{ed}$ allan o 22 awdurdod lleol Cymru o ran nifer o eiddo gwag hirdymor.

3.38. Mewn cymhariaeth â'r ail gartrefi ac eiddo sydd wedi trosglwyddo, gwelir fod yr eiddo gwag hirdymor o fewn Gwynedd yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor is nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol; gwelir yn arbennig fod dros 20% ohonynt ym Mand A, o'i gymharu â llai na 15% o'r stoc cyffredinol.

Strategaeth Tai 2019-2024

3.39. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Tai 2019-2024, "Cartrefi i Bobl Gwynedd" yng Ngorffennaf 2019:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Tai/Strategaeth-Tai-v29-Terf-Cymraeg.pdf

3.40. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Mae'r Strategaeth yn nodi'r canlynol am dai gwag: *"Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion".*

## 4. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

4.1. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn trosi'r Strategaeth Dai i mewn i brosiectau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

4.2. Yn 2019 fe sefydlodd y Cyngor yr Adran Tai ac Eiddo newydd oherwydd ei fod wedi adnabod yr angen i fod yn cyflawni mwy yn y maes tai. Roedd trigolion Gwynedd yn wynebu nifer o heriau ar y pryd sy'n golygu ei bod yn eithriadol o heriol cael mynediad at gartrefi addas o fewn ein cymunedau. Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir nad yw hyn yn sefyllfa gynaliadwy a bod angen iddo fod yn ymateb ym mhob ffordd posib.

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27956/Eitem%206%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai%20TERFYNOL.pdf?LLL=1

Mae dolen i'r Cynllun Gweithredu Tai i'w gael yma:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1

4.3. Wrth fabwysiadu'r Cynllun, roedd y Cyngor yn gwybod y byddai angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hynny ac yn caniatáu i'r Cyngor anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol.

4.4. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cymryd pob cyfle o fewn ei reolaeth uniongyrchol yn y maes tai, mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys 33 o brosiectau gwahanol wedi eu teilwra i geisio ymateb i bob un o'i amcanion yn y maes hwn, sef:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

## 5. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

5.1. Eglurwyd i'r Cabinet ym Medi 2022 fod y Canllawiau Statudol, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*, hefyd yn nodi

> **23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.**

5.2. Defnyddiwyd y meddalwedd *LimeSurvey* a ddefnyddir yn arferol gan y Cyngor er mwyn llunio holiadur. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi 2022, ac roedd yn agored am 28 diwrnod tan 28 Hydref 2022. Rhyddhawyd datganiadau i'r wasg a arweiniodd at nifer o erthyglau ac eitemau yn y wasg a'r cyfryngau. Dechreuwyd cyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yr un pryd er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd ail ddatganiad i'r wasg ym mis Hydref mewn da bryd cyn y dyddiad cau, a bu sawl neges atgoffa ar gyfrifon Facebook a Trydar y Cyngor.

Cyfryngau Cymdeithasol a Llythyru

5.3. Er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o’r ymgynghoriad mor eang â phosib, ar 29 Medi anfonwyd llythyr at bob perchennog ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yn eu hysbysu am yr ymgynghoriad; lle roedd cyfeiriad gohebu ar y system Treth Cyngor oedd yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo dan sylw, defnyddiwyd y cyfeiriad gohebu.

5.4. Rydym yn hyderus felly bod ymdrech resymol wedi cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl Gwynedd a perchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i’w hysbysu o’r ymgynghoriad fel bod modd iddynt ymateb, ac fod hyn yn dystiolaeth fod ymdrech glir wedi ei wneud i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

5.5. Nid oes modd cael cyfleuster gwirio a fyddai’n sicrhau mai unwaith yn unig y gallai unigolyn fynegi barn, ond mae'n bwysig nodi nad pleidlais neu refferendwm cyhoeddus yw'r ymarfer hwn ond yn hytrach ymarfer ymgynghori a gynlluniwyd i gasglu barn trigolion llawn amser Gwynedd yn ogystal â pherchnogion anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd ac anheddau gwag hirdymor ar faterion parhaus. Hynny yw, nid cyfrif amrwd o’r atebion o blaid ac yn erbyn cynyddu'r Premiwm fydd y prif ffactor fydd angen ei ystyried, ond serch hynny mae’r ffigyrau isod yn rhoi ymdeimlad i aelodau’r Cabinet am nifer a chyfeiriad yr ymatebion.

5.6. Mae’n egwyddor sylfaenol fod unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan mae’r cynigion yn cael eu ffurfio a fod canlyniadau’r ymgynghoriad yn cael ystyriaeth cydwybodol wrth ddod i safbwynt. Felly, wrth wneud ei argymhelliad, bydd angen i’r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r materion a'r pryderon sydd wedi eu cynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fel bod darlun llawn o’r materion sydd wedi cael eu tynnu i’w sylw.

5.7. Mae’r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth wedi gwneud ymdrech sylweddol ers dyddiad cau’r ymgynghoriad ar 28 Hydref ddadansoddi’r canlyniadau. Mae canlyniad llawn eu gwaith i’w gael yn Atodiad 2.

Nifer Ymatebion

5.8. Derbyniwyd **7,330** o ymatebion i’r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i’r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma’r nifer fwyaf o ymatebion mae’r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

5.9. Roedd 3,518 (48.0%) o’r rhai a atebodd yn datgan fod eu prif gartref yng Ngwynedd, a 2,690 (36.7%) yn datgan fod eu prif gartref y tu allan i Wynedd

5.10. O'r ymatebwyr:

- Roedd 3,646 (49.7%) yn dweud nad oeddynt yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor
- Roedd 3,447 (47.0%) yn dweud eu bod yn berchen ar ail gartref
- Roedd 201 (2.7%) yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor
- Roedd 36 (0.5%) yn dweud eu bod yn berchennog ar ail gartref ac annedd gwag hir dymor


5.11. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

Dadansoddi'r Canlyniadau – Ail Gartrefi

5.12. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.13. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn a gwelir bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, ond roedd oddeutu 40% o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor hefyd o'r farn yma.

5.14. Cwestiwn allweddol yn yr ymgynghoriad oedd ***Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?***



5.15. Mewn cyfanswm roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% heb farn.

5.16. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd (54.1%) o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.

5.17. O'r 24% oedd o blaid cynyddu'r Premiwm, roedd 66% ohonynt eisiau ei gynyddu i 300% a hynny ar unwaith.

5.18. Tra'n pwysleisio eto nad refferendwm oedd y broses, ond ymgynghoriad sy'n chwilio am farn a sylwadau i gynorthwyo'r awdurdod i ddod at benderfyniad, mae'r ymatebion yn rhoi ymdeimlad o'r farn gyhoeddus am y cynnig.

5.19. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

5.20. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

5.21. Fodd bynnag, roedd mwyafrif llethol (81.4%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

5.22. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o'r farn na fyddai yna effaith.


5.23. Un o'r dadleuon cyffredin iawn yn y sylwadau gan berchnogion ail gartrefi oedd y budd economaidd roeddynt yn ddweud maent yn ei gyfrannu i Wynedd, gan roi gwaith i adeiladwyr a masnachwyr lleol eraill, yn ogystal â'r gefnogaeth sy'n cael ei roi i siopau lleol. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

5.24. Roedd mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o'r farn na fyddai yna effaith.

<u>Dadansoddi'r Canlyniadau – Anheddau Gwag Hir-dymor</u>

5.25. Mewn cyfanswm roedd 72.9% o'r ymatebwyr yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% o'r ymatebwyr farn ar y mater. Roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol.

5.26. At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr os dylid cynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor yn rhanedig iawn, gyda 43.8% yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% o'r ymatebwyr farn ar hyn. Roedd mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith yr ymatebwyr nad oedd yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r Premiwm.




5.27. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

5.28. O ran effaith ar y gymuned leol, roedd y farn yn eithaf rhanedig gyda 40.0% o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% yn credu na fyddai effaith a 22.1% o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.29. At ei gilydd 'roedd cryn wahaniaeth barn yr effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol. Roedd 37.5% o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.30. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn. Roedd 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Gohebiaeth arall

5.31. Yn ogystal â’r 7,330 o ymatebion i’r holiadur ffurfiol, mae’r swyddogion ac aelodau’r Cyngor wedi derbyn sawl llythyr gan aelodau’r cyhoedd yn mynegi eu barn ar y Premiwm Treth Cyngor. Yn y tabl isod ceir crynodeb o’r pwyntiau oedd yn cael eu codi yn y llythyrau ac sy’n briodol eu hystyried pan fel rhan o’r broses hwn.

| | |
|---|---|
| Mae’r eiddo mewn ystâd sydd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol fel cartrefi gwyliau ac yn anaddas fel cartrefi | 25 |
| Dylid eithrio "brodorion" / rhai sydd wedi magu'n lleol / Cymry Cymraeg / Rhai sydd wedi etifeddu / Eiddo sydd wedi bod yn y teulu ers blynyddoedd | 11 |
| Byddai'n rhaid gwerthu'r eiddo | 8 |
| Gwrthwynebu'r Premiwm yn gyffredinol | 8 |
| Bydd effaith negyddol ar yr economi lleol | 7 |
| Perchnogion yn cael eu targedu oherwydd blynyddoedd o ddiffyg tai addas | 2 |
| Dylid eithrio'r rhai sydd wedi prynu'r eiddo cyn i'r Premiwm ddod i mewn | 2 |
| Ni fydd posib parhau i ddod i'r ardal (rhai wedi dod ers dros 60 mlynedd) | 2 |
| Ceisiadau am eithriad oherwydd amgylchiadau personol | 1 |
| Dylid eithrio tai gwerth llai na £200,000 | 1 |
| Bydd lleihad mewn twristiaeth | 1 |
| Mae'r Cyngor yn dwyn pensiynau'r henoed | 1 |
| Gwrthwynebu cwestiynau'r ymgynghoriad | 1 |
| Wedi gorfod gadael yr eiddo i roi gofal | 1 |
| Pobl mwy cyfoethog fyddai'n prynu'r eiddo petai rhaid gwerthu | 1 |
| Cymar wedi ei chladdu yn yr ardal | 1 |
| Mae'r Cyngor yn targedu'r bobl anghywir | 1 |
| Pam targedu pobl sydd wedi dod i'r ardal ers blynyddoedd? | 1 |
| Dylid eithrio Fairbourne oherwydd yr amgylchiadau yno | 1 |

5.32. Dylid nodi fod perchnogion cartrefi gwyliau mewn un datblygiad yn benodol wedi cydweithio i ohebu i fynegi nad ddylid codi Premiwm ar eiddo mewn ystâd a adeiladwyd yn wreiddiol ac a farchnatwyd fel unedau gwyliau; mae’r perchnogion yn dweud nad yw eiddo fel hyn yn addas fel cartrefi.

5.33. Gwelir hefyd fod unigolion wedi gohebu i nodi y Premiwm yn targedu Cymry Cymraeg sydd wedi symud i fyw tu allan i Wynedd oherwydd gwaith ond yn cadw eiddo o fewn y sir gan eu bod eisiau dychwelyd i ymweld ag ardal eu magwraeth mor aml â phosib. Maent wedi nodi y byddai eu gorfodi i werthu yn golygu dirywiad yn y Gymraeg yn y pentrefi hyn, nid ei gryfhau.

## 6. TROSGLWYDDIADAU UNEDAU GWYLIAU HUNAN-DDARPAR

6.1. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Byddai hyn oherwydd fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny.

6.2. Mae'r Cyngor ers sawl blwyddyn wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig, a'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn ryddhad ardrethi busnesau bychain. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi fod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal ein pwyso yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd.

6.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newid deddfwriaethol fydd yn cael effaith ar 1 Ebrill ymlaen ar unedau gwyliau hunan-ddarpar. Effaith *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (SI 2022/563 (Cy. 129))* yw fod Adran 66 Deddf 1988 wedi cael ei addasu fel y bydd angen i annedd fod wedi bod ar gael i'w osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf, fod bwriad ei osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn nesaf, ac fod eiddo wedi cael ei wir osod am 182 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf (o'i gymharu â 70 diwrnod ar hyn o bryd).

6.4. Wrth ddod i benderfyniad ar y Premiwm mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i'r risg y byddai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion ail gartrefi i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig. Er fod y risg yma yn parhau i fodoli, mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o ddyddiau lle mae'n rhaid gosod eiddo yn debygol o arwain at arafu arwyddocaol yn y gyfradd drosglwyddo.

6.5. Mae'r ffigyrau diweddaraf (hyd at ddiwedd Hydref 2022) yn dangos fod cyfanswm o 2,908 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig, wedi i Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr ddynodi'r eiddo yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae oddeutu 90% o'r eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy arnynt:

| Blwyddyn ariannol | Nifer eiddo'n trosglwyddo |
|---|---:|
| 2022-23 (hyd at 31/10/2022) | 246 |
| 2021-22 | 469 |
| 2020-21 | 506 |
| 2019-20 | 397 |
| 2018-19 | 454 |
| 2017-18 | 282 |
| 2016-17 | 199 |
| 2015-16 | 167 |
| 2014-15 | 188 |
| **Cyfanswm** | **2,908** |

6.6. Mae profiadau dros y dair blynedd diwethaf, e.e. wrth weinyddu grantiau busnes Covid-19 y Llywodraeth, wedi dangos fod nifer o unigolion a chwmnïau yn prynu eiddo yng Ngwynedd erbyn hyn yn benodol gyda'r bwriad o'u trosi i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn hytrach na'u defnyddio fel ail gartref. Fel rhan o'r buddsoddiad yma maent yn ymdrechu i gadw'r eiddo o fewn y gyfundrefn Treth Cyngor am cyn lleied â phosib cyn gallu trosglwyddo.

## 7. EITHRIADAU

7.1. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy’n rhoi’r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Mae’r tabl isod yn crynhoi’r eithriadau lle na allwn godi’r premiwm yn unol â Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068). Mae’r tabl isod yn amlinellu’r eithriadau lle na ellir codi Premiwm:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy’n gymwys i’r eithriad rhag talu’r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

7.2. Tynnir sylw’r Cabinet i ddau fater yn benodol wrth ymdrin ag eithriadau. Yn gyntaf, ar 11 Tachwedd 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar addasiadau i Reoliadau 2015. Mae’r rheoliadau drafft yn argymell addasu Dosbarth 6 yn y tabl uchod fel bod yr eiddo canlynol wedi eu heithrio o dalu’r Premiwm lle mae cyfyngiadau cynllunio:

(a) yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;

(b) yn pennu na chaniateir defnyddio’r annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr; neu

(c) yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.

7.3. Mae manylion am yr ymgynghoriad cyhoeddus, fydd yn cau ar 22 Rhagfyr 2022, i'w cael yma: [Rheoliadau drafft y Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU]

7.4. Yr ail fater sydd angen ei ystyried yw y byddai angen defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno unrhyw eithriadau lleol, dewisol. Mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn.

7.5. Felly, gellir ymdrin ag eithriadau fel mewn adroddiad Cabinet ar wahân cyn diwedd Mawrth 2023.

## 8. DEFNYDD Y PREMIWM

8.1. Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cael ei osod mewn cronfa benodol, a hynny er mwyn ariannu prosiectau penodol sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Tai.

8.2. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'n glir pa gynlluniau unigol sydd i gael eu hariannu gydag arian y Premiwm.

8.3. Mae hyn yn gyson gyda dyhead aelodau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi disgwyliad, ond nid gorfodaeth, fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y maes tai.

8.4. Mae nifer o'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai yn rhai gellir eu ehangu petai mwy o adnoddau ar gael iddynt. Ar y llaw arall, mae chwyddiant yn golygu fod costau prosiectau adeiladu wedi cynyddu yn sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Tai yn 2020.

8.5. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y pandemig Covid-19, dod â'r Grant Caledi Llywodraeth Cymru i ben, y pwysau ar deuluoedd yn sgil yr argyfwng costau byw a penderfyniad landlordiaid i ddod â thenantiaethau i ben, mae'r pwysau ar Wasanaeth Digartrefedd y Cyngor wedi cynyddu'n aruthrol.

8.6. Byddai pob 50% o gynnydd yn y Premiwm yn cyfrannu oddeutu £3m i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

8.7. Adroddwyd i'r Cabinet ar 25 Hydref bod disgwyl i wariant yn y maes Digartrefedd fod yn uwch na'r gyllideb o oddeutu £3.2 miliwn eleni. Ffigwr net oedd hwn, ar ôl trosglwyddo rhai cyllidebau am y flwyddyn. Mae'r gorwariant gros oddeutu £4.7m yn 2022/23, ac amcangyfrifir y bydd yn £6m yn 2023/24. Credwn fod ffactorau dros dro yn atebol am gyfran o'r gorwariant, ond mae oddeutu £3m o fwlch tymor hir yn y gyllideb yma hefyd.

8.8. Wrth ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 gofynnir i aelodau ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gynnyrch Premiwm ychwanegol i gynorthwyo i ymdrin â'r gorwariant sylweddol yn y maes digartrefedd, neu i ddargyfeirio peth o'r cynnyrch presennol at y pwrpasau hyn. Byddai modd dargyfeirio peth o arian y Premiwm at y pwrpas yma, gan ei fod yn amlwg o fewn y maes Tai, ond byddai hynny'n arian fyddai ddim wedyn ar gael i ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai.

8.9. Nid y nifer o ail gartrefi yng Ngwynedd sydd i gyfrif yn llwyr at y cynnydd sylweddol yng nghostau digartrefedd wrth gwrs, ond maent yn cyfrannu at y broblem. Os nad oes modd i bobl lleol brynu tai, nid ydynt yn gallu gadael tenantiaethau ac mae hynny yn ei dro yn achosi pwysau ar wasanaethau digartrefedd pan mae galw am denantiaethau newydd yn codi ond nid oes stoc dai ar gael i ddiwallu'r galw.

8.10. Nid oes rhaid gosod yr un gyfradd Premiwm ar ail gartrefi ag sydd ar eiddo gwag hir-dymor, ac er fod Gwynedd wedi codi'r un gyfradd ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018, rydym yn cydnabod fod y dadleuon yn wahanol rhwng y ddau, yn enwedig o ran eiddo sy'n wag ac sy'n anaddas i'w osod heb waith atgyweirio pellach arno. Mae premiwm o 100% ar eiddo gwag hir-dymor ar hyn o bryd, a pwrpas y Premiwm hwn yw rhoi pwysau i adnewyddu'r eiddo pan fydd y cyfnod o ryddhad treth ar gyfer adfer wedi dod i ben. Mae perygl y byddai ei gynyddu'n uwch yn debygol o orfodi gwerthiant a'r eiddo wedyn yn dod yn ail gartrefi yn hytrach na dod yn ôl i'r stoc dai lleol.

8.11. Ar adeg ei fabwysiadu yn 2020, roedd cyfanswm amcangyfrif gost yr holl gynlluniau yn y Cynllun Gweithredu Tai (am y cyfnod 2020/21 – 2026/27) yn £77.1m, gyda £22.9m o hwn yn cael ei ariannu allan o'r Premiwm Treth Cyngor. Ers cymeradwyo'r Cynllun, mae chwyddiant uchel wedi cynyddu amcan bris nifer o'r prosiectau hyn.

8.12. Erbyn Tachwedd 2022, mae'r Cyngor wedi gwario £15m ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y Premiwm Treth Cyngor a grantiau.

- Premiwm Treth Cyngor - £1.5m
- Grantiau – £6.8m
- Cynllun Rheoli Asedau – £6.5m

8.13. Cynllun 6 blynedd ydi'r Cynllun Gweithredu Tai ac mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o grantiau sydd wedi rhoi gwarchodaeth i'r Premiwm a fydd yn galluogi i ni gyflawni mwy yn y pen draw.

8.14. Noder felly bod gwariant y premiwm yn isel hyd yma oherwydd bod y Cyngor wedi gorfod blaenoriaethu gwario'r grantiau hyn sydd â therfyn amser i'w gwario. Noder hefyd mai 2021/22 oedd blwyddyn ariannol lawn gyntaf y Cynllun Gweithredu Tai, ac roedd gwaith ymchwil a sgopio yn digwydd bryd hynny, felly bydd y gwariant yn cynyddu yn ystod 2022/23.

8.15. Ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai:

- Mae o leiaf 350 o unedau naill wedi'u prynu, eu datblygu, neu eu haddasu i roi cartref addas i bobl
- Mae o leiaf 2700 o bobl wedi'u helpu trwy'r cynlluniau.

## 9. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

9.1. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

9.2. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor.

9.3. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wrth ystyried cynyddu'r Premiwm ym Mawrth 2021. Ers hynny, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cyngor, wrth wneud "penderfyniadau strategol" megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys y byddai graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor yn "benderfyniad strategol" yn unol â'r ddyletswydd yma.

9.4. Fel nodir yn "Cefndir Deddfwriaethol" uchod, cyflwynwyd y grym i godi premiwm gan y Ddeddf Tai, gyda'r disgwyliad sylfaenol fod y rhai sy'n gallu fforddio mwy nag un eiddo yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol i ymdrin â phroblemau tai yn eu hardaloedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartref o gwbl.

9.5. Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.

9.6. Credwn mai nod greiddiol y Premiwm, felly, ydi lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

9.7. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad diweddar. Mae'r asesiad addasedig wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

9.8. Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

9.9. Mae honiad wedi ei wneud fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu materion yn y maes Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

9.10. Mae'r asesiad hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy'n effeithio ar yr Iaith, sy'n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a'r atodiadau.

## 10. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

10.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

10.2. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

10.3. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

10.4. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

10.5. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

10.6. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

## 11. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

11.1. Mae'r adroddiad yn disgrifio canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

11.2. Mae'r mater hwn wedi cael ei flaen-graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Cabinet ar 22 Tachwedd. Nid rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd rhoi barn ar lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 ond yn hytrach roi ystyriaeth i'r tystiolaeth sydd wedi gasglu a dod i gasgliad os yw'n ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad a'r Cyngor llawn ddod i benderfyniad rhesymegol.

11.3. Penderdyniad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd i dderbyn bod y wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau yn cydymffurfio gyda'r canllawiau statudol a gofynion deddfwriaethol.

11.4. Penderfyniwyd hefyd cynnig y sylwadau isod i'r Cabinet eu hystyried wrth benderfynu ar argymhelliad i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad terfynol ar y lefelau premiwm:

- Bod angen cwblhau asesiad ieithyddol cynhwysfawr yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor
- Bod angen ystyried effaith y premiwm ar allu 'brodorion' i wneud bywoliaeth
- Bod angen gweld ystadegau sydd yn dangos effaith y premiwm ar adfer tai gwag
- Bod angen tystiolaeth am lwyddiant y premiwm. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?
- Bod angen ymgynghori pellach ar ddefnydd y premiwm.
- Beth yw'r cyfiawnhad o ddefnyddio premiwm ail gartref i gyllido digartrefedd? Derbyn bod yr egwyddor yn dderbyniol, ond beth yw'r dystiolaeth tu cefn i'r penderfyniad?
- Bod angen cydblethu ystyriaethau'r premiwm gyda deddfwriaethau a mesurau Llywodraeth Cymru o reoli ail dai.

11.5. Adroddwyd ar y pwyntiau hyn ar lafar i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd. Mae'r sylwadau hefyd wedi cael eu hystyried pan yn paratoi'r adroddiad hwn i'r Cyngor llawn.

## 12. OPSIYNAU

12.1. Mae angen i'r Cyngor roi ystyriaeth benodol i ffactorau lleol sy'n effeithio ar y farchnad dai ac argaeledd cartrefi, ac yn benodol yr astudiaethau a darganfyddiadau y cyfeirir atynt yn Rhan 4 yr adroddiad hwn. Dylid rhoi sylw hefyd i ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r wybodaeth a chasgliadau yn deillio o'r elfennau yma o'r adroddiad.

12.2. Gellir crynhoi'r prif gasgliadau fel a ganlyn.

12.3. O gadw'r premiwm ar ei lefel bresennol bydd modd parhau i glustnodi swm blynyddol oddeutu £6m i'r gronfa sy'n cyllido'r amrediad eang o brosiectau yng Nghynllun Gweithredu Tai y Cyngor. Ers sefydlu'r cynllun hwnnw, mae chwyddiant wedi cael effaith ar hyfywdra achos busnes sawl prosiect unigol gyda chostau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â hynny mae prisiau tai wedi cynyddu yn yr un modd hefyd wrth gwrs. Ond, gan fod costau'n Cynllun wedi eu seilio ar yr adeg lle roedd y premiwm ar gyfradd o 50%, dylai'r incwm ychwanegol o bremiwm 100% fod yn ddigonol i ymdopi gyda'r cynnydd prisiau.

12.4. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlinellu, mae'r sefyllfa ail gartrefi (ymysg ffactorau eraill) hefyd yn cael effaith ar ddigartrefedd erbyn hyn gan greu pwysau ariannol tebygol oddeutu £6m y flwyddyn. Ni allwn osgoi cyfarch y gost yma ac nid oes gennym adnoddau ar gael o fewn cyllidebau sylfaenol y Cyngor ar ei gyfer. Ni fyddai cadw'r premiwm ar gyfradd o 100% yn cynnig unrhyw gymorth tuag at ymdopi gyda'r pwysau ariannol hwnnw heb i ni leihau'r cyllid sydd ar gael i gyfarch elfennau eraill ein Cynllun Gweithredu Tai, ac felly cyflawni llai o gynlluniau.

12.5. Ar y llaw arall, byddai cynyddu'r premiwm i gyfradd o 150% yn ychwanegu oddeutu £3m o incwm blynyddol ychwanegol a byddai hynny'n gyfraniad tuag at ariannu'r pwysau ariannol sy'n ein hwynebu yn y maes digartrefedd. Golyga hynny y byddai modd parhau i glustnodi'r incwm a gesglir ar hyn o bryd ar gyfer cyllido'r Cynllun Gweithredu Tai a chyflawni popeth sydd ynddo heb orfod cwtogi uchelgais y Cyngor yn y maes hwn.

12.6. Mae'r Cabinet wedi gwneud ei argymhelliad gan ddod i'r casgliad nad oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisïau hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol.

12.7. Nodir ym mharagraff 8.10 uchod fod cyfiawnhad rhesymegol yn bodoli dros gadw'r dreth ar eiddo gwag hir-dymor heb ein newid (h.y. ar 100%) er mwyn galluogi perchnogion i atgyweirio eu heiddo petai angen a dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

12.8. Ar ôl ystyried yr opsiynau uchod yn nghyd-destun y wybodaeth yn yr adroddiad hwn, yr atodiadau a'r astudiaethau y cyfeirir atynt, mae angen i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar lefel y Premiwm i'w osod ar gyfer 2023/24. Mae Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd, wedi penderfynu:

**Argymell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:**

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**

**DOGFENNAU CEFNDIR**

1. Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau (Rhagfyr 2020)
2. Strategaeth Tai
3. Cynllun Gweithredu Tai
4. Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks)
5. Ymateb y Cyngor i adroddiad Brooks
6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad (gan eithrio dogfennau sydd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am unigolion)

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Fel yr esbonnir ac amlygir yn yr adroddiad mae ystod o ffactorau sydd angen eu cloriannu wrth ddod at argymhelliad y Cabinet. Fe nodir yn gywir yn yr adroddiad fod y grym statudol ar gyfer gosod premiwm treth cyngor ar "ail gartrefi" ac eiddo gwag tymor hir wedi ei gynyddu i hyd at 300% drwy addasiadau i Ddeddf Cyllid Lywodraeth Leol 1992 ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2022. Wrth ystyried adolygu y premiwm a chynnydd posib o'r uchafswm statudol blaenorol (100%) mae'n bwysig fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth llawn i'r cyd destun a heriau yng Ngwynedd, canlyniadau yr ymgynghoriad a'r wybodaeth a barn sydd wedi ei dderbyn a chanlyniadau yr Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn esbonio y materion sydd yn berthnasol i'r penderfyniad a chanlyniadau y prosesau ac mae argymhelliad y Cabinet yn seiliedig ar asesu ac chloriannu y ffactorau yma.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

**Cynnwys**


Cyflwyniad........................................................................................................ 3
Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor......................... 3
Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor.................. 4
Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi.......................................... 5
Gwneud Penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.......................................................................... 5
Eithriadau i Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi................................................................................................. 6
Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth.............................................................................. 7
Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod................................................................................ 8
Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd.................................................... 8
Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau, fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog........................ 8
Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod ..................................................................................... 8
Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn........................................................................ 9
Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith....... 9
Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.......................................................................... 10
Apeliadau........................................................................................................ 11
Y Camau Nesaf................................................................................................ 11
Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig............................................. 11
Gweinyddu a Gorfodi.......................................................................... 11
Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor.......................................................................................... 11
Monitro ac Adrodd.............................................................................. 12

# Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

## Cyflwyniad

1. O 1 Ebrill 2017, bydd Awdurdodau Lleol yn cael codi premiwm o hyd at 100% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal. Gwnaed y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn rhai dewisol. Mae dewis codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau) felly yn benderfyniad sydd i gael ei wneud gan bob awdurdod lleol.

2. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio yn eu hardal.

3. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y premiymau a'r eithriadau yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson ledled Cymru.

4. Mae'r canllawiau yn statudol ac fe'u cyhoeddir dan bwerau yn adrannau 12A (3) a 12B (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn berthnasol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

5. Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli deddfwriaeth, gyda'r dehongliad terfynol yn gyfrifoldeb y llysoedd.

## Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor

6. Mae paragraffau 7 - 14 yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n gyffredin i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r gofynion sy'n benodol i gartrefi gwag hirdymor wedi eu hesbonio ym mharagraffau 15-17, ac mae'r rheiny sy'n benodol i ail gartrefi wedi eu disgrifio ym mharagraffau 18-19.

7. Mae Deddf 2014 yn diwygio Deddf 1992 drwy osod adrannau newydd 12A a 12B i mewn er mwyn galluogi awdurdod trethu (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau lle mae rhywun yn byw yn achlysurol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

8. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r annedd.

9. Pan benderfynir codi premiwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

10. Bydd penderfyniad gan awdurdod trethu i godi premiwm hefyd yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

11. Gall awdurdod trethu wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi.

12. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adrannau 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi drwy reoliadau rai dosbarthiadau o anheddau na fyddant o bosibl yn destun premiwm. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch Cymru) 2015 dan y pwerau hyn ac mae'r eithriadau y maent yn eu rhagnodi yn cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

13. Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu nifer o eithriadau penodol i'r dreth gyngor. Mae'r grwpiau sydd wedi eu heithrio wedi eu rhestru yng Ngorchymyn Treth Gyngor (Anheddau wedi eu Heithrio) 1992. Mae nifer o eithriadau yn eu lle ar gyfer anheddau gwag, megis, er enghraifft:

- lle mae'r preswylydd mewn gofal preswyl tymor hir neu yn yr ysbyty,
- lle mae adeiladwaith annedd yn cael ei drwsio (am hyd at flwyddyn),
- lle mae'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl rhoi profiant neu lythyrau gweinyddu).

14. Nid yw annedd sydd wedi ei heithrio o'r dreth gyngor yn agored i bremiwm. Fodd bynnag, pan na fydd annedd bellach yn gymwys i gael ei heithrio, ond yn parhau'n wag, bydd yn dod yn agored i'r premiwm. Yn achos cartref gwag, bydd yn agored i bremiwm ar ôl iddo fod yn wag am gyfnod di-dor o flwyddyn.

## Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor

15. Diffinnir annedd wag hirdymor fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.

16. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, nid yw unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016 i gael ei gymryd i ystyriaeth. At hynny, ni fydd dodrefnu neu fyw mewn annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Mewn geiriau eraill, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy fyw ynddi neu osod dodrefn am gyfnod byr.

17. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, efallai y bydd yn pennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100 y cant) ar gyfer gwahanol anheddau ar sail yr hyd o amser y maent wedi bod yn wag. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu dull graddedig gyda chynyddiadau bychain yn cael eu cymhwyso dros gyfnod.

**Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi**

18. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

19. Er mwyn i bremiwm fod yn berthnasol i anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro, rhaid i'r awdurdod trethu wneud ei benderfyniad cyntaf dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn perthyn iddi. Mae hyn yn golygu er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i'r awdurdod trethu wneud penderfyniad cyn 1 Ebrill 2016. Rhaid gwneud penderfyniad i godi premiwm yn 2018 cyn 1 Ebrill 2017 ac felly ymlaen.

## Gwneud penderfyniad i godi Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
- Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;

- Patrymau’r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i’r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai’r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

24. Ar ôl penderfynu codi premiwm, yn ychwanegol at yr angen i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut i gyfleu ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rheiny y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gall wneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwefan neu ddulliau eraill o godi ymwybyddiaeth megis, er enghraifft, cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn agored i'r premiwm. Efallai y bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dymuno rhoi ystyriaeth i'r modd y mae’n rhoi gwybod ac yn hysbysu'r rheiny y gall y premiwm effeithio arnynt ond sydd fel rheol yn byw y tu allan i'r ardal leol.

## Eithriadau i Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

25. Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt wneud rheoliadau i ragnodi un neu ragor o ddosbarthiadau o anheddau na chaiff awdurdod trethu wneud penderfyniad i godi premiwm mewn perthynas â hwy. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch) (Cymru) 2015 dan y pwerau hyn - ni cheir codi premiwm ar annedd sy'n dod o fewn eithriad. Rhaid i awdurdod lleol gymryd yr eithriadau hyn i ystyriaeth cyn penderfynu gweithredu premiwm.

26. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau sydd wedi eu heithrio. Mae Dosbarthiadau 1,2,3 a 4 yn ymwneud â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Ag ail gartrefi yn unig y mae a wnelo Dosbarthiadau 5,6 a 7. Mae'r dosbarthiadau o anheddau wedi eu hamlinellu yn y tabl isod a rhoddir mwy o fanylion yn eu cylch ym mharagraffau 28 - 46.

<table>
<tr><th>Dosbarthiadau o Anheddau</th><th>Diffiniad</th><th>Cymhwysiad</th></tr>
<tr><td>Dosbarth 1</td><td>Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn</td><td rowspan="4">Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 2</td><td>Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 3</td><td>Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 4</td><td>Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 5</td><td>Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.</td><td rowspan="3">Ail Gartrefi</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 6</td><td>Cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 7</td><td>Anheddau cysylltiedig â gwaith</td></tr>
</table>

27. Disgrifir pob eithriad ymhellach yn yr adran nesaf. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod
- anheddau cysylltiedig â gwaith.

**Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth**

28. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond bod y gwerthiant heb ei gwblhau eto.

29. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gwerthu am bris rhesymol. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

30. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sy'n

cael ei marchnata fel annedd ar werth yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi cael ei gwerthu.

**Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod**

31. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes gan y tenant hawl eto i fyw yn yr eiddo am nad yw'r denantiaeth wedi cychwyn eto.

32. Er mwyn bod yn gymwys i'r eithriad hwn, rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, sef y rhent y disgwylid i'r eiddo ei ennill o ystyried y rhent a godir am anheddau cyffelyb. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

33. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r cyfnod eithrio ddod i ben, ni fydd annedd sy'n cael ei marchnata fel annedd ar osod yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi bod yn destun tenantiaeth a roddwyd am gyfnod o chwe mis neu ragor.

**Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd**

34. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

35. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

**Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog**

36. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

37. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun ond sy'n wag oherwydd bod y person hwnnw yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog.

38. Bwriedir i'r eithriad hwn hefyd gynnwys personél y lluoedd arfog y mae eu cartrefi'n wag oherwydd eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog dramor.

**Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sy’n cael eu defnyddio.**

39. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cynnwys safle lle mae carafán yn sefyll neu angorfa lle mae cwch wedi ei angori, lle nad oes neb yn preswylio yn y cwch neu'r garafán, ond pan fydd yn cael ei defnyddio nesaf fydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

**Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn**

40. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n berthnasol i anheddau sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

41. Bwriadwyd yr eithriad hwn i gynnwys cartrefi gwyliau pwrpasol neu hafotai sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio ar hyd y flwyddyn. Mae'r eithriad yn seiliedig ar ddiffiniad y disgownt dewisol presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998[1].

**Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith**

42. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ond i'r premiwm ar ail gartrefi ac mae'n ymwneud ag annedd lle mae person yn byw sydd:

- yn berson cymwys mewn perthynas â'r annedd, ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â gwaith (fel y'i diffiniwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau); neu
- yn berson cymwys mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â gwaith.

43. Diffinnir person cymwys fel:

- person sy'n agored i dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a yw hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio; a
- pherson fyddai'n agored i’r dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a fyddai hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio, os nad oedd yr annedd honno yn dod o fewn:

  i. Dosbarth O Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau sydd wedi eu heithrio) 1992; neu
  ii. Dosbarth E Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) 1992.

44. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae gofyn i berson breswylio mewn annedd gysylltiedig â gwaith. Mae'n berthnasol i ail gartref lle mae rhywun yn byw'n achlysurol oherwydd bod angen i berson fyw mewn llety

[1] SI 1998 Rhif 105

cysylltiedig â gwaith yn rhywle arall. Mae hefyd yn berthnasol lle mae’r llety cysylltiedig â gwaith yn ail gartref person.

45. Rhoddir diffiniad o annedd gysylltiedig â gwaith yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt cysylltiedig â gwaith dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol oherwydd nad yw'r disgownt yn berthnasol ond os yw'r annedd gysylltiedig â gwaith yn unig neu brif breswylfa person.

46. Gwahaniaeth arall i'r disgownt ar gyfer annedd gysylltiedig â gwaith yw nad oes gofyn i'r trethdalwr fod yn atebol am y dreth gyngor o ran dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd gysylltiedig â gwaith dramor hefyd elwa o'r eithriad. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

## Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag-Hirdymor ac Ail Gartrefi

47. O dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdod trethu bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am dreth gyngor i'r cyfryw raddau ag y mae'r awdurdod trethu yn meddwl sy'n addas. Gellir arfer y grym mewn achosion neilltuol neu drwy benderfynu dosbarth neu achos. Gellir defnyddio'r grym i leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm.

48. Mae rhai enghreifftiau i ddarlunio lle y gallai awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:

- lle mae rhesymau pam na ellid byw yn yr annedd;
- lle mae rhesymau pam na ellid gwerthu neu osod yr annedd;
- lle mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae'r cyfnod eithrio wedi dod i ben;
- lle y gallai codi premiwm achosi caledi.

49. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a bydd ar awdurdodau trethu eisiau ystyried yr holl ffactorau y maent yn meddwl eu bod yn berthnasol.

50. Mater i awdurdod lleol yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm. Er mwyn tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ar p'un a ddefnyddir y pwerau hyn ai peidio a sut. Dylai'r awdurdod, fodd bynnag, ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ar ôl cymryd amgylchiadau'r achos i ystyriaeth.

51. Dylid nodi y bydd trafodaethau ynghylch defnyddio pwerau dewisol 13A yn debygol o fod yn wahanol pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor. Mae hyn oherwydd bod anheddau sy'n agored i bremiwm eisoes yn agored i'r raddfa safonol o dreth gyngor.

## Apeliadau

52. Os bydd person yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy gyfrifiad yr awdurdod lleol o swm y dreth gyngor y mae'n atebol amdano, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, rhaid iddo, yn y lle cyntaf, apelio at ei awdurdod lleol.

53. Os bydd yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy benderfyniad yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o amser sy'n ofynnol, gall apelio at Dribiwnlys Prisio Cymru ond dim ond ar ôl dihysbyddu proses apelio'r awdurdod lleol.

54. Ceir gwybodaeth bellach am y broses apelio ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru drwy'r cyswllt isod:

    http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html

## Y Camau Nesaf

**Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig**

55. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweinyddu a gorfodi'r premiwm, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu cyflwyno'r premiwm, er enghraifft, newidiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth ac i'r broses apelio.

**Gweinyddu a Gorfodi**

56. Er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda gweinyddu a gorfodi'r premiymau, yn enwedig cymhwyso'r eithriadau, darperir arweiniad ychwanegol.

57. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rai awdurdodau ynglŷn ag anawsterau gweinyddol a ffyrdd posibl o gamddefnyddio, bydd yr arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth;
    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod; ac
    - anheddau cysylltiedig â gwaith.

**Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor**

58. Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

59. Caiff gofynion penodol o ran adrodd am y refeniw ychwanegol a gynhyrchwyd, a'r defnydd ohono yn ddiweddarach, eu hegluro mewn arweiniad pellach. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn yr adran nesaf.

**Monitro ac Adrodd**

60. Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r premiymau ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y defnydd a wneir ohonynt ar gael yn glir i drethdalwyr lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd am weithrediad y premiymau.

61. Caiff y gofynion penodol mewn perthynas â hyn eu hesbonio mewn arweiniad pellach a gyhoeddir cyn Ebrill 2017. Mae hwn yn debygol o gynnwys:

- Nifer yr adeiladau sy'n agored i'r premiwm:
- Yr incwm ychwanegol a godwyd drwy weithredu'r premiymau;
- Sut y cafodd unrhyw incwm ychwanegol ei ddefnyddio;
- Nifer y cartrefi gwag yr adferwyd eu defnydd.

62. Mae modiwl newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar Datatank i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth fodelu, monitro ac adrodd ar y premiymau. Bydd hwn ar gael i'r holl awdurdodau lleol yn y Flwyddyn Newydd.

Tîm Trethi Lleol
Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2015

# Canlyniadau Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor – Hydref 2022

**Dyddiad Cyflwyno:** 2022-11-04

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Cynnwys

Tudalen


1. Cyflwyniad 3
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad 4
3. Ymatebion ar Ail Gartrefi 5
4. Ymatebion ar Eiddo Gwag Hirdymor 22
5. Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb 40

# 1. Cyflwyniad

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30ain Medi ac roedd yn agored tan 28ain Hydref. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor gyda llythyrau wedi cael eu gyrru i holl berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, a negeseuon atgoffa yn cael eu rhoi ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Derbyniwyd 7,330 o ymatebion i'r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu yn ddwy ran, sef rhan ar gyfer ail gartrefi a rhan ar gyfer eiddo gwag hirdymor.

# 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 7,330 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2.1 Eich sefyllfa chi?

Roedd cwestiwn cyntaf yr holiadur yn gofyn i ymatebwyr ddewis un neu fwy o ddatganiadau oedd yn disgrifio'u sefyllfa hwy. Dyma'r nifer, a'r canran, o ymatebwyr a ddewisodd y gwahanol ddatganiadau:

| Sefyllfa | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mae fy mhrif gartref yng Ngwynedd | 3,518 | 48.0% |
| Mae fy mhrif gartref y tu allan i Wynedd | 2,690 | 36.7% |
| | | |
| Mae gen i ail gartref yng Ngwynedd | 3,483 | 47.5% |
| Mae gen i eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd | 237 | 3.2% |

Gan y byddai modd i ymatebwyr unigol fod mewn mwy nag un o'r sefyllfaoedd uchod, mae'n haws categoreiddio'r ymatebwyr fel â ganlyn:

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb ail gartref na eiddo gwag yng Ngwynedd* | 3,646 | 49.7% |
| Perchen ail gartref yng Ngwynedd (ond dim eiddo gwag hirdymor) | 3,447 | 47.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd (ond dim ail gartref) | 201 | 2.7% |
| Perchen ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd | 36 | 0.5% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

**Mae'r categori yma yn gallu cynnwys ymatebwyr sydd yn byw yng Ngwynedd a thu allan i Wynedd, sydd heb ail gartref na eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd*

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

O fewn y ffigwr yma roedd 47.0% yn berchen ar ail gartref, 2.7% yn berchen ar annedd gwag hirdymor, a 0.5% yn berchen ar y ddau (h.y. annedd gwag hirdymor ac ail gartref yng Ngwynedd).

Doedd 49.7% o'r ymatebwyr ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd. O fewn y ffigwr yma, roedd 8.5% (N=625) wedi nodi hefyd bod eu prif gartref y tu allan i Wynedd.


# 3. Canlyniadau ar gyfer Ail Gartrefi

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag ail gartrefi.

## 3.1 Pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%, N=4,304) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% (N=2,030) o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% (N=603) yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% (N=393) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai llai na hanner (39.4%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae 48.7% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Gwelir fod ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn eithaf cyfartal, gyda ychydig mwy ohonynt (35.3%) yn teimlo fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref mae'r farn eto yn fwy rhanedig ond gyda'r mwyafrif (55.6%) o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar hyn o bryd.

| | **Effaith gadarnhaol** | | **Dim effaith** | | **Effaith negyddol** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,437 | 39.4% | 275 | 7.5% | 1,776 | 48.7% | 158 | 4.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 2,776 | 80.5% | 298 | 8.6% | 184 | 5.3% | 189 | 5.5% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 71 | 35.3% | 27 | 13.4% | 64 | 31.8% | 39 | 19.4% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 20 | 55.6% | 3 | 8.3% | 6 | 16.7% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **4,304** | **58.7%** | **603** | **8.2%** | **2,030** | **27.7%** | **393** | **5.4%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn.

Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim (siart isod), gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (96.9%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi, gyda mwyafrif llai (54.1%) o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor yn rhannu'r un farn. Roedd 44.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor o'r farn y byddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefin yn briodol, ond dim ond 2.7% o berchnogion ail gartrefi oedd o'r un farn.


Roedd mwyafrif (76.1%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor hefyd yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi. Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 88.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi.

| | Ydi | | Nac Ydi | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,626 | 44.6% | 1,973 | 54.1% | 47 | 1.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 94 | 2.7% | 3,339 | 96.9% | 14 | 0.4% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 42 | 20.9% | 153 | 76.1% | 6 | 3.0% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 5.6% | 32 | 88.9% | 2 | 5.6% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,764** | **24.1%** | **5,497** | **75.0%** | **69** | **0.9%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o'r farn y byddai'n briodol cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi, roi eu barn wedyn ar y lefel y dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua dau-draean (66.1%, N=1,166) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300% gydag 16.6% arall (N=292) yn credu y dylid ei osod hyd at 200% (siart isod).




Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond dylid nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Hyd at 150% | | Hyd at 200% | | Hyd at 250% | | Hyd at 300% | | Dim barn | | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 124 | 7.6% | 268 | 16.5% | 82 | 5.0% | 1,119 | 68.8% | 33 | 2.0% | 1,626 |
| Perchen ail gartref | 44 | 46.8% | 19 | 20.2% | 1 | 1.1% | 20 | 21.3% | 10 | 10.6% | 94 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 3 | 7.1% | 5 | 11.9% | 2 | 4.8% | 26 | 61.9% | 6 | 14.3% | 42 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | - | - | - | - | - | - | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | 2 |
| **Cyfanswm** | **171** | **9.7%** | **292** | **16.6%** | **85** | **4.8%** | **1,166** | **66.1%** | **50** | **2.8%** | **1,764** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi***

## 3.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi roi eu barn ar sut ddylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua tri-chwarter (74.1%, N=1,308) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 22.5% (N=397) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).




Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | **Ar unwaith mewn un cam** | | **Yn raddol, dros sawl blwyddyn** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,256 | 77.2% | 320 | 19.7% | 50 | 3.1% | 1,626 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 26 | 27.7% | 61 | 64.9% | 7 | 7.4% | 94 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 25 | 59.5% | 15 | 35.7% | 2 | 4.8% | 42 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | - | - | 2 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,308** | **74.1%** | **397** | **22.5%** | **59** | **3.3%** | **1,764** | **100.0%** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi***

## 3.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%, N=4,327) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd gweddill yr ymatebion yn eithaf cyfartal gyda 19.5% (N=1,432) yn meddwl byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a 16.5% (N=1,207) o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir tipyn o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (52.2%) yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith ar y Gymraeg.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd eu hanner (50.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a thraean (33.3%) yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,328 | 36.4% | 1,661 | 45.6% | 502 | 13.8% | 155 | 4.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 68 | 2.0% | 2,549 | 73.9% | 646 | 18.7% | 184 | 5.3% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 33 | 16.4% | 105 | 52.2% | 41 | 20.4% | 22 | 10.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 3 | 8.3% | 12 | 33.3% | 18 | 50.0% | 3 | 8.3% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,432** | **19.5%** | **4,327** | **59.0%** | **1,207** | **16.5%** | **364** | **5.0%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%, N=4,566) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% (N=1,685) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% (N=902) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir peth gwahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod y mwyafrif llethol (81.4%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (51.2%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (63.9%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,547 | 42.4% | 386 | 10.6% | 1,634 | 44.8% | 79 | 2.2% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 96 | 2.8% | 472 | 13.7% | 2,806 | 81.4% | 73 | 2.1% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 39 | 19.4% | 37 | 18.4% | 103 | 51.2% | 22 | 10.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 3 | 8.3% | 7 | 19.4% | 23 | 63.9% | 3 | 8.3% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,685** | **23.0%** | **902** | **12.3%** | **4,566** | **62.3%** | **177** | **2.4%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr economi leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%, N=5,200) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% (N=1,203) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% (N=703) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 5.8% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (61.7%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (75.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,119 | 30.7% | 469 | 12.9% | 1,918 | 52.6% | 140 | 3.8% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 59 | 1.7% | 201 | 5.8% | 3,131 | 90.8% | 56 | 1.6% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 24 | 11.9% | 29 | 14.4% | 124 | 61.7% | 24 | 11.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 2.8% | 4 | 11.1% | 27 | 75.0% | 4 | 11.1% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,203** | **16.4%** | **703** | **9.6%** | **5,200** | **70.9%** | **224** | **3.1%** | **7,330** | **100.0%** |


## 3.8 Oes yna ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r ail gartrefi canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog
- Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod
- Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn
- Anheddau cysylltiedig â gwaith

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o ail gartref arall ar y rhestr. Bu i 43.6% (N=3,195) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 32.4% (N=2,375) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 24.0% (N=1,760) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ail gartref yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 57.2% (N=1,994) o holl berchnogion ail gartrefi yn nodi hyn o'i gymharu â 31.2% (N=1,201) o'r holl ymatebwyr eraill.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

## 3.9 Nodwch unrhyw ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y rhestr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 3,195 nododd "Oes" bu i 97.7% (N=3,122) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Ail gartrefi sy'n cael eu gosod ar gyfer gwyliau neu fusnesau neu at ddibenion twristiaeth | 523 | 16.8% |
| Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio yn aml | 373 | 11.9% |
| Pob ail gartref | 366 | 11.7% |
| Cartrefi wedi eu hetifeddu a nawr yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi / etifeddu ac yn bwriadu cadw / cartrefi sydd wedi bod 'yn y teulu' am gyfnod | 268 | 8.6% |
| Ail gartref sydd wedi cael eu perchnogi am gyfnod penodol o amser neu a brynwyd cyn dyddiad penodedig | 191 | 6.1% |

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo adeiladwyd fel Cartrefi Gwyliau neu lle gwaherddir preswylfa barhaol | 152 | 4.9% |
| Ail gartrefi unigolion gyda cysylltiad lleol (ee teulu, wedi byw yng Ngwynedd neu Cymru ac ati) neu y mae eu prif gartref yn lleol | 146 | 4.7% |
| Anheddau ar yr un safle â phreswylfa barhaol ee anecs, adeiladau fferm | 108 | 3.5% |
| Lleoliad annymunol / Anheddau anghysbell / Mynediad cyfyngedig / Cyfleusterau cyfyngedig / Defnydd cyfyngedig o gyfleusterau'r Cyngor | 105 | 3.4% |
| Defnydd personol yn unig neu ddim yn cynhyrchu incwm | 101 | 3.2% |
| Yn cael ei adnewyddu neu yn aros am ganiatâd cynllunio | 92 | 2.9% |
| Eiddo sydd ddim yn addas i fyw ynddo drwy'r flwyddyn oherwydd maint neu cyflwr y tŷ, neu ei fod yn gartref tymhorol, carafán, cabanau gwyliau ac ati | 88 | 2.8% |
| Yn dibynnu ar amgylchiadau'r perchennog ee pensiynwyr, salwch, lle mae'r perchennog mewn cartref gofal neu berson sengl | 85 | 2.7% |
| Cysylltiedig â swydd neu prifysgol - gweithio yn rhywle arall neu byw yn rhywle arall a gweithio yng Ngwynedd | 76 | 2.4% |
| Eiddo a brynwyd cyn y premiwm | 70 | 2.2% |
| Cartrefi anaddas i bobl leol neu brynwyr tro cyntaf | 63 | 2.0% |
| Eiddo sydd wedi neu am gael eu osod ar gyfer rent tymor hir | 59 | 1.9% |
| Bydd yr ail gartref yn dod yn brif breswylfa yn y dyfodol | 58 | 1.9% |
| Cyfnod i feddwl ar ôl colled ag etifeddu cartref | 55 | 1.8% |
| Defnydd elusennol, cymdeithasol ddefnyddiol neu galluogi gwaith elusennol ee Wcrain, gwirfoddoli tra yna, cartefu gweithwyr allweddol ac ati | 53 | 1.7% |
| Cartrefi gwyliau | 42 | 1.3% |
| Eiddo sydd ar werth neu am gael ei werthu | 41 | 1.3% |
| Ail gartref sydd wedi neu sydd am gael ei adeiladu, datblygu neu gwella gan y perchennog | 25 | 0.8% |
| Ail gartrefi o dan brydles sy'n gwahardd gosod neu isosod eiddo neu gyfyngu ar gyfer defnydd personol yn unig | 22 | 0.7% |
| Lleoliad - Cartrefi mewn ardaloedd lle nad oes galw mawr neu mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ail gartrefi | 22 | 0.7% |
| Adeiladau mewn cyflwr gwael | 18 | 0.6% |
| Ail dai sydd o fudd i'r economi neu leol (ag eithrio twristiaeth neu categori arall) ee cyflogi staff | 17 | 0.5% |
| Adeiladau rhestredig | 12 | 0.4% |
| Ail gartref sydd yn ran o fusnes arall (dim yn gysylltiedig a twristiaeth) ee fferm | 9 | 0.3% |
| Cartrefi gwerth uchel | 7 | 0.2% |
| Ail gartrefi sydd ddim yn cael eu defnyddio yn aml | 7 | 0.2% |
| Cartrefi gwerth isel | 6 | 0.2% |
| Eiddo gwag | 6 | 0.2% |
| Wedi cofrestru i bleidleisio yn eu ail dai | 5 | 0.2% |

| | | |
|---|---|---|
| Ail dai yn eu unig eiddo yn y DU | 2 | 0.1% |
| Eiddo prydles | 1 | 0.0% |
| Yn eiddo i unigolyn nid cwmni eiddo | 1 | 0.0% |
| Lle mae un cartref o'r ddau gartref yn cael ei rentu gan yr unigolyn | 1 | 0.0% |
| Eiddo sydd ddim yn wag am gyfnod hir | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## 3.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am ail gartrefi

Bu i 72.7% (N=5,329) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am ail gartrefi.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi leol / cymuned leol. Byddai cyfyngu ar ail gartrefi yn niweidio'r economi | 2731 | 51.2% |
| Byddai premiwm TC uwch yn targedu pobl sydd ag ail gartref, yn annheg / afresymol | 892 | 16.7% |
| Mae ail gartrefi yn rhwystr i farchnad dai fforddiadwy i bobl leol / i gymunedau hyfyw | 548 | 10.3% |
| Annheg ar deuluoedd sydd wedi etifeddu cartref (yn cynnwys pobl lleol) / Annheg ar deuluoedd sydd wedi buddsoddi yng Ngwynedd am ddegawdau / Annheg ar pob sydd wedi cynilo am flynyddoedd i brynu ail dŷ | 508 | 9.5% |
| Pobl lleol ddim eisiau prynu'r tai / Y tŷ yn anaddas i deulu (cyflwr/lleoliad) / Y tŷ wedi bod ar y farchnad ers sbel cyn iddyn nhw ei brynu / Wedi gwario miloedd yn gwneud tŷ anaddas i fyny | 459 | 8.6% |
| Dylai'r Cyngor wneud mwy i ddarparu a hybu tai fforddiadwy | 426 | 8.0% |
| Byddwn i / pobl rwy'n eu hadnabod yn gwerthu eu ail gartref pe bai'r premiwm yn cynyddu | 384 | 7.2% |
| Ni fyddai cynnydd yn y premiwm yn helpu gwneud tai yn fforddiadwy | 371 | 7.0% |
| Pobl lleol hefyd yn berchen ar ail dŷ / Cosbi pobl lleol sydd wedi buddsoddi oherwydd twristiaeth | 235 | 4.4% |
| Creu swyddi / economi hyfyw ydi'r ateb yn hytrach na chodi premiwm | 216 | 4.1% |
| Angen cynyddu premiwm TC ar ail gartrefi cyn gynted â phosib | 206 | 3.9% |
| Dim ond codi premiwm ar berchnogion ail dai sydd efo'i prif dŷ y tu allan i Wynedd / Gogledd Cymru / Cymru - dim cosbi trigolion Gwynedd | 160 | 3.0% |
| Angen cau unrhyw 'loopholes' o ran trethiant (gan gynnwys trethiant llety gwyliau) | 157 | 2.9% |

| | | |
|---|---|---|
| Dylid delio efo problem tai fforddiadwy mewn ffyrdd eraill, e.e. rheoliadau cynllunio / cyfyngiadau ar brynu | 156 | 2.9% |
| Byddai cynnydd yn y premiwm yn targedu pobl o Loegr / yn hiliol / yn erbyn hawliau dynol | 131 | 2.5% |
| Dylid dim ond cyflwyno newidiadau Treth Cyngor mewn rhai ardaloedd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol | 122 | 2.3% |
| Ddim yn deg talu mwy o dreth, pan yn defnyddio llai o wasanaethau na thrigolion lleol | 121 | 2.3% |
| Angen cyfyngiadau ar, a rheoli'n well, y farchnad llety gwyliau tymor-byr | 118 | 2.2% |
| Y rheol '182 dydd' i lety gwyliau gael eu cyfrif fel busnes yn afrealistig / annheg ac yn golygu bydd mwy yn gorfod talu y premiwm | 110 | 2.1% |
| Byddai cynnydd mewn premiwm yn achosi cynnydd yn nifer y llety gwyliau | 98 | 1.8% |
| Ddim yn eglur sut byddai'r arian o unrhyw gynnydd (a / neu y cynnydd blaenorol) yn cael ei ddefnyddio | 77 | 1.4% |
| Byddai cynyddu'r premiwm yn arwain at newid yn natur perchnogaeth ail gartrefi, gyda buddsoddwyr a phobl gyfoethog yn unig yn gallu eu fforddio | 71 | 1.3% |
| Dylai unrhyw bremiwm gael ei gyfyngu i bryniannau newydd, nid i bobl oedd wedi prynu tai cyn hyn | 57 | 1.1% |
| Byddai cynyddu premiwm yn achosi cwymp ym mhrisiau tai yn lleol, efo canlyniadau sylweddol / niweidiol | 44 | 0.8% |
| Ail gartrefi ddim yn cael effaith ar y iaith Gymraeg (neu'n llai niweidiol na pe baent yn mynd i drigolion parhaol nad ydynt yn siarad Cymraeg) | 27 | 0.5% |
| Mae ail gartrefi yn broblem gymhleth, ac angen cymryd unrhyw gamau gyda gofal / ar sail tystiolaeth fanwl | 26 | 0.5% |
| Dylai tai sydd yn y broses o gael eu atgyweirio gael eu eithrio / Tai sydd ddim mewn cyflwr i gael eu gwerthu neu rhentu | 23 | 0.4% |
| Rhai tai wedi cael eu hadeiladu yn benodol fel ail gartrefi a /neu cyfyngiadau ar faint o amser ellir bod yno | 19 | 0.4% |
| Ni fyddai'n 'edrych yn dda' i Wynedd fod yn cynyddu premiwm TC - delwedd anghroesawgar / mewnblyg | 18 | 0.3% |
| Ddim yn adeg da i wneud unrhyw newid, oherwydd cyflwr yr economi | 8 | 0.2% |
| Ni fyddai cynyddu'r premiwm ddim ond yn symud y broblem i ran arall o Gymru | 7 | 0.1% |
| Dylid eithrio mentrau cymdeithasol nid er elw sy'n rhedeg unedau gwyliau | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*


# 4. Canlyniadau ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag eiddo gwag hirdymor.

## 4.1 Pa effaith mae eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72.9%, N=5,342) yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% (N=1,191) o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% (N=96) yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% (N=701) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*


Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori o ymatebwyr. Y prif wahaniaeth amlwg ydi bod ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol: roedd 37.3% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor, a 30.6% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor ac ailgartref, yn meddwl nad oes effaith. Mae hyn yn cymharu ag 13.4% o'r ymatebwyr oedd heb eiddo gwag hirdymor nag ail gartref, ac 17.9% o ymatebwyr sydd ag ail gartref.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 45 | 1.2% | 487 | 13.4% | 2,886 | 79.2% | 228 | 6.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 48 | 1.4% | 618 | 17.9% | 2,341 | 67.9% | 440 | 12.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 3 | 1.5% | 75 | 37.3% | 95 | 47.3% | 28 | 13.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | - | - | 11 | 30.6% | 20 | 55.6% | 5 | 13.9% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **96** | **1.3%** | **1,191** | **16.2%** | **5,342** | **72.9%** | **701** | **9.6%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr yn rhanedig iawn gyda 43.8% (N=3,210) yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% (N=3,181) yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% (N=939) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r premiwm.


Ymhlith perchnogion ail gartrefi roedd yr ymateb yn fwy cymysg gyda 48.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor a 32.4% o blaid ei gynyddu. O ran y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref, roedd 69.4% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

| | Ydi | | Nac Ydi | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 2,035 | 55.8% | 1,330 | 36.5% | 281 | 7.7% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 1,116 | 32.4% | 1,686 | 48.9% | 645 | 18.7% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 23 | 11.4% | 169 | 84.1% | 9 | 4.5% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 7 | 19.4% | 25 | 69.4% | 4 | 11.1% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **3,181** | **43.4%** | **3,210** | **43.8%** | **939** | **12.8%** | **7,330** | **100.0%** |

### 4.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn wedyn ar y lefel dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd 42.4% (N=1,350) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300%, gyda 25.4% arall (N=808) yn credu y dylid ei gynyddu hyd at 200% a 20.3% (N=645) am ei gynyddu hyd at 150% (siart isod).






YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond gan nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Hyd at 150% | | Hyd at 200% | | Hyd at 250% | | Hyd at 300% | | Dim barn | | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 320 | 15.7% | 462 | 22.7% | 70 | 3.44% | 1,083 | 53.2% | 100 | 4.9% | 2,035 |
| Perchen ail gartref | 317 | 28.4% | 338 | 30.3% | 25 | 2.2% | 259 | 23.2% | 177 | 15.9% | 1,116 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 6 | 26.1% | 8 | 34.8% | - | - | 7 | 30.4% | 2 | 8.7% | 23 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 28.6% | - | - | - | - | 1 | 14.3% | 4 | 57.1% | 7 |
| **Cyfanswm** | **645** | **20.3%** | **808** | **25.4%** | **95** | **3.0%** | **1,350** | **42.4%** | **283** | **8.9%** | **3,181** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor***

## 4.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn ar sut dylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua'u hanner (52.9%, N=1,684) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 40.6% (N=1,290) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).




Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Ar unwaith mewn un cam | | Yn raddol, dros sawl blwyddyn | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,313 | 64.5% | 645 | 31.7% | 77 | 3.8% | 2,035 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 365 | 32.7% | 623 | 55.8% | 128 | 11.5% | 1,116 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 5 | 21.7% | 17 | 73.9% | 1 | 4.3% | 23 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 14.3% | 5 | 71.4% | 1 | 14.2% | 7 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,684** | **52.9%** | **1,290** | **40.6%** | **207** | **6.5%** | **3,181** | **100.0%** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor***

## 4.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%, N=3,433) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% (N=1,588) yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% (N=748) yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

O edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, fe welir (siart isod) bod perchnogion eiddo gwag hirdymor rywfaint yn fwy tueddol i gredu y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg pe cynyddid y premiwm (a llai tueddol i gredu y byddai yna effaith gadarnhaol).




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 58.7% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 21.4% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Roedd mwyafrif perchnogion ail gartrefi (67.3%) o'r farn na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Ond ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor, roedd y farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.3% o'r farn na


fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 9.5% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,339 | 36.7% | 1,650 | 45.3% | 346 | 9.5% | 311 | 8.5% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 234 | 6.8% | 2,321 | 67.3% | 349 | 10.1% | 543 | 15.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 14 | 7.0% | 118 | 58.7% | 43 | 21.4% | 26 | 12.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 2.8% | 18 | 50.0% | 10 | 27.8% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,588** | **21.7%** | **4,107** | **56.0%** | **748** | **10.2%** | **887** | **12.1%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd y farn ar y cwestiwn yma yn eithaf rhanedig gyda 40.0% (N=2,935) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% (N=1,905) yn credu na fyddai effaith a 22.1% (N=1,619) o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=871) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahân ar ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 42.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, gyda 34.8% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (53.6%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 21.5% o'r farn na fyddai yna unrhyw effaith, ac 17.7% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig iawn gyda 30.1% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, 27.6% o'r farn y byddai effaith gadarnhaol a 25.4% yn credu y byddai effaith negyddol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 38.9% yn meddwl na fyddai effaith ar y gymuned leol, a 33.3% yn credu y byddai effaith negyddol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,954 | 53.6% | 783 | 21.5% | 645 | 17.7% | 264 | 7.2% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 952 | 27.6% | 1,038 | 30.1% | 877 | 25.4% | 580 | 16.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 27 | 13.4% | 70 | 34.8% | 85 | 42.3% | 19 | 9.5% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 5.6% | 14 | 38.9% | 12 | 33.3% | 8 | 22.2% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **2,935** | **40.0%** | **1,905** | **26.0%** | **1,619** | **22.1%** | **871** | **11.9%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol?

At ei gilydd ‘roedd cryn wahaniaeth barn ar y cwestiwn yma hefyd gyda 37.5% (N=2,752) o’r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% (N=1,964) o’r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% (N=1,740) yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=874) o’r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor a’r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 29.4% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 49.3% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, 23.4% yn credu byddai'n cael unrhyw effaith ac 19.6% o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig gyda 30.2% yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr economi leol, 26.8% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 26.5% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 41.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, a 25.0% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,799 | 49.3% | 854 | 23.4% | 714 | 19.6% | 279 | 7.7% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 924 | 26.8% | 1,042 | 30.2% | 914 | 26.5% | 567 | 16.4% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 24 | 11.9% | 59 | 29.4% | 97 | 48.3% | 21 | 10.4% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 5 | 13.9% | 9 | 25.0% | 15 | 41.7% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **2,752** | **37.5%** | **1,964** | **26.8%** | **1,740** | **23.7%** | **874** | **11.9%** | **7,330** | **100.0%** |


## 4.8 Oes yna eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r eiddo gwag hirdymor canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o eiddo gwag hirdymor arall ar y rhestr. Bu i 16.3% (N=1,196) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 45.4% (N=3,329) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 38.3% (N=2,805) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 65.8% (N=156) o holl berchnogion eiddo gwag hirdymor yn nodi hyn o'i gymharu ag 14.7% (N=1,040) o'r holl ymatebwyr eraill.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

## 4.9 Nodwch unrhyw eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y restr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 1,196 nododd "Oes" bu i 92.7% (N=1,109) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Eiddo sydd yn cael gwaith adnewyddu sylweddol (anodd cael gweithwyr) | 230 | 20.7% |
| Eiddo wedi eu hetifeddu/"probate" | 188 | 17.0% |
| Gwag oherwydd wedi gorfod mynd i ofal/ysbyty | 111 | 10.0% |
| Eiddo sydd wedi bod ar werth/i'w rentu am gyfnod hir | 95 | 8.6% |
| Angen cynyddu'r cyfnod eithriad i fwy na 12mis | 89 | 8.0% |
| Eiddo sydd ddim ffit i fyw ynddynt | 79 | 7.1% |
| Pob eiddo gwag hirdymor | 78 | 7.0% |
| Llety gwyliau | 49 | 4.4% |
| Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio | 48 | 4.3% |
| Cytuno gyda'r rhestr | 39 | 3.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo gwag sydd yn rhan o'r prif gartref ac yn anodd ei wahanu i'w werthu/rhentu e.e. eiddo ar ffermydd | 36 | 3.2% |
| Eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers cenedlaethau | 34 | 3.1% |
| Eiddo yn aros am ganiatad cynllunio/newid defnydd / trwy'r llysoedd | 32 | 2.9% |
| Eiddo mewn perchnogaeth Cymry Cymraeg/person lleol | 30 | 2.7% |
| Eiddo ble mae'r perchennog wedi gorfod mynd i ffwrdd i weithio ond yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol | 26 | 2.3% |
| Eiddo gyda gwerth hanesyddol/rhestredig | 26 | 2.3% |
| Eiddo gwag gyda busnes yn rhan ohono | 16 | 1.4% |
| Eiddo sydd ddim yn derbyn gwasanaethau gan y Cyngor | 15 | 1.4% |
| Ni ddylid codi mwy o dreth ar unrhyw eiddo boed yn wag neu beidio | 14 | 1.3% |
| Angen gwell diffiniad o "hirdymor" | 12 | 1.1% |
| Eiddo gwag ble mae'r perchennog yn bwriadu dod i fyw yn barhaol iddo yn y dyfodol | 12 | 1.1% |
| Eiddo gwag yn berchen elusen/y gymuned | 10 | 0.9% |
| Pwerau i'r Cyngor i orfodi rhywun werthu yr eiddo iddynt os ydi o wedi bod yn wag am gyfnod penodol | 9 | 0.8% |
| Eiddo gyda cyfyngiadau neu weithredoedd cyfamod | 9 | 0.8% |
| Eiddo gwag yn berchen i bensiynwyr | 8 | 0.7% |
| Eiddo ble mai cartref gwyliau oedd y pwrpas gwreiddiol | 7 | 0.6% |
| Carafanau statig / chalet / annex | 5 | 0.5% |
| Eiddo gwag oherwydd bod y perchenog yn y carchar | 3 | 0.3% |
| Tai amlfeddiannaeth (HMO) gwag | 3 | 0.3% |
| Angen edrych ar pob cais yn unigol | 3 | 0.3% |
| Eiddo sydd wedi bod yn wag am llai na 5 mlynedd | 2 | 0.2% |
| Eiddo ble mae pobl yn berchen arnynt ers blynyddoedd e.e. 10 mlynedd | 2 | 0.2% |
| Perchenog eiddo hefo anabledd neu yn sâl hirdymor | 1 | 0.1% |
| Eiddo masnachol | 1 | 0.1% |
| Angen codi premiwm ar adeiladau masnachol gwag | 1 | 0.1% |
| Ddim yn cytuno hefo'r rhestr - ddylai annex ddim cael eu heithrio | 1 | 0.1% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## 4.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am eiddo gwag hirdymor

Bu i 32.9% (N=2,415) o’r ymatebwyr wneud sylw pellach am eiddo gwag hirdymor.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Gyda gymaint o brinder tai yn yr ardal angen annog/cymhell perchnogion eiddo gwag hirdymor i'w gwerthu/rhentu i bobl leol | 477 | 19.8% |
| Prynu Gorfodol gan y Cyngor ar ôl cyfnod penodol o eiddo fod yn wag - datblygu i fod yn gartrefi i bobl leol | 306 | 12.7% |
| Ydi'r Cyngor wedi siarad efo perchnogion eiddo gwag i ddeall pam ei fod yn wag yn hytrach na chodi y premiwm - angen penderfynu lefel premiwm achos wrth achos | 274 | 11.3% |
| Eiddo gwag hirdymor yn gallu bod yn fler a chael effaith ar eiddo cyfagos/delwedd yr ardal/fandaliaeth | 260 | 10.8% |
| Eiddo gwag hirdymor yn llawer mwy o broblem i gymunedau na ail gartrefi | 259 | 10.7% |
| Premiwm yn syniad da ond rhaid cael eithriadau e.e. pan mae rhywun yn gorfod mynd i gartref gofal/mynd drwy "probate"/gwaith adnewyddu sylweddol | 238 | 9.9% |
| Eiddo gwag hirdymor yn ddim help i'r economi leol | 200 | 8.3% |
| Dylai'r premiwm orfodi perchnogion wneud rhywbeth efo nhw | 152 | 6.3% |
| Angen cynyddu'r cyfnod eithrio - mwy na 12 mis | 127 | 5.3% |
| Grantiau i bobl leol ddatblygu eiddo gwag | 122 | 5.1% |
| Ffordd ddiog gan y Cyngor i godi arian yn lle edrych ar eu gwariant | 98 | 4.1% |
| Angen gwell diffiniad o "hirdymor" a'r gwahaniaeth rhwng ail gartref/llety gwyliau ac eiddo gwag | 97 | 4.0% |
| Eiddo gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned leol a'r iaith Gymraeg | 93 | 3.9% |
| Byddai ffigyrau am nifer yr eiddo gwag sydd yng Ngwynedd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ateb yr ymgynghoriad | 80 | 3.3% |
| Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag gael eu rhoi ar y farchnad | 78 | 3.2% |
| Nid dyma'r amser i godi treth cyngor - costau byw ddigon uchel yn barod | 77 | 3.2% |
| Eiddo gwag yn mynd yn anoddach i'w gwerthu/rhentu oherwydd sefyllfa'r economi | 71 | 2.9% |
| Fe gaiff effaith negyddol ar dwristiaeth | 69 | 2.9% |
| Caiff codi y premiwm o bosib yr effaith groes i'r hyn mae'n bwriadu ei gael | 64 | 2.7% |
| Byddai premiwm yn rwystr i fuddsoddiad/gwariant yn yr ardal | 59 | 2.4% |
| Nifer o'r eiddo gwag yma ddim yn mynd i fod yn addas ar gyfer anghenion tai yn y gymuned, gan gynnwys teuluoedd ifanc | 56 | 2.3% |

| | | |
|---|---|---|
| Angen sicrhau nad oes rhai yn cymryd mantais o'r eithriadau i osgoi talu treth ychwanegol | 49 | 2.0% |
| Angen i Gyngor Gwynedd ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi yn yr ardal | 46 | 1.9% |
| Dylai eiddo gwag hirdymor ble nad oes unrhyw fwriad gwella neu werthu dalu y premiwm | 45 | 1.9% |
| Dylai'r Cyngor fod wedi adeiladu llawer iawn mwy o dai fforddiadwy nac maent wedi ei wneud | 42 | 1.7% |
| Oes tystiolaeth fod y premiwm 100% yn cael ei fuddsoddi yn y cymunedau? | 41 | 1.7% |
| Angen edrych ar reolau cynllunio - gwneud hi yn haws dod a eiddo gwag yn ôl i ddefnydd / rheoliadau sydd ddim ond caniatau pobl leol | 40 | 1.7% |
| Dylai'r premiwm aros yn 100% | 39 | 1.6% |
| Holiadur yn rhagfarnllyd a chul a ddim yn ddiduedd | 34 | 1.4% |
| Angen deddfwriaethau pellach i warchod eiddo er lles cymunedau ac unigolion lleol ac nid eu cosbi | 33 | 1.4% |
| Rhai eiddo gwag wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers canrifoedd | 31 | 1.3% |
| Y premiwm yn mynd yn erbyn hawliau dynol/hiliol | 31 | 1.3% |
| Dylid helpu pobl i adnewyddu adfeilion | 29 | 1.2% |
| Angen canolbwyntio ar eiddo masnachol gwag yn gyntaf | 27 | 1.1% |
| Rhai eiddo gwag wedi eu prynu er mwyn dod i fyw iddynt yn y dyfodol | 26 | 1.1% |
| Dylai eiddo gwag dalu llai o dreth cyngor ac nid mwy - ddim yn derbyn dim gwasanaethau | 20 | 0.8% |
| Dylai'r Cyngor helpu perchnogion i ddod ag eiddo i ddefnydd yn hytrach na'u cosbi: cydweithredu | 20 | 0.8% |
| Ni ellid rhoi bai ar eiddo gwag am ddirywiad yn yr iaith Gymraeg | 17 | 0.7% |
| Premiwm ddim yn deg os nad ydi o yn cael ei ddefnyddio yr un fath drwy'r wlad | 16 | 0.7% |
| Angen gwneud yn glir/digon o rybudd pryd fydd y newidiadau yn digwydd | 15 | 0.6% |
| Dylai premiwm fod yn daladwy gan bobl leol yn union yr un fath | 13 | 0.5% |
| Rheolau llym ar gyfer landlordiaid yn stopio nhw rentu y tai i bobl | 12 | 0.5% |
| Ni ddylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dodrefnu er nad oes neb yn byw ynddynt | 11 | 0.5% |
| Byddai codi'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi | 10 | 0.4% |
| Dylid codi treth cyngor ar garafanau sydd yn ail-gartrefi | 7 | 0.3% |
| Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag droi yn lety gwyliau | 7 | 0.3% |
| Ni fyddai codi'r premiwm yn cael llawer o effaith ynddo'i hun ar y defnydd o eiddo gwag | 6 | 0.2% |
| Bydd codi y premiwm yn creu mwy o waith i staff y Cyngor e.e. mynd ar ôl rhai sydd ddim yn talu | 4 | 0.2% |
| Eiddo gwag ddim yn broblem anferth yn yr ardal | 4 | 0.2% |
| Cynnig canran premiwm gwahanol | 2 | 0.1% |

| | | |
|---|---|---|
| Ni ddylai neb o du allan i Wynedd gael ymgynghori ar y polisi Treth Cyngor | 1 | 0.0% |
| Ni ddylid caniatau newid enwau eiddo i enwau Saesneg | 1 | 0.0% |
| Dylai'r premiwm fod yn ddibynnol ar brofi incwm | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

# Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb

## 1. Rhyw

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Dynes / Benyw | 3,162 | 43.1% |
| Dyn / Gwryw | 3,491 | 47.6% |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 25 | 0.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 652 | 8.9% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 2. Oedran

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| 15 oed neu'n iau | 1 | 0.0% |
| 16 - 24 oed | 106 | 1.4% |
| 25 - 34 oed | 428 | 5.8% |
| 35 - 44 oed | 772 | 10.5% |
| 45 - 54 oed | 1,474 | 20.1% |
| 55 - 64 oed | 1,806 | 24.6% |
| 65 - 74 oed | 1,405 | 19.2% |
| 75 - 84 oed | 626 | 8.5% |
| 85 + oed | 101 | 1.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 611 | 8.3% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 3. Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Albanaidd | 41 | 0.6% |
| Cymreig | 2,556 | 34.9% |
| Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 20 | 0.3% |
| Prydeinig | 2,111 | 28.8% |
| Seisnig | 1,702 | 23.2% |
| Arall | 249 | 3.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 651 | 8.9% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 4. Hil

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Asiaidd | 15 | 0.2% |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 50 | 0.7% |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 7 | 0.1% |
| Gwyn | 6,319 | 86.2% |
| Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig | 1 | 0.0% |
| Arall | 52 | 0.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 886 | 12.1% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 5. Crefydd

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Bwdhaidd | 15 | 0.2% |
| Cristion | 3,744 | 51.1% |
| Hindw | 3 | 0.0% |
| Iddewig | 9 | 0.1% |
| Mwslim | 8 | 0.1% |
| Sîc | 2 | 0.0% |
| Dim crefydd | 2,249 | 30.7% |
| Arall | 115 | 1.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,185 | 16.2% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 6. Rhywioldeb

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Deurywiol | 49 | 0.7% |
| Dyn hoyw | 61 | 0.8% |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 28 | 0.4% |
| Heterorywiol / Strêt | 5,660 | 77.2% |
| Arall | 109 | 1.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,377 | 18.8% |
| Heb ateb | 46 | 0.6% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 7. Hunaniaeth rhywedd wedi newid?

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydi | 6,086 | 83.0% |
| Ydi | 89 | 1.2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,076 | 14.7% |
| Heb ateb | 79 | 1.1% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 8. Anabledd

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 5,989 | 81.7% |
| Ydw | 366 | 5.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 975 | 13.3% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 9. Sgiliau Cymraeg

| Categori* | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad Cymraeg | 2,593 | 35.4% |
| Deall Cymraeg ar lafar | 2,591 | 35.3% |
| Darllen Cymraeg | 2,024 | 27.6% |
| Ysgrifennu’n Gymraeg | 1,670 | 22.8% |
| Ddim yn deall Cymraeg | 1,741 | 23.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,580 | 21.6% |
| Arall | 229 | 3.1% |

**modd dewis mwy nac un categori*

## Paratowyd yr adroddiad yma gan

**Tîm Ymchwil**
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: ymchwil@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679619
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, ac ers 1 Ebrill 2021 cynyddwyd lefel y Premiwm i 100%. O 1 Ebrill 2023 bydd y ddeddfwriaeth wedi newid a bydd gan y Cyngor yr hawl i gynyddu lefel y Premiwm i 300% |

Bydd angen i'r Cyngor llawn wneud ei benderfyniad ar y lefel Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022 a hynny ar sail argymhelliad sydd i'w benderfynu gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd.

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut dylai ymateb i'r newid deddfwriaeth sy'n galluogi'r Cyngor i gynyddu lefel y Premiwm y tu hwnt i'r 100% presennol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn Tachwedd 2021 er mwyn cymryd ystyriaeth o'r Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

Mae wedi cael ei addasu a'i ddiweddaru ymhellach yn Hydref / Tachwedd 2022 er mwyn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ym Medi 2022

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen, wedi i'r Ddeddf gael ei addasu gan *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90).* Yr uchafswm blaenorol oedd 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:
Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchodedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchodedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Medi a 28 Hydref 2022. Derbyniwyd 7,330 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd tystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan

y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prisio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:
**4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
**229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
**753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth pan yn gosod Premiwm 2023/24 fydd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Hydref 2022, roedd 32.1% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 22.1% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.6% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma. |
| | Negyddol | Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.<br><br>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif. |
| **Anabledd** | Ansylweddol | Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall. |
| **Rhyw** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Positif | Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.<br><br>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (*Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England*) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.<br><br>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.<br><br>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hŷn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.<br><br>Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.<br><br>Mae'r y grym i godi premiwm wedi ei gyflwyno trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r canllawiau statudol yn nodi:<br><br>*Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:*<br>• *adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a*<br>• *chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.* |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.<br><br>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi trethiant yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai yn Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys ystod o brosiectau yn eu lle i wneud y defnydd o gynnyrch y Premiwm er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yr egwyddor sylfaenol yw fod y rhai sy'n gallu fforddio sawl eiddo yn cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartrefi o gwbl. Y prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n gwneud defnydd o arian y Premiwm yw:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref
- Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref
- Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys
- Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat
- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol
- Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.
- Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai

- Plotiau hunan adeiladu
- Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag
- Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf
- Cynllun cymorth prynu
- Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol
- Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol
- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Cynllun peilot Tai Arloesol
- Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol
- Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid
- Tai gofal estynedig – henoed
- Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys
- Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys
- Frondeg, Caernarfon
- Benthyciadau di log i wella cyflwr tai
- Siop un stop i faterion Tai

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Credwn fod y polisi eisoes yn dangos ymrwymiad llwyr i roi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac nad oes angen mesurau neu newidiadau eraill.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

Microsoft Word - 0.2Asesiad_Effaith_Cydraddoldeb_CGT.doc (llyw.cymru)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am asesiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwyso hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma.

Mae cyfraith achos wedi sefydlu y bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn cael ei gymryd fel bod wedi digwydd pan fyddai darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n ymddangos yn niwtral, yn rhoi personau o darddiad hiliol neu ethnig o dan anfantais benodol o'i gymharu â phersonau eraill, oni bai bod darpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol gan nod cyfreithlon a'r modd o gyflawni'r nod hwnnw yn briodol ac angenrheidiol.

Wrth wneud penderfyniad ar y Premiwm, felly, rhaid bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd fod gwahaniaethu anuniongyrchol yn bodoli. Er mai defnydd eiddo sy'n golygu os yw Premiwm yn daladwy arno neu beidio, nid ei berchnogaeth, mae canlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fod perchnogion eiddo o'r fath yn dueddol o fod yn Saeson ac yn bobl hŷn ac mae angen bod yn ymwybodol o'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y carfannau hyn.
Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | ✓ |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **1af Rhagfyr 2022** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol 2021 – Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2021/22** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo a mabwysiadu adroddiad Hunanasesiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dyfrig Siencyn** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Dyma adroddiad sy’n cyflwyno Hunanasesiad Perfformiad cyntaf y cyngor gan edrych yn ôl ar 2021/22. Nodir fod yr adroddiad yn ofyn statudol newydd o dan **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

1.2 Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae’n disodli’r ddyletswydd a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 .

1.3 Golyga bod yn rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:-

- y mae’n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae’n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

1.4 Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac yn ymateb i’r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda rydyn ni’n gwneud?
- Sut rydyn ni’n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

1.5 Mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau’r gwaith “cyn gynted ag bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi.”

1.6 Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y cyngor a’r undebau llafur. Dylid defnyddio’r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad.

1.7 Mae’r cyngor eisoes yn casglu llawer o’r dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy’n cynnwys y math o wybodaeth sy’n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a’r Datganiad Llywodraethu. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cadw’r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o’r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

1.8 Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o’r broses hyn o fewn y cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a’i arwain ar lefel strategol.

1.9 Mae’r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn awgrymu y dylid defnyddio'r saith maes corfforaethol sy’n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus (fel sydd wedi eu hadnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015) fel fframwaith ar gyfer yr hunan asesiad, sef:

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio’r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg
- Rheoli Perfformiad

1.10 Mae angen cyflwyno drafft o’r adroddiad hunanasesu i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei gyhoeddi yn derfynol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.

1.11 Yn ei gyfarfod ar y 17eg o Dachwedd cynigodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor yr argymhelliad canlynol:

i. Ystyried cynnwys cyfeiriad at y gefnogaeth a’r hyfforddiant a roddir i Aelodau Etholedig o dan y pennawd Cynllunio Corfforaethol?

Bu i’r Cabinet gytuno i’r awgrym hwn yn eu cyfarfod ar y 22ain o Dachwedd ac felly mae’r datganiad canlynol wedi ei gynnwys ar dudalen 4 o’r hunanasesiad y gofynnir i chi ei fabwysiadu:

*Cynhaliwyd rhaglen i gyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant i’r holl Gynghorwyr ar ddechrau’r tymor yn dilyn yr etholiad. Roedd y rhaglen wedi ei blaenoriaethu i gynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Cyngor a’i wasanaethau ynghyd a’r prif sesiynau hyfforddiant angenrheidiol i unrhyw Gynghorydd ymgymryd a’i rôl ee cod ymddygiad, rhiant corfforaethol. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau penodol i Gynghorwyr cyn iddynt ymgymryd a rolau ar wahanol bwyllgorau ee Aelodau Cabinet, hyfforddiant i’r holl aelodau craffu fel rhan o’r gweithdai cyn i’r aelodau gychwyn ar eu gwaith craffu, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio,*

*Trwyddedu ac Archwilio a Llywodraethu.  Bydd y rhaglen hyfforddiant yn parhau yn 2023/24 ar sail y blaenoriaethau sy'n cael eu hadnabod gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.  Yn ogystal,  bydd cyfle am gyfweliad datblygiad personol i bob Cynghorydd i gael adnabod meysydd datblygol penodol.*

1.12 Fel sydd wedi ei nodi eisoes y flwyddyn hon yw'r tro cyntaf i ni gynnal yr hunan asesiad a'r tro hwn bydd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen sy'n sefyll ar ei ben ei hun. I'r dyfodol y bwriad yw integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen. Mae'r ddogfen hon yn arfer cael ei pharatoi yn ystod mis Ebrill/Mai er mwyn ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo ar ddechrau mis Gorffennaf.

1.13 Byddai peidio â chyhoeddi hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da'r Cyngor.

## 2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

2.1 Yn unol a gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor wedi trafod adroddiad Hunanasesiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22 ac wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ac argymhellion. Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod yr adroddiad a welir yn **Atodiad 1** yn ei gyfarfod ar y 22ain o Dachwedd, ac yn argymell bod y Cyngor ei fabwysiadu.

## 3. Camau nesaf ac amserlen

3.1 Yn unol a'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bydd y ddogfen yn cael ei chylchredeg i'r rhestr ganlynol o dderbynwyr o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn:

i. Archwilydd Cyffredinol Cymru
ii. Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
iii. Gweinidogion Cymru.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu adroddiad Hunanasesiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22

## 5. Barn y Swyddogion Statudol

**5.1 Barn y Swyddog Monitro**

Fe bwysleisir yn yr adroddiad fod y drefn asesiad perfformiad yn gymharol newydd a fod gweu y trefniadau statudol yma i fod yn rhan o drefniadau rheoli perfformiad yn parhau. Mae elfennau o'r gofynion statudol yn parhau angen eu datblygu a chryfhau ac rwy'n cydnabod y bwriad i sicrhau fod y gofynion yma yn cael eu cyfarch yn llawn ar gyfer yr asesiad nesaf.

**5.2 Barn y Pennaeth Cyllid**

Dyma'r flwyddyn gyntaf o baratoi Hunanasesiad Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf 2021. Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr hunanasesiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Cyngor, tra'n cydnabod bydd trefniadau paratoi'r hunanasesiad yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf. Mae hynny'n cynnwys agweddau o safbwynt asesu'r defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o adnoddau a bydd gwasanaethau'r Adran Gyllid yn cyfrannu fel sy'n briodol i'r gwaith yma.

## Atodiadau

Atodiad 1 – Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2021/22

# Deddf Llywodraeth Leol 2021 - Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22

## Cefndir

Dyma adroddiad sy’n adlewyrchu hunanasesiad cyntaf Cyngor Gwynedd fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar ei lefel symlaf, wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw, pa mor dda mae’n gwneud? Sut mae gwybod hynny? A, beth all wneud er mwyn gwell a sut?

Mae’r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r ‘gofynion perfformiad’, hynny yw i ba raddau:-

- y mae’n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae’n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli. Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.

Er bod y ddyletswydd hon yn newydd dylid nodi fod y Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy’n cynnwys y math o wybodaeth sy’n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunan asesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a’r Datganiad Llywodraethu.

Yn y gorffennol mae ein trefniadau adrodd ar berfformiad wedi bod yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau o dan ein blaenoriaethau gwella, sef:

- Creu economi hyfyw a ffyniannus
- Rhoi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymateb i’r argyfwng newid hinsawdd

Ceir copi o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yma. Bydd yr hunan asesiad yn golygu ein bod hefyd yn edrych ar ein perfformiad yn erbyn meysydd llywodraethu corfforaethol.

Mae’r ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel o hunan asesiad strategol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22 gyda’r canlyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o’r dogfennau a restrir uchod.

Cynhelir cyfarfodydd herio perfformiad ar lefel Adrannol bob yn ail fis sy'n edrych ar gynnydd prosiectau blaenoriaeth, perfformiad gwasanaethau a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

I'r dyfodol bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn rhoi sylw i'r cynnydd yn erbyn y materion fydd angen sylw a gaiff eu hadnabod o fewn yr hunan asesiad. Rhain yw'r dogfennau sy'n rhoi gwybodaeth o sut mae'r wedi perfformio yn erbyn ein blaenoriaethau yn 2021/22 gan gynnwys cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant. Y flwyddyn hon yw'r tro cyntaf i ni gynnal yr hunan asesiad a'r tro hwn bydd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Y bwriad yw integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ddefnyddio'r saith maes corfforaethol sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus, fel yr awgrymir o fewn canllawiau statudol Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel fframwaith ar gyfer yr hunan asesiad, sef:

1. Cynllunio corfforaethol
2. Cynllunio ariannol
3. Cynllunio'r gweithlu (pobl)
4. Caffael
5. Asedau
6. Rheoli risg
7. Rheoli Perfformiad

Penderfynwyd hefyd i gynnwys pennawd penodol am y gwaith ymgysylltu sy'n digwydd â thrigolion, staff, budd-ddeiliaid ac Undebau Llafur.

Rydym eisoes wedi nodi fod llawer o'r dystiolaeth ar gyfer yr hunan asesiad yn deillio o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt sydd rhwng y meysydd o risgiau llywodraethu sydd wedi eu hadnabod o fewn y ddogfen hynny a'r themâu ar gyfer yr hunan asesiad.

| Themâu hunan asesiad | Meysydd o risg Llywodraethu |
|---|---|
| Cynllunio Corfforaethol | Cyfeiriad a gweledigaeth<br>Cynaliadwyedd<br>Cyfreithlondeb<br>Bod yn agored<br>Arweinyddiaeth<br>Diwylliant<br>Ymddygiad<br>Penderfyniadau |

| | |
|---|---|
| | Rhanddeiliaid<br>Cynllunio gweithrediadau<br>Adolygu deilliannau |
| Cynllunio Ariannol | Cyllid<br>Cynllunio gweithrediadau |
| Cynllunio'r Gweithlu (pobl) | Cynllunio'r gweithlu |
| Caffael | |
| Asedau | Asedau eiddo<br>Asedau technoleg gwybodaeth<br>Gwybodaeth |
| Rheoli Risg | Rheoli risg<br>Rheolaeth fewnol<br>Adolygu deilliannau<br>Iechyd, Diogelwch a Llesiant |
| Rheoli Perfformiad | Perfformiad<br>Atebolrwydd<br>Adolygu deilliannau |
| Ymgysylltu | Ymgysylltu |

**1. Cynllunio Corfforaethol**

Mae Cyngor Gwynedd yn gosod ei weledigaeth a'i flaenoriaethau yn glir, a hynny drwy ei Gynllun Corfforaethol -Cynllun y Cyngor 2018-2023. Cyhoeddwyd y Cynllun pum mlynedd yn ôl yn 2018, a phob blwyddyn wedi hynny cyhoeddir Cynllun blynyddol sy'n cynnwys adolygiad o'r holl brosiectau blaenoriaeth. Mae hyn yn digwydd drwy drafodaethau rhwng yr Aelodau Cabinet, yr Adrannau a'r Tîm Rheoli. Mae ymgysylltu pellach â gweddill yr Aelodau hefyd yn rhan o drefniadau adolygu ac ym mis Tachwedd 2021 cynhaliwyd dau sesiwn rhithiol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt roi sylwadau ar y blaenoriaethau a sicrhau perchnogaeth wleidyddol o'r Cynllun. Mae trefn mewn lle i adolygu'r prosiectau blaenoriaeth yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni, ac i adnabod unrhyw rwystr sy'n gall achosi llithriad. Cyflwynir adroddiadau perfformiad gan aelodau unigol i'r Cabinet ddwy waith y flwyddyn yn ogystal â diweddariad cryno iawn o gynnydd holl brosiectau Cynllun y Cyngor dair gwaith y flwyddyn (mis Gorffennaf/Medi, mis Rhagfyr a mis Mawrth) . Cyhoeddir yr Adroddiad Perfformiad blynyddol ar gyfer 2021/22 ym mis Gorffennaf a gwelir fod y mwyafrif o brosiectau wedi eu cyflawni. Dyma adroddiad cytbwys sydd hefyd yn tynnu sylw at unrhyw fethiant pan nad oedd yn bosib cyflawni o fewn yr amserlen, fel gwelir efo prosiect darpariaeth addysg ôl 16 yn Arfon.

Cynhaliwyd rhaglen i gyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant i'r holl Gynghorwyr ar ddechrau'r tymor yn dilyn yr etholiad. Roedd y rhaglen wedi ei blaenoriaethu i gynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Cyngor a'i wasanaethau ynghyd a'r prif sesiynau hyfforddiant angenrheidiol i unrhyw Gynghorydd ymgymryd a'i rôl ee cod ymddygiad, rhiant corfforaethol. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau penodol i Gynghorwyr cyn iddynt ymgymryd a rolau ar wahanol bwyllgorau ee Aelodau Cabinet, hyfforddiant i'r holl aelodau craffu fel rhan o'r gweithdai cyn i'r aelodau gychwyn ar eu gwaith craffu, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu ac Archwilio a Llywodraethu. Bydd y rhaglen hyfforddiant yn parhau yn 2023/24 ar sail y blaenoriaethau sy'n cael eu hadnabod gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Yn ogystal, bydd cyfle am gyfweliad datblygiad personol i bob Cynghorydd i gael adnabod meysydd datblygol penodol.

Mae lle i wella a chryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith Cynllunio Corfforaethol gan sicrhau fod cyswllt rhwng y rhaglen Craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dal y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Ar ddechrau 2022/23 cyflwynwyd trefn herio perfformiad newydd sy'n cryfhau yn ymarferol rôl yr aelodau craffu yn y cyfarfodydd herio perfformiad, ac felly eu cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol (gwelir adran 'Rheoli Perfformiad' yn yr hunan asesiad am ragor o fanylion).

Nodir hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei chael hi'n anodd i ddenu aelodau lleyg addas i fod ar y pwyllgor fel sy'n ofynnol o fewn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 sy'n golygu nad oes gennym y nifer ddisgwyliedig o aelodau lleyg ar hyn o bryd.

Mae ein cynlluniau corfforaethol yn cyd-fynd hefo gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth berthnasol ond mae lle i gryfhau'r cyswllt hwn. Tra bod dogfen megis Cynllun y Cyngor 2022/23, yn gyffredinol yn cyfarch gofynion statudol penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfeirio at yr amcanion a'r pum ffordd o weithio, ychydig o dystiolaeth sydd ei fod wedi treiddio fel elfen sylfaenol o osod cyfeiriad ac wedi ei brif ffrydio. Mae gwaith pellach ei angen er mwyn sicrhau fod y Ddeddf Llesiant a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Mae rôl Swyddogion Statudol angen bod yn fwy creiddiol wrth osod trywydd, ac ar hyn o bryd maent yn tueddu cael eu cynnwys yn rhy hwyr mewn materion.

Mae gwaith eisoes ar waith er mwyn edrych ar sut i greu strwythur a threfniadau gwell ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-28. Bwriedir hefyd edrych ar sut mae gofynion statudol y Ddeddf yn cyd-fynd hefo egwyddorion Ffordd Gwynedd, sef y diwylliant o weithio mae'r Cyngor wedi ei fabwysiadu er mwyn sicrhau ei fod yn ystyriaeth greiddiol wrth gynllunio ond hefyd ein bod yn medru tystiolaethu sut yr ydym yn cyfrannu at yr egwyddorion.

Nid oes trefn ffurfiol yn bodoli ar gyfer hunanasesu gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol (er enghraifft, adroddiadau Archwiliadau, adborth gan gwsmeriaid, cyflawniadau) i lywio Cynlluniau Adran. Erbyn hyn mae'r mwyafrif o Wasanaethau wedi sefydlu pwrpasau sy'n berthnasol i drigolion y sir ac hefo mesurau meintiol sy'n dangos cyfraniad i'r pwrpas. Nodir fodd bynnag fod y trefniadau yn amrywio o ar draws y Cyngor gyda rhai Adrannau hefo trefniadau mwy aeddfed nag eraill. (*Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd - Adolygiad o Reoli Perfformiad – Cyngor Gwynedd: Archwilio Cymru – Ionawr 2022.)*

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefn llywodraethu addas yn ei le. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae canllaw yn cael ei ddarparu er mwyn yn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government. Ceir copi o Ddatganiad Llywodraethu 2021/22 yma.

**Beth sy'n dda?**

- Gweledigaeth a blaenoriaethau clir wedi ei nodi o fewn Cynllun y Cyngor.
- Trefn mewn lle er mwyn adolygu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor yn gyson a rheolaidd.
- Perchnogaeth wleidyddol o Gynllun y Cyngor, gyda'r Aelodau Cabinet ac Aelodau eraill yn rhan o'r broses o'i ddatblygu ac adolygu.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • cryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith cynllunio corfforaethol fel bod mwy o gyswllt hefo'r rhaglen craffu a sicrhau eu bod yn dal Aelodau Cabinet i gyfrif. | Tîm Arweinyddiaeth/Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith |
| • Byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol. | Tîm Arweinyddiaeth/Swyddogion Statudol |
| • Adolygu ein trefniadau hunan asesu ar sail profiadau'r flwyddyn gyntaf gan hefyd edrych ar arfer da o fewn Cynghorau eraill. | Grŵp Trefniadau Llywodraethu/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

**2. Cynllunio Ariannol**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a’i gyfrifo amdano yn briodol, a’i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Er gwaethaf argyfwng Covid-19 a’r gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau’r Cyngor am 2021/22 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Yn 2021/22 roedd y Cyngor yn tanwario, ac fe gymeradwyodd aelodau’r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £791,000 am y flwyddyn. Fodd bynnag, mae pwysau sylweddol yn parhau yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan olygu eu bod wedi gorwario yn ystod y flwyddyn. Mae’r sefyllfa yma bellach o dan adolygiad parhaus.

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol i sicrhau parhad gwasanaeth, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid. Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.

Pob blwyddyn mae’r Cyngor yn paratoi ei Strategaeth Ariannol sy’n sicrhau Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae’r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o’r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy’n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau’r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Yn Medi 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda. Mae’r adroddiad i’w weld yma.

Fodd bynnag, un argymhelliad oedd bod angen edrych fwy i’r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol y sefydliad am y blynyddoedd nesaf. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Gwynedd wedi bod dan adolygiad barhaus ers cychwyn blwyddyn ariannol, wrth i’r bwlch ariannol sydd yn wynebu’r Cyngor (fel pob awdurdod lleol arall) gynyddu’n gyflym wrth i effaith lefelau chwyddiant digynsail effeithio ar allu’r Cyngor i ariannu ei wasanaethau. Bydd rhaglenni arbed yn un o brif flaenoriaethau’r Cyngor wrth ymateb i’r sefyllfa ariannol yma, a byddwn yn adrodd i aelodau, staff a’r cyhoedd yn rheolaidd am y sefyllfa. O ganlyniad i hynny, bydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig addasedig yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet pan fydd setliad ariannol 2023/24, a ddangosol ar gyfer 2024/25, yn dod yn fwy cadarn yn Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn helpu’r Cyngor edrych ar sut i blethu ei drefniadau Cynllunio Ariannol hefo gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Mae’r Cyngor hefyd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut y gall gynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol. Yn y gorffennol mae’r Cyngor wedi ymgynghori ar ei gynlluniau i gyflawni arbedion yn achlysurol, er enghraifft, drwy ymarferiad Her Gwynedd yn 2016 ac ymgynghoriad Strategaeth Ariannol yn 2019. Mae hefyd yn cynnal gweithdai gydag Aelodau ar lefel y dreth Cyngor ac yn ymgysylltu ar Drethi Annomestig yn flynyddol. Mae’r Cyngor yn cydnabod fod angen bod yn fwy agored ynghylch penderfyniadau ariannol gan

ymgysylltu yn fwy aml, er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael mewnbwn ar benderfyniadau.

**Beth sy'n dda?**

- Y Cyngor wedi tanwario yn ystod 2021/22.
- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol ac mae archwilwyr allanol yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • **Edrych i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor drwy baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.** | Pennaeth Cyllid |
| • Ystyried y ffyrdd mwyaf o ymgysylltu a chynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol a gweithredu | Pennaeth Cyllid/Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu |

**3. Cynllunio'r Gweithlu (Pobl)**

Mae adborth aelodau staff yn dangos fod y Cyngor, ar y cyfan, yn 'le da i weithio', ac o'i gymharu ag arolwg a gynhaliwyd yn 2019, roedd canlyniadau 2021 yn dangos fod cynnydd yn 'sgôr' y datganiad yma. Mae gwaith pellach i wneud, fodd bynnag, yn y meysydd gwerthfawrogiad staff a chyflogau teg. (Gwelir y bennod Ymgysylltu am fwy o wybodaeth am yr Arolwg Llais Staff).

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Er bod Covid-19 wedi amlygu gweithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'r cyfnod hefyd wedi amlygu heriau denu a chadw staff ar draws y Cyngor gyda gweithio o adref a threfniadau gweithio hybrid wedi golygu fod gweithio i sefydliadau y tu hwnt i'r ardal wedi dod yn fwy deniadol i swyddogion.

Erbyn hyn, mae cynllunio gweithlu addas i'r dyfodol yn un o'r prif flaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor ac yn derbyn sylw yn gorfforaethol yn hytrach na dim ond ym maes Oedolion a Phlant, lle'r oedd problemau yn bodoli yn y gorffennol. Yn ystod 2021/22 penodwyd 13 Prentis a 7 Hyfforddai Proffesiynol (drwy Gynllun Arbenigwyr Yfory a Rheolwyr Yfory) newydd i feysydd adnabuwyd fel blaenoriaeth ar draws y Cyngor. Mae enghreifftiau hefyd o lwyddiant y Cynllun, gydag unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor.

Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol, er enghraifft, drwy'r Cynllun Datblygu Potensial. Fel rhan o'r prosiect blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' sefydlwyd Cynllun Datblygu penodol i ferched, gan eu bod wedi eu hadnabod fel un garfan sy'n gyndyn o ymgeisio am swyddi uwch. Gwelir hyn yn y ganran isel o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor, sy'n anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan, hynny yw, 70% merched a 30% dynion.

Tra bod y prosiect cynllunio gweithlu yn dod a sawl adran at ei gilydd i gydweithio er mwyn mynd ati i daclo problemau denu a chadw staff, mae'r Cyngor yn tueddu i fod yn ymatebol ei natur yn hytrach na chynllunio yn hirdymor. Un gwendid gan Reolwyr (ar y cyfan) yw'r methiant i edrych ymlaen 5-10 mlynedd gan ystyried oedran staff presennol a'r arbenigeddau sydd eu hangen i'r dyfodol, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar barhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu diweddaru ac adolygu ei Strategaeth Cynllun Pobl yn ystod y flwyddyn.

**Beth sy'n dda?**

- Ar y cyfan, mae staff yn teimlo fod y Cyngor yn le da i weithio, a hyn wedi cynyddu rhwng 2019 a 2021.
- Llwyddiant Cynllun Prentisiaethau, Cynllun Arbenigwyr a Rheolwyr Yfory, Cynllun Datblygu Potensial fel rhan o'r Cynllun Datblygu Talent Fewnol.

- ‘Cynllunio’r Gweithlu’ wedi ei adnabod yn brosiect blaenoriaeth drawsadrannol o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Gweithredu prosiect er mwyn mynd i’r afael a’r problemau recriwtio staff presennol y mae’r Cyngor yn ei brofi. | Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol |
| • Rhoi arweiniad a chyngor i wasanaethau er mwyn sefydlu arferion cynllunio gweithlu tymor hir, fel bod modd ceisio osgoi problemau recriwtio a chadw staff i’r dyfodol. | Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol |

**4. Caffael**

Caffael yw'r broses sy'n galluogi'r Cyngor i reoli cael ei holl nwyddau, Gwasanaethau a gwaith. Bwriad y Rheolau Caffael yw sicrhau fod y Cyngor yn cael gwerth am arian a'r lefel angenrheidiol o ansawdd a pherfformiad a bod yr holl weithgaredd caffael yn cael ei gynnal mewn modd agored, cywir ac atebol.

Mae’r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu’r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y cyngor, er lles y sir.

Mae gweithgareddau caffael y Cyngor yn arddangos bod 60% o’r gwariant hyn yn aros o fewn Gwynedd, a drwy’r prosiect ‘Cadw’r Budd yn Lleol’ mae’r Cyngor yn ymdrechu i ganfod ffyrdd newydd o gefnogi busnesau lleol i gystadlu ac ennill y cytundebau. Un agwedd o’r gwaith yw symud i ddull asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol, yn hytrach na phris ac ansawdd yn unig. Mae gwaith treialu’r dull wedi ei gynnal yn ystod 2021/22 a bydd dadansoddiad pellach yn cael ei wneud yn ystod 2022/23 i edrych os oes angen cyflwyno newidiadau i’r drefn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy’n bosibl yn aros yng Ngwynedd.

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur ym mis Mawrth 2021 sy’n cynnwys rhan ar y gwaith o gyfrifo’r allyriadau carbon sy’n deillio o weithgareddau caffael. Wrth barhau i weithredu’r Polisi Caffael Cynaliadwy, dros y blynyddoedd nesaf bydd y Cyngor hefyd yn edrych i ddarparu cefnogaeth i’r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon ac yn parhau i asesu ei brosesau mewnol o osod meini prawf i fesur tendrau er mwyn sicrhau ei fod yn mesur effaith amgylcheddol contractau.

Mae’r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn cadw at ei Reoliadau Caffael. Nod y tîm yw cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi’r farchnad leol. Mae hefyd trefniadau Rheolaeth Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn ei le er mwyn edrych ar gaffael yn strategol a rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad, gan annog fwy o gydweithio. Ychydig o dystiolaeth sydd gennym ynghylch pa mor effeithiol ac effeithlon yw ein trefniadau mewnol ar gyfer caffael ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn rhoi sylw iddo yn y dyfodol.

**Beth sy’n dda?**

- Mae gweithgareddau caffael y Cyngor yn arddangos bod 60% o’r gwariant hyn yn aros o fewn Gwynedd.
- Prosiectau pellach ar waith fel rhan o’r Cynllun Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, er mwyn cyfrifo a lleihau’r allyriadau carbon sy’n deillio o weithgareddau caffael.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Datblygu set o fesurau er mwyn sefydlu pa mor effeithiol ac effeithlon yw ein trefniadau rheolaeth categori ar gyfer caffael. | Gwasanaeth Caffael |

**5. Asedau**

Er mwyn cyflawni’r amcanion a blaenoriaethau gwella sydd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor mae gwasanaethau yn gorfod defnyddio nifer o amrywiol asedau. Er mwyn gosod ei weledigaeth asedau mae’r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Asedau Corfforaethol 2019/20-2029, ac mae ar gael i drigolion ei ddarllen ar wefan y Cyngor yma.

Er mwyn creu’r Cynllun cynhaliwyd trafodaethau gydag adrannau er mwyn nodi beth fydd eu hanghenion asedau tebygol dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd nifer o’r cynlluniau yn ymwneud a gwaith ataliol ac yn edrych i’r hirdymor yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd pob Aelod o’r Cyngor gyfle i chwarae rhan yn y broses o flaenoriaethu’r cynlluniau hynny drwy adnabod y flaenoriaeth yr oedd ef neu hi yn ystyried y dylid ei roi i gynllun unigol. Mae cysylltiad agos rhwng y Cynllun Asedau a’r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Cyfalaf y Cyngor.

Gellir rhannu asedau’r Cyngor o dan ddau bennawd sef Asedau Tir ac Eiddo, ac Asedau Technoleg Gwybodaeth. Un risg posib sydd wedi ei adnabod yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yw nad yw’r Asedau Eiddo yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae’r sgôr risg yma yn isel gan fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu yn unol â chanlyniadau gwaith creu’r Cynllun Asedau 2019/20-2029. O ran cerbydau'r Cyngor mae yna hefyd gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd sydd eisoes wedi arwain at rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy i’r dyfodol.

Mae’r risg nad ydi’r Cyngor yn defnyddio ei Asedau Technoleg Gwybodaeth i'w llawn botensial ychydig yn uwch. Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol. Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn rhoi pwyslais penodol ar ddod a gwasanaethu digidol yn agosach at bobl Gwynedd drwy gyflwyno arlwy o wasanaethau newydd fel apGwynedd, “Fy nghyfrif” a chynnydd yn y dewis o gyflwyno ceisiadau am wasanaeth ar-lein, yn ogystal ag wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Fodd bynnag, mae risg nad yw hyn yn digwydd ar yn ddigon cyflym ac mae risgiau pellach yn ein hwynebu o ran diogelwch a seibrgadernid.

Mae’r Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu’r Cynllun Asedau er mwyn rhoi cyfle i ail ystyried ac ail flaenoriaethu yn dilyn cyfnod Covid-19, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau ehangach fel Thechnoleg Gwybodaeth a Data. Bydd hefyd angen cymryd i ystyried yr her o addasu ein hadeiladau ar gyfer y ffordd newydd o weithio gan gynnwys trefniadau gweithio hybrid i’r dyfodol.

Nid yw’r Cyngor yn ymgysylltu’n ehangach wrth greu’r Cynllun Asedau, fodd bynnag, mae gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei gynnal wrth ddatblygu rhai o’r cynlluniau unigol. Un enghraifft ddiweddar yw’r ymgysylltiad ar ddatblygu cynlluniau Canolfan Dolfeurig, sef canolfan dydd yn Nolgellau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu. Mae hyn yn digwydd ar lefel adrannol yn hytrach na chorfforaethol.

**Beth sy'n dda?**

- Cynllun Asedau tymor hir yn ei le sy'n cynnwys blaenoriaethau hyd at 2029/30.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf. | Prif Weithredwr |

**6. Rheoli Risg**

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol. Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddwyr ym mhob Adran. Bellach mae'n llawer haws i wneud cysylltiad rhwng y risgiau wrth i Adrannau ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud fel ymateb, ac mae hefyd yn cynorthwyo Aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd i leihau'r risg.

Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am herio'r sgoriau risg llywodraethu. Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau bod trefn yn bodoli ar gyfer mesur effeithlonrwydd y broses rheoli risg, ac y bydd pob darganfyddiad a ddaw o'r drefn fonitro yn cael ei fwydo'n ôl i'r cylch rheoli risg

Wrth ddelio ag argyfwng Covid-19, nid oedd y Cyngor wedi cynllunio ar gyfer cyfnod clo cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd gwaith eisoes wedi ei wneud er mwyn categoreiddio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail gwaith 'hanfodol'. Bu i hyn alluogi'r sefydliad flaenoriaethu gan sicrhau parhad gwasanaethau 'hanfodol' yn ôl ym mis Mawrth 2020. Mae'n bwysig cydnabod hefyd fod y gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin, gyda thîm penodol wedi ei sefydlu yn gyflym er mwyn cefnogi'r ffoaduriaid yng Ngwynedd.

Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn bodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol.

**Beth sy'n dda?**

- Cofrestr Risg Corfforaethol wedi ei lansio ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran.
- Gwersi â ddysgwyd o ddelio â argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr wrth ddelio â argyfyngau eraill, er enghraifft, rhyfel yn Wcráin.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gallu bodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol. | • Pennaeth Cyllid/Grŵp Trefniadau Llywodraethu |

**7. Rheoli Perfformiad**

Ar ddechrau 2022/23 cyflwynwyd trefn newydd ar gyfer herio perfformiad y Cyngor. Yn unol â'r drefn newydd mae holl Adrannau'r Cyngor yn cynnal cyfarfod herio perfformiad mewnol pob yn ail fis, ac yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd mewnol yn dod â'r Pennaeth Adran, Aelod Cabinet, Prif Weithredwyr neu Gyfarwyddwyr Corfforaethol a Rheolwyr Gwasanaeth at ei gilydd yn rheolaidd, ac mae cyfle i herio cynnydd prosiectau blaenoriaethau gwella a mesurau perfformiad gwasanaethau'r Adran (hynny yw, y gwaith dydd i ddydd).

Mae gan yr Aelodau rôl graidd o fewn y gyfundrefn perfformiad newydd. Yn ogystal ag Aelod Cabinet fydd yn mynychu pob cyfarfod perfformiad eu hadran, mae Aelod Cabinet cysgodol ac Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu hefyd yn mynychu dau gyfarfod y flwyddyn, ac Arweinydd y Cyngor un waith er mwyn sicrhau trefn herio briodol ac adnabod os yw perfformiad angen ei wella. Fel nodwyd eisoes ym mhennod 1, mae hefyd trefn hefyd mewn lle i adolygu perfformiad prosiectau blaenoriaeth, gyda'r holl Aelodau Cabinet yn derbyn diweddariad cryno iawn tair gwaith y flwyddyn sy'n rhoi trosolwg o gynnydd holl brosiectau Cynllun y Cyngor.

Mae pryder ynghylch y gallu i ymateb i bryderon yn amserol, ac tra bod y materion sy'n codi yn derbyn sylw yn ganolog, efallai nad yw hyn mor wir ar lefel Adrannol. Mae'n wir hefyd fod rhai Adrannau wedi addasu i'r drefn ac wedi 'prynu mewn' ac addasu i'r newid yn gynt nag eraill. Mae'r Penaethiaid, yr Aelodau Cabinet a Aelodau Craffu wedi derbyn canllaw yn egluro'r drefn perfformiad newydd ac bydd angen rhoi amser i'r holl Adrannau ac Aelodau addasu dros y misoedd nesaf.

Mae pob Aelod Cabinet yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn yn gyhoeddus. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r adroddiadau herio perfformiad a data misol ar gael i drigolion Gwynedd. Mae adroddiad diweddar Archwilio Cymru (Ionawr 2021) ar ein trefniadau rheoli perfformiad yn nodi bod '....fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd'.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at adroddiadau perfformiad niferus a hirfaith, sydd ddim yn cynnwys gwybodaeth bwysig ac felly yn ei gwneud yn anodd cael darlun cyfannol diduedd o berfformiad y Cyngor. Erbyn hyn mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad gan gynnwys cyflwyno templed a chanllaw i'w gylchredeg i bob Pennaeth Adran. Y gobaith yw bydd hyn yn symleiddio'r dogfennau herio perfformiad, ac yn ei gwneud yn bosib i drigolion bori drwy'r data mewn amser. Mae ein mesurau yn edrych ar ein perfformiad yn erbyn pwrpasau sydd wedi eu datblygu i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd. O ganlyniad, ychydig o gymhariaeth a wneir hefo awdurdodau lleol eraill wrth edrych ar berfformiad Cyngor Gwynedd, oni bai fod yna werth gwirioneddol o wneud hynny.

Yn y gorffennol roedd Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol er mwyn galluogi awdurdodau i feincnodi yn erbyn cyfres o fesurau allweddol ar

draws nifer o wahanol feysydd. Nid yw’r wybodaeth hyn wedi ei gasglu yn llawn (oherwydd y pandemig) er 2018/19 felly nid oes modd cymharu gyda awdurdodau eraill ar gyfer mesurau mewn nifer o feysydd.

Tra bod y Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ar ei benderfyniadau a’i flaenoriaethau (gwelir y bennod Ymgysylltu isod), ar hyn o bryd nid ydym yn ymgysylltu yn benodol ar berfformiad. Mae gwaith pellach ei angen ar y cyd â Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor er mwyn edrych ar sut y gallwn ymgynghori â rhan-ddeiliaid ar ein perfformiad, ond bydd angen bod yn wyliadwrus rhag ‘blinder ymgynghori’ (‘consultation fatigue’) gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol.

Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. Mae’r Gwasanaeth Cwynion a Gwella Gwasanaethau wedi gallu parhau i weithredu i ddelio â phryderon y cyhoedd ac i gefnogi gwasanaethau trwy gydol cyfnod y pandemig.

**Beth sy’n dda?**

- Trefn newydd herio perfformiad yn ei le ar gyfer 2022/23, sydd ymhen amser yn gobeithio sicrhau trefn fwy tryloyw a dealladwy.
- Rôl Aelodau o fewn y cyfundrefn Perfformiad wedi ei amlygu ac mae canllawiau cyfredol wedi eu cylchredeg â Aelodau Cabinet ac Aelodau Craffu.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Gweithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22 a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen. | Tîm Arweinyddiaeth/ Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| • Datblygu a gwella ein trefniadau adrodd i’r cyhoedd ar berfformiad ein gwasanaethau. | Pob Adran/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

**8. Ymgysylltu**

**Pobl Gwynedd**

Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu cynnal i sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd ar ei flaenoriaethau ac ar benderfyniadau arwyddocaol. Yn ystod 2021/22 fe dderbyniwyd tua 8,000 o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor ar bynciau amrywiol.

Un o brif ymgynghoriadau corfforaethol 2021/22 – 2022/23 oedd Ardal Ni 2035, sef yr ymgysylltiad ynghlwm â'r gwaith Fframwaith Adfywio a gwaith ymgysylltu adrannol fel y Strategaeth Dai. Bwriad yr ymarferiad oedd cyd-weithio gyda thrigolion, grwpiau a sefydliadau er mwyn helpu cymunedau i adnabod y blaenoriaethau hynny fydd angen sylw dros y 10-15 mlynedd nesaf a chreu a gwireddu cynlluniau adfywio cymunedol. Ar gyfer y gwaith yma rhannwyd Gwynedd yn 13 ardal adfywio lai er mwyn cynnal sgyrsiau ar lefel lleol iawn. Cynhaliwyd yr ymarferiad mewn dau ran:

1. Medi – Rhagfyr 2021: Cynnal cyfweliadau dros y ffôn neu gyfarfodydd yn rhithiol drwy Microsoft Teams gyda 157 o grwpiau a mentrau cymunedol, Cynghorwyr a Chynghorau Cymuned, Tref a Dinas. Bwriad hyn oedd casglu data ansoddol a negeseuon cychwynnol sydd o bwys i gymunedau Gwynedd.
2. Chwefror - Mehefin 2022: Ymgysylltu ehangach gyda thrigolion Gwynedd, drwy arbrofi dashfwrdd ar "Dweud eich Dweud Gwynedd " yn defnyddio'r feddalwedd Engagement HQ. Trefnwyd hefyd i sicrhau fod yr ymarferiadau ymgysylltu yn cyrraedd grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, pobl hŷn ac oedolion gydag anableddau dysgu.

Ymatebodd dros 3,000 o bobl i'r ymarferiad a dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn cyd-weithio efo cymunedau er mwyn creu 13 Cynllun Ardal unigol. Mae'r gwaith hefyd wedi bwydo mewn i Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac yn sail bwysig i'r Cynllun Llesiant newydd fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023.

Mae gan y Cyngor hefyd Banel Trigolion er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o drawstoriad o drigolion Gwynedd, a bod eu llais yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol.

Y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n arwain ar ymarferiadau ymgysylltu corfforaethol ac maent hefyd yn cefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu yn y dull mwyaf addas.

**Staff**

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn ymwybodol o beth yw barn ei staff ac yn rhoi cyfle iddynt ddarparu adborth ar sut gyflogwr yw'r sefydliad. I'r perwyl hyn mae Holiaduron Llais Staff yn cael ei gylchredeg i sampl o 25% o staff ymhob adran yn rheolaidd. Mae'r arolwg yn gofyn

am sgôr o 1 i 5 fesul datganiad ac felly mae modd ‘tracio’ atebion o gylch i gylch. Bu rhaid oedi’r gwaith dros gyfnod Covid-19, ond mae bellach modd cymharu arolwg a gynhaliwyd yn 2019 â chanlyniadau 2021. Mae’r arolwg yn holi am feysydd yn gysylltiedig â’i swydd, eu gwasanaeth a hefyd y Cyngor fel sefydliad. Mae’n edrych ar faterion fel gwerthuso parhaus, cefnogaeth rheolwyr, pwysau gwaith ag adnoddau sydd ei angen er mwyn cyflawni swydd. Mae’r arolwg yn gwbl ddi-enw ac mae canlyniadau yn cael ei rannu fesul Adran efo’r Penaethiaid, fel bod cyfle iddynt ymateb i’r prif negeseuon neu unrhyw her penodol sy’n perthyn i’r Adran. Mae’r canlyniadau hefyd yn cael ei rannu â’r gweithlu gyfan drwy’r fewnrwyd, y bwletin wythnosol a hunanwasanaeth staff.

Yn ychwanegol i’r arolwg corfforaethol, mae rhai adrannau wedi ymgymryd â gwaith pellach er mwyn canfod barn staff yn rheolaidd. Mae’r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a’r Adran YGC wedi derbyn achrediad ‘Buddsoddwyr Mewn Pobl’ yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ym mis Hydref 2021, cafodd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ei ddyfarnu ar lefel Safon Aur ar gyfer yr Asesiad Iechyd a Llesiant Buddsoddwyr Mewn Pobl. Mae hefyd gwaith pellach wedi ei wneud yn fewnol gan yr Adran Amgylchedd ac Adran Oedolion er mwyn sicrhau fod staff yn cael y cyfle i ddarparu adborth neu roi mewnbwn ar faterion iechyd a llesiant.

Mae’r Cyngor yn cydnabod fod her ychwanegol wrth ymgysylltu a chyfathrebu â staff rheng flaen fel gofalwyr neu weithwyr gwastraff. Cyn cyfnod Covid-19 roedd y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cyd-weithio â Gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn cynnal ‘roadshows’ mewn lleoliadau fel depos Canolfannau Gwastraff, er mwyn darparu gwybodaeth i staff a rhoi cyfle iddynt ddweud eu dweud. Er bod ymdrech ddiweddar i wneud hyn yn rhithiol gyda’r Adran Cefnffyrdd, mae wedi bod yn anodd ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff rheng flaen dros gyfnod Covid-19.

**Rhanddeiliaid**

Mae gan y Cyngor sawl rhanddeiliad a phartneriaid y mae’n gweithio â hwy yn rheolaidd. Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.

Mae’r Cyngor yn ymgysylltu â sawl partner drwy’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gwaith yn digwydd er mwyn creu Cynllun Llesiant newydd, ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu dros y pum mlynedd ers sefydlu’r Bwrdd yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae perthynas y Cyngor gyda'r Trydydd Sector hefyd yn parhau i esblygu. Mae’r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn fforwm i wneud y mwyaf o’r cysylltiadau allweddol er mwyn ymgysylltu â’r mudiadau sirol, ac yn sicrhau bod y berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd.

**Undebau Llafur**

Mae gan y Cyngor drefniadau ymgysylltu cyson a'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae yna gyfarfod ar y cyd rhwng swyddogion adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a swyddogion y dair undeb Unsain, GMB ac Unite yn fisol, lle mae cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod materion cyflogaeth corfforaethol, ac unrhyw benderfyniadau corfforaethol all ddylanwadu ar weithwyr y sefydliad. Mae yna gyfarfod misol hefyd rhwng swyddog o bob undeb a'r rheolwr adnoddau dynol, pan fo cyfle i drafod materion sy'n berthnasol i'r undeb unigol yn unig. Ar ben hynny, cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng swyddogion undeb, swyddogion y Cyngor a phwyllgor o aelodau etholedig, pan fod cyfle i drin a thrafod yr heriau lefel uchel sydd yn wynebu'r Cyngor fel cyflogwr. Gelwir y pwyllgor hwn yn Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

Mae'r undebau yn gefnogol i'r trefniadau hyn ac nid ydynt wedi lleisio unrhyw bryder am ddiffygion yn ngallu'r Cyngor i rannu gwybodaeth yn hynny o beth.

**Beth sy'n dda?**

- Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd gwaith ymgysylltu Ardal Ni 2035 i edrych ar flaenoriaethau trigolion y Sir ar gyfer y dyfodol gan wneud hynny mewn modd cydlynol gyda'r bwriad o osgoi dyblygu gwaith. Mae canlyniadau'r gwaith hyn wedi ei ddefnyddio i lywio blaenoriaethau i'r dyfodol mewn nifer o feysydd megis Tai, Oedolion a Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac hefyd wedi bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau ar gyfer Gwynedd a Môn.
- Trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn ymgysylltu hefo gwahanol garfannau.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | |
| • Adolygu ein trefniadau ymgysylltu er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn mewnbwn cyson gan wahanol garfannau ar faterion perfformiad a llywodraethu. | Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

| Cyfarfod | Y Cyngor Llawn |
| --- | --- |
| Dyddiad | 1 Rhagfyr 2022 |
| Pwnc | Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau |
| Aelod Cabinet | Cyng. Menna Jones |
| Awdur | Iwan Evans, Swyddog Monitro |
| Penderfyniad a Geisir | Cymeradwyo penodiad Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau |

**Cefndir**

1. Mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn cynnwys pum aelod annibynnol, tri chynghorydd Gwynedd ac un cynghorydd cymuned

2. Mae cyfnod dau o'r aelodau annibynnol wedi, neu ar fin, dod i ben. Gan fod y ddau wedi gwasanaethu am ddau dymor nid ydynt yn gymwys i gael eu penodi am dymor pellach.

3. Mae penodiad aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymarfer recriwtio cyhoeddus fel y nodir yn y Rheoliadau a sefydlu panel penodi (yn cynnwys hyd at bum aelod panel, ac yn cynnwys un aelod lleyg ac un cynghorydd cymuned), i asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cyngor ar gyfer y swydd, ac i wneud argymhelliad ynghylch penodi i'r Cyngor llawn.

4. Rhaid i'r penderfyniad i benodi gael ei wneud gan y Cyngor llawn, gan ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau.

5. Hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd un cais.

6. Sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Dewi Owen ac Annwen Hughes a Mr Griffith Jones fel aelod lleyg.

7. Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chyngor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeisydd ar 9 Tachwedd 2022. O ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Mark Jones.

8. Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn Brîf Uwch-arolygydd yr heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

9. Mae’r Rheoliadau’n darparu bod yn rhaid i dymor swydd yr aelodau annibynnol gael ei bennu rhwng pedair a chwe blynedd.

10. Bydd ymdrechion yn parhau i recriwtio aelod arall i lenwi'r sedd wag sy'n weddill.

**Argymhelliad**

11. Argymhellir bod y Cyngor yn penodi Mark Jones yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# Eitem 11

| Cyfarfod | Cyngor Llawn |
|---|---|
| Dyddiad | 1 Rhagfyr 2022 |
| Pwnc | Argymhelliad Panel Cyfweld – Penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Cadeirydd y Panel | Cynghorydd Ioan Thomas |
| Awdur | Pennaeth Cyllid |

1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi addasu Mesur Llywodraeth Leol 2011 mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio awdurdodau lleol Cymru.
2. Lle'n flaenorol, roedd rhaid cael un aelod lleyg ar y Pwyllgor, erbyn Mai 2022 rhaid i o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg (a rhaid i'r Cadeirydd fod yn un o'r aelodau lleyg hynny).
3. Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn bydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 18 aelod, gyda 12 o'r aelodau yn aelodau o Gyngor Gwynedd a 6 aelod lleyg o Mai 2022 ymlaen.
4. Mae'r adroddiad perthnasol i'w gael yma:

   Eitem 11 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.pdf
5. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu penodi gan y Cyngor llawn ar argymhelliad panel penodi a phenodi.
6. Yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022, apwyntiodd y Cyngor llawn y canlynol fel aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu am gyfnod o 5 mlynedd:
   - Mr Hywel Eifion Jones
   - Mrs Sharon Warnes
   - Mr Rhys Parry
   - Mrs Clare Hitchcock
7. Mae hyn yn golygu fod dwy sedd aelod lleyg yn parhau'n wag. Wedi i hysbysebu dros yr haf fethu â denu partïon oedd â diddordeb, roedd trydedd rownd o hysbysebu a gaeodd ar 16 Tachwedd.
8. Ar 24 Tachwedd, cafodd ymgeisydd ei chyfweld gan banel oedd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor (y Cynghorydd Elwyn Jones), Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth (y Cynghorydd Dewi Owen) a'r Aelod Cabinet dros Gyllid (Y Cynghorydd Ioan Thomas). Cyngor y panel oedd y Swyddog Cyllid Statudol (Dewi Morgan) a'r Swyddog Monitro (Iwan Evans).

9. Ar ôl ystyried y cais yn ofalus a thrylwyr, penderfynodd y Panel fod yr ymgeisydd yn cyrraedd y meini prawf, a dylid argymell i'r Cyngor llawn ei bod **Carys Edwards** yn cael ei phenodi'n aelodau lleyg o'r Pwyllgor:

10. Carys Edwards yw Cadeirydd presennol bwrdd Grŵp Cynefin ac mae hi'n cyn-gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu'r Gymdeithas. Mae Carys hefyd yn aelod o baneli amrywiol Grŵp Cynefin ac yn cyfrannu at waith strategol y Gymdeithas gan gynnwys tywys aelodau'r Bwrdd mewn trafodaethau, craffu polisi a chynlluniau allweddol. Cyn hyn, bu Carys mewn swyddi uwch-swyddog yn Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Rhwng 1991 a 1999 roedd Carys yn swyddog yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.

11. Mae hyn yn golygu fod un sedd aelod lleyg yn parhau'n wag a byddwn yn symud ymlaen i geisio i lenwi'r sedd hon yn ddi-oed.

**Argymhelliad**

**Penodi Mrs Carys Edwards fel Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.**

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**

Gallaf gadarnhau fod y Panel wedi gweithredu eu swyddogaethau yn briodol yn unol a'r drefn a sefydlwyd gan y Cyngor ar gyfer apwyntio aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Pennaeth Cyllid:**

Awdur yr adroddiad

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **1 Rhagfyr 2022** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Deisebau** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Iwan G Evans, Swyddog Monitro a Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu y Cynllun Deisebau.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywdoraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i Awdurdodau Lleol fabwysiadu Cynllun Deisebau. Gofynnir i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor Llawn.

### 3. CYFLWYNIAD

Gosodir gofyn statudol i'r Cyngor fabwysiadau Cynllun Deisebau sydd yn yn nodi sut fydd yn Cyngor yn  ymdrin a deisebau.

Rhaid i'r Cynllun nodi:

(a) Sut i gyflwyno desieb
(b) Sut ac erbyn pryd y cydnabyddir derbyn y ddeiseb
(c) Camau y egellir eu cymeryd mewn ymaten
(d) Amgylchiadau pan allai'r CYngro beidio a chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb
(e) Sut ac erbyn pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymateb i'r ddeiseb ar gael.

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y camau fydd y Cyngor ei gymryd pan yn derbyn deiseb gan y unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n gosod trefn mewn lle sydd yn cyfarch y gofyn yn y ddeddf , amlygu sut i fynd ati i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddsigwyl mewn ymateb.

Amlinellir beth yw'r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys

fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camu gweithredu fydd i ddilyn.

Amlygir fod gofynnion cyfreithiol a statudol yn o gylch ymgynghori neu gyfnodau ymateb statudol yn weithredol mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a'r maes Cynllunio a pwysleisir na fydd deiseb yn cael ei derbyn y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

## 4. DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod Cynllun Deisebau yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad ardrawiad atodedig yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

## 5. DEDDF LLESIANT CENELDAETHAU'R DYFODOL ( CYMRU) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cynllun hwn gael ei drafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 15fed o Dachwedd, a gwnaethpwyd man addasiadau i'r Cynllun yn dilyn derbyn eu sylwadau.

Bu i'r Cabinet benderfynu i argymell i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu y Cynllun Deisebau hwn yn ei gyfarfod ar y 22ain o Dachwedd.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol:

Swyddog Monitro:
Mae'r argymhelliad yn gynnyrch gwaith Tîm Prosiect yr wyf yn aelod ohono. Rwy'n fodlon â phriodoldeb yr argymhellion ac yn cadarnhau'r cyd-destun Cyfreithiol.

Pennaeth Adran Gyllid:

Mae cyflwyno Cynllun Deiseb yn un o’r gofynion newydd sydd wedi ei roi ar y Cyngor gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rwyf yn fodlon nad oes ymrwymiad ariannol yn deillio’n uniongyrchol o’r penderfyniad a geisir a nid oes gennyf wrthwynebiad iddo

Atodiad 1 - Cynllun Deisebau
Atodiad 2 – Asesiad Cydraddoldeb

# Cynllun Deisebau

## Trosolwg

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu'n llywio trafodaeth.

Cyn ystyried a ddylid codi deiseb a'i peidio, awgrymir i chi drafod y mater gyda'ch Cynghorydd Lleol a allai eich cynorthwyo gyda'r mater neu egluro sut i gyflwyno sylwadau ar bwnc penodol i'r person cywir o fewn y Cyngor.

## Pwy all godi deiseb?

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes, yn berchnogion tir / trethdalwr neu astudio yng Ngwynedd lofnodi neu gyflwyno deiseb, gan gynnwys y rhai dros 16 oed.   Gall unrhyw un sy'n byw yn ardal Cyngor cyfagos hefyd lofnodi neu gyflwyno deiseb OS oes rheswm rhesymol i bwnc y ddeiseb fod yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Gellir cyflwyno deisebau ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio system ddeisebu ar-lein sy'n bodloni gofynion deiseb ddilys, neu gyfuniad o'r ddau.

## Ystyried Deiseb

Gall deiseb gael ei hystyried mewn  gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet, adroddiad I'r Cabinet, adroddiad i Bwyllgor Craffu perthnasol neu I'r Cyngor Llawn.

Noder fod trefniadau statudol yn bodoli mewn ambell i faes penodol (e.e. Ail Strwythuro Ysgolion a Maes Cynllunio). Ni dderbynnir deiseb y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaeth â'r Swyddog Monitro yn ystyried y deisebau a gyflwynir ac yn penderfynu a yw'r ddeiseb yn dderbyniol yn seiliedig ar y meini prawf canlynol ar gyfer deiseb ddilys, gan gynghori ar y corff priodol i'w ystyried. Bydd angen derbyn cadarnhad bod y ddeiseb yn ddilys cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Gofynion Deiseb Ddilys.

Prif Ddeisebydd

Mae pob deiseb yn ei gwneud yn ofynnol i ddeisebydd arweiniol gael ei nodi a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y ddeiseb. Dyma'r gofynion sy'n angenrheidiol ar gyfer prif ddeisebydd:

1. Gall enw'r prif ddeisebydd fod yn unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio o fewn Gwynedd, yn berchnogion tir / trethdalwr neu'n sefydliad sydd wedi'i leoli yng Gwynedd.

2. Rhaid i'r prif ddeisebydd nodi cyfeiriad cartref / gwaith / sefydliad yn llawn a chyfeiriad e-bost (os oes un ar gael) neu wybodaeth gyswllt y gellir anfon unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r ddeiseb ati.

## Y Ddeiseb

Bydd y Cyngor yn ystyried pob deiseb gyda mwy na 100 o lofnodwyr sy'n dod o fewn cwmpas y Cynllun hwn. Gall y Cyngor ddefnyddio disgresiwn i dderbyn deiseb lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle ceir cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig).

Gellir cyflwyno deisebau i'r Cyngor naill a'i ar bapur neu yn electroneg.

Rhaid i'r ddeiseb:

1. cynnwys datganiad clir, byr sy'n ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur;

2. Rhaid i'r ddeisebau fod ymwneud â mater sydd dan gyfrifoldeb y Cyngor.

3. galw ar Gyngor Gwynedd i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i..." neu "Rydym yn galw ar y Cabinet i ..." Rhaid ei ailadrodd ar bob tudalen o ddeiseb ar bapur.

4. darparu enwau a chyfeiriadau post y rhai sy'n llofnodi'r ddeiseb, gan gynnwys codau post.

5. Dangosir templed deiseb a awgrymir yn Atodiad A.

Ni ddylai deisebau gynnwys:

1. Iaith sy'n sarhaus, yn ddirmygus neu'n bryfoclyd. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys rhegfeydd a sarhad amlwg, ond unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus.

2. Datganiadau a allai fod yn ffug neu a allai fod yn ddifenwol.

3. Gwybodaeth sydd wedi'i gwahardd rhag cael ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson sydd â phŵer tebyg.

4. Deunydd a allai fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol.

5. Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad neu ddatganiadau sy'n gyfystyr â hysbysebion.

6. Yn enwi unigolion, neu'n rhoi gwybodaeth lle gellir eu hadnabod yn hawdd, e.e. swyddogion unigol cyrff cyhoeddus.

7. Materion nad deiseb yw'r sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol neu fater sy'n destun achos llys).

8. Deisebau ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan Ombwdsmon (neu berson sydd â phwerau tebyg)

9. Deisebau sydd yn eu hanfod yn geisiadau rhyddid gwybodaeth, sylwadau, canmoliaethau neu gwynion, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r adran briodol am ymateb addas.

10. Bydd deisebau sy'n codi materion sy'n ymwneud â chamymddwyn posibl gan gynghorwyr neu weithwyr llywodraeth leol yn cael eu cymryd fel cwynion sy'n codi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a chânt eu hadrodd i'r Swyddog Monitro yn hytrach na'u hystyried o dan y cynllun deiseb hwn.

11. Ni ddibynnir y ddeiseb os yw’n sylweddol debyg i ddeiseb a gyflwynwyd i un o Bwyllgorau’r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf.

12. Os yw deiseb ynglŷn a mater sydd yn destun ymgynghoriad neu gyfnod ymateb statudol yna ymdrinnir a’r ddeiseb yn unol a’r trefniadau a’r amserlen sydd wedi ei ddynodi ar gyfer y broses.

### Llofnodwyr Deisebau

Llofnodwr priodol yw unigolyn sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu’n astudio yng Ngwynedd; yn berchnogion tir / trethdalwr neu sy'n byw yn ardal sir cyfagos ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddo/iddi gael eu effeithio gan bwnc y ddeiseb.

Dim ond unwaith y gall unigolyn lofnodi deiseb. Rhaid i bobl beidio â llofnodi deiseb ar-lein ac un ar bapur, a gellir dileu dyblygu os canfyddir bod deisebydd wedi llofnodi ddwywaith.

## Cyflwyno Deiseb

Rhaid i ddeisebau papur neu electronig, sydd i'w hystyried gan y Cyngor gael eu cyflwyno i:

Gwasanaethau Democratiaeth
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Neu'n electronig i: GwasanaethauDemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru

## Sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb

Bydd derbyn neu hysbysu am ddeiseb bapur, neu gyflwyno deiseb electronig i'r Gwasanaethau Democratiaeth, yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith ar yr amod bod manylion cyswllt y prif ddeisebydd yn cael eu darparu ar yr un pryd.

## Cadarnhau Deiseb Ddilys

Bydd gwiriadau cychwynnol i gadarnhau bod deiseb a gyflwynir yn bodloni gofynion y Cynllun yn cael ei gynnal gan y Swyddog Monitro a Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth.

Os derbynnir nifer o ddeisebau ar bwnc tebyg gyda chanlyniadau dymunol tebyg, dim ond un prif ddeisebydd fydd yn gallu cyflwyno ei ddeiseb i'r Cyngor. Bydd y Prif ddeisebydd ar gyfer pob deiseb yn cael ei hysbysu gan y Gwasanaethau Democratiaeth, a gofynnir iddynt gysylltu â'i gilydd er mwyn ystyried opsiynau i gyfuno deisebau a phenderfynu pa ddeisebydd arweiniol fydd yn cyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor. Os na cheir cytundeb, bydd gan y deisebydd sydd â'r nifer fwyaf o lofnodion yr hawl i gyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor.

Bydd unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y ddeiseb yn cael eu codi gyda'r Swyddog Monitro cyn annilysu unrhyw ddeiseb.

Os yw eich deiseb yn annilys, bydd y prif ddeisebydd yn cael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddeiseb.

# Y camau y gall y Cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd.

Derbynnir deisebau dros e-bost neu drwy law ac fel cam cyntaf byddant yn cael ei gwrio ac os yn dderbyniol bydd yn cael arddangos ar wefan y Cyngor am gyfnod o 2 fis.

Bydd angen i’r ddeiseb dderbyn dros 100 llofnod cyn cael ei dderbyn gan y Cyngor. Gall y Cyngor ddefnyddio’i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn natur testun y ddeiseb yn cyfiawnhau derbyn rhif is a fod nifer y llofnodwyr yn gymesurol i’r gymuned dan sylw (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig). Bydd pob deiseb sydd ar wefan y Cyngor yn agored am gyfnod a bennir gan y Prif Ddeisebydd, ond dim mwy na 2 fis.

Os yn ddilys bydd y ddeiseb yn cael hanfon ymlaen i’r Aelod Cabinet gyda copi yn mynd i’r Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth ac ymgynghoriad rhwng yr Aelod Cabinet, Cadeirydd Craffu, Swyddog Monitro a Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bydd yr Aelod Cabinet yn llunio ymateb i’r ddeiseb o fewn 20 diwrnod gwaith a fydd yn nodi’r camau gweithredu posib. Bydd y camau gweithredu yn ddibynnol ar natur y ddeiseb a gall gynnwys y canlynol:

1. Ymateb gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet
2. Adroddiad i’r Cabinet,
3. Adroddiad i bwyllgor Craffu perthnasol
4. Adroddiad i’r Cyngor Llawn.

Bydd y camau gweithredu yn cael ei nodi ar y wefan yn ogystal o fewn 5 diwrnod gwaith i’r ymatebiad gael ei anfon i’r Prif Ddeisebydd.

### Eithriadau

Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio â'ch deiseb yn wahanol. Os felly, byddwn yn esbonio'r rhesymau ac yn trafod unrhyw amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

### Dewisiadau amgen i Ddeisebau

Ar ôl darllen y Cynllun Deisebau, efallai y bydd unigolyn neu sefydliad o'r farn nad deiseb yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir gennych. Mae'r opsiynau amgen i alluogi aelodau'r cyhoedd i ddweud eu dweud yn cynnwys:

a. Ysgrifennu at yr Aelod Cabinet neu'r Uwch Swyddog Priodol
b. Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol
c. Ymateb i ymgynghoriad
d. Codi eich pryderon gyda'r gwasanaeth Craffu
e. Gwneud awgrym drwy wefan y Cyngor
f. Gofyn cwestiwn yn y Cyngor.

## Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â deddfau diogelu data a'n Polisi Preifatrwydd. Byddwn yn cadw copi caled a gwybodaeth electronig am ddeisebau am 12 mis ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio'n ddiogel.

**Atodiad A**

## TEMPLED DEISEB PAPUR A AWGRYMIR – CYNGOR GWYNEDD

| **MANYLION Y PRIF DDEISEBYDD:** | |
|---|---|
| Enw: | |
| Cyfeiriad Post Llawn: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Rhif Ffôn (dewisol) | |
| Oedran | Gallaf gadarnhau fy mod yn 16 oed neu hyn ☐ |

| **MANYLION Y DDEISEB:** | |
|---|---|
| Datganiad clir, byr sy'n ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur; | |
| Yn galw ar Gyngor Gwynedd i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i..." | *Rydym yn galw ar...*<br>*Nodwch: bydd angen ailadrodd y frawddeg ar bob tudalen o ddeiseb bapur* |

| **LLOFNODWYR Y DDEISEB** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydym yn galw ar.....(wedi’i gopïo o fanylion y ddeiseb) | | | | |
| **Nifer** | **Enw** | **Cyfeiriad Post Llawn** | **Cod Post** | **Llofnod** |
| **1.** | | | | |
| **2.** | | | | |
| **3.** | | | | |
| **4.** | | | | |
| **5.** | | | | |
| **6.** | | | | |
| **7.** | | | | |
| **8.** | | | | |
| **9.** | | | | |
| **10.** | | | | |
| **11.** | | | | |
| **12.** | | | | |
| **13.** | | | | |
| **14.** | | | | |
| **15.** | | | | |
| **16.** | | | | |
| **17.** | | | | |
| **18.** | | | | |
| **19.** | | | | |
| **20.** | | | | |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Deisebau.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau fabwysiadu Cynllun Deisebau.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Gosodir gofyn statudol i'r Cyngor fabwysiadau Cynllun Deisebau sydd yn yn nodi sut fydd yn Cyngor yn ymdrin â deisebau.

Rhaid i'r Cynllun nodi:

1. Sut i gyflwyno deiseb
2. Sut ac erbyn pryd y cydnabyddir derbyn y ddeiseb
3. Camau y gellir eu cymryd mewn ymateb
4. Amgylchiadau pan allai'r Cyngor beidio a chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb
5. Sut ac erbyn pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymateb i'r ddeiseb ar gael.

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y camau fydd y Cyngor ei gymryd pan yn derbyn deiseb gan y unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n gosod trefn mewn lle sydd yn

cyfarch y gofyn yn y ddeddf , amlygu sut i fynd ati i gyflwyno deiseb a’r hyn y gellir ei ddisgwyl mewn ymateb.

Amlinellir beth yw’r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camu gweithredu fydd i ddilyn.

Amlygir fod gofynion cyfreithiol a statudol yn o gylch ymgynghori neu gyfnodau ymateb statudol yn weithredol mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a’r maes Cynllunio a pwysleisir na fydd deiseb yn cael ei derbyn y tu allan i’r trefniadau statudol hynny

### 1.3 Pwy sy’n gyfrifol am yr asesiad yma?

Annes Sion, Arweinydd Tîm Democratiaeth - ar ran Bwrdd Gweithredol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Dyma’r asesiad cyntaf wrth greu drafft cyntaf y Cynllun Deisebau.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw’r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cynghorwyr a Staff

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Nid oes camau penodol wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchodedig, gan fod y Cynllun Deisebau yn agored i unrhyw un sydd dros 16 ac sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes yn berchnogion tir / trethdalwr neu astudio yng Ngwynedd.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Dim I'w nodi. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Gweithredir yn unol â gofynion y Ddeddf. |

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Gan mai amlygu trefniadau'r Cyngor o'r ran y broses ar trefniadau yn dilyn cyflwyno deiseb sydd dan sylw, nid oes unrhyw fylchau ar hyn o bryd.<br><br>Mater y Prif Ddeisebydd fydd hygyrchedd y ddeiseb. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl efo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Rydym yn galluogi ac yn annog unigolion sy'n dymuno cyflwyno deiseb i wneud hynny drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / | Positif – mae'n rhoi cyfle i drigolion Gwynedd (fel a nodwyd uchod) i gyflwyno deiseb er sylw'r Cyngor, o fewn y cyfyngiadau ar gyfer cyflwyno deiseb.<br><br>Negyddol – gall greu rhwystredigaeth i rai trigolion petai'r ddeiseb ddim yn cael ei derbyn. |

| | | . |
|---|---|---|
| **Rhyw** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Oedran** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Dim effaith wedi ei adnabod. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Cyfle i unrhyw unigolyn godi materion o bwys gyda'r Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Ydi, fel uchod |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gweler yr effaith bositif wedi ei amlinellu uchod trwy roi cyfle cyfartal i bawb i gyflwyno deiseb (o fewn cyfyngiadau'r cynllun).

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod y Cynllun Deisebau yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | √ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Byddwn yn adolygu'r gwaith 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Deisebau.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Byddwn yn adolygu'r gwaith 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Deisebau.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **1af Rhagfyr 2022** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cefnogaeth i Gynghorwyr – adrodd nol ar ganlyniadau holiadur i Gynghorwyr.** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor dderbyn y wybodaeth  gan ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ddefnyddio'r canlyniadau fel sail i sefydlu calendr pwyllgorau 2023/24 yn unol ag arweiniad y Canllawiau statudol perthnasol

**CEFNDIR A RHESYMEG**

### 2. HOLIADUR I GYNGHORWYR

2.1. Pwrpas yr adroddiad heddiw yw adrodd nol ar ganlyniadau holiadur a yrrwyd i'r holl Gynghorwyr ym mis Hydref 2022.  Roedd tair elfen i'r holiadur fel a ganlyn:

- Amseriad cyfarfodydd y Cyngor
- Bodlonrwydd Cynghorwyr gyda Gwasanaeth y Tîm Democratiaeth
- Cyfathrebu gyda Chynghorwyr

2.2 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ymateb i rai o'r materion a godwyd, ond prif bwrpas yr adroddiad heddiw yw cyflwyno canlyniad yr holiadur i chi er gwybodaeth.


**Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor**

2.3 Cyhoeddwyd canllawiau statudol (ar ffurf drafft yn bresennol) dan adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor.  Mae'n angenrheidiol i Gynghorau gynnal arolwg o leiaf unwaith yn fuan ar ôl pob Etholiad i asesu dewisiadau Cynghorwyr ac ymrwymo i weithredu ar y casgliadau.  Dylid cynnal yr arolwg dim hwyrach na chwe mis ar ôl yr etholiadau cyffredin.  Mae'r canllawiau hefyd yn gosod pwyslais ar ymateb i'r canlyniadau.

2.4 Er mwyn cydymffurfio a'r canllawiau statudol bu i ni anfon holiadur i'r holl Gynghorwyr yn ystod mis Hydref. Un o'r elfennau dan sylw oedd ceisio barn ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor .

2.5 Bu i 42 aelod ateb yr holiadur yn llawn. Gweler dadansoddiad isod o'r ymatebion ddaeth i law, ynghyd ag amlinelliad o'r camau nesaf.

2.6 Cyngor Llawn





Bu i **60%** nodi yr awydd i'r cyfarfod gael ei gynnal am **1:30 yp**, gyda 26% yn nodi 10am, 10% yn nodi 2pm a 2% yn nodi 6pm ac amseriad arall. Derbyniwyd sylwadau a oedd yn amlygu'r angen i gychwyn yn y prynhawn gan fod angen i'r grwpiau gwleidyddol allu cyfarfod yn ystod y bore a chael cyfle i drafod yr rhaglen.

2.7 Cabinet

Bu i **75%** o'r aelodau Cabinet a gyflwynodd ymateb nodi awydd i'r cyfarfod fod yn cychwyn am **1:30 yp** gyda 25% yn nodi 10 y bore. Mater i'r Cabinet ei hun yw amseru ei gyfarfodydd, ond adroddir yma er gwybodaeth.

2.8 Craffu



O ran amseriad y pwyllgorau Craffu, nododd **77%** eu bod yn awyddus iddynt gychwyn am **10 yb**, gyda 7% yn nodi 1:30 yp, 7% yn nodi 2 yp, a 3% yn nodi 4 yp, 6 yp ac amser arall.

Derbyniwyd sylwadau y dylid parhau i gynnal pwyllgorau craffu yn y bore gan fod modd gwneud gwaith ward yn y prynhawn. Yn ogystal, roedd eraill yn nodi sylwadau ynghylch cyfarfodydd maith, gan nodi fod cychwyn y cyfarfod yn y bore yn golygu fod modd cael egwyl cinio cyn ail ymgynnull ar gyfer sesiwn prynhawn.

2.9 Cynllunio

Roedd **56%** o blaid yr awydd i'r Pwyllgor Cynllunio gychwyn am **10yb**, gyda 28% yn nodi 1:30pm, 11% yn nodi amser arall, a 5% yn nodi 6pm. Nododd un unigolyn eu bod wedi dewis 10 y bore fel amser mwyaf ffafriol, ond eu bod yn sylweddoli fod ymweliadau safle yn cael eu cynnal ar fore y cyfarfod yn achlysurol ac y byddai hynny yn mynd yn groes i'r trefniant yma. Bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth pellach i'r canlyniadau hyn law yn llaw ag ymarferoldeb/goblygiadau newid yr amser wrth fwrw ymlaen i drefnu calendr pwyllgorau y flwyddyn nesaf.

2.10 Pwyllgorau Eraill

O ran pwyllgorau eraill sy'n cael eu cynnal nododd **68%** eu dymuniad i'r pwyllgorau fod yn dechrau am **10 yb**, gyda 12% yn nodi 1:30 yp, 8% yn nodi 2 yp, a 3% yn nodi unai 4 yp, 6 yp neu arall.

2.11 Mae'r detholiad isod o sylwadau am amseriad pwyllgorau yn cynrychioli y prif negeseuon gafodd eu cyflwyno:

"*Fel Cynghorydd sydd hefyd gyda swydd llawn amser, nid yw'n bosibl i mi fynychu pob cyfarfod sydd yn cael eu cynnal yn ystod y dydd. Mae cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal am 16.00 yn gweithio'n llawer gwell i mi yn bersonol.*"

"*Ar gyfer pwyllgorau eraill, os y'u cynhelir yn y bore mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i barhau tan y prynhawn os oes angen mwy o amser. Mae'n well gennyf osgoi cyfarfodydd gyda'r hwyr gan fod llawer o gyfarfodydd yn y gymuned yn digwydd bryd hynny, e.e. llywodraethwyr ysgol, cynghorau cymuned, grwpiau gwirfoddol, pleidiau gwleidyddo*l"

"*cyfarfodydd yn ystod y dydd yn gweithio'n well - llawer o alwadau eraill yn yr hwyr*"

"*Dim rheswm penodol a deud y gwir, dim ond teimlo bod hi'n bwysig ymroi i'r gwaith cyngor yn y bore (eithriad yw'r Cyngor Llawn oherwydd y cyfarfodydd Grŵp ) ! Hoffwn i DDIM cynnal cyfarfodydd gyda'r nos, ond fel eithriad*."

"*Byddwn yn falch o gael pwyllgorau yn y bore os yn bosib, byddwn hefyd yn falch o gael pwyllgorau, hyfforddiant a cyfarfodydd y Cyngor i gyd ar ddyddiau penodol fel Mawrth, Mercher, Iau yn lle bod pethau ar draws yr wythnos. Byddai hyn yn galluogi mi i drefnu a cynllunio yn well.*"

2.12 Yn ogystal cyflwynwyd sylwadau ynghylch hyd pwyllgorau. Roedd negeseuon clir ynghylch yr angen i sicrhau toriad am amser synhwyrol os yw cyfarfod o unrhyw bwyllgor yn rhedeg yn hir. Mae'n ofynnol sicrhau hyn er mwyn caniatáu i unigolion (yn Gynghorwyr a staff) gael amser i gael bwyd, ychydig o ymarfer/symud a thoriad oddi ar y sgrin mewn cyfarfod rhithiol neu wrth ymuno o bell mewn cyfarfod aml leoliad.

2.13 Yn amlwg nid oes modd cyrraedd anghenion pawb, fodd bynnag yn unol a'r Canllawiau statudol dan ddarpariaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid rhoi sylw i weithredu ar y canlyniadau, sef argymhellion y mwyafrif. Y camau nesaf yw defnyddio'r wybodaeth uchod fel sail i drafodaethau ar gyfer creu Calendr Pwyllgorau 2023/24.

**Bodlonrwydd Cynghorwyr gyda gwasanaeth y Tîm Democratiaeth**

2.14 Rydym yn awyddus i fod yn gwella ein gwasanaeth yn barhaus a sicrhau darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer Cynghorwyr. Felly, yn dilyn cyfnod croesawu Aelodau ar ôl yr Etholiad roedd yn amserol i ofyn am adborth ar y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig gan y tîm democratiaeth yn benodol.

2.15 Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau, gan gynnwys bodlonrwydd gyda gwaith y tîm ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol. Unwaith eto, roedd 41 Cynghorydd wedi ymateb yr holiadur yn llawn gan nodi eu barn am wasanaeth y tîm.

2.16 Nododd **95%** fod y gwasanaeth **yn dda iawn, neu'n dda** gyda 2 gynghorydd yn nodi fod y gwasanaeth yn dderbyniol.

2.17 Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys yr isod:

"*Mae'r tîm wedi bod yn groesawgar es i mi gychwyn y swydd ac yn gefnogol iawn i unrhyw ymholiad*"

"*Mae'r tîm wedi bod yn gefnogol, yn weithgar ac bob tro yno i helpu a galluogi mi fel cynghorwr newydd*."

"*Cyfathrebu effeithiol, cwrtais, cydwybodol a chyfeillgar*."

"*In eighteen years, I don't think I've ever experienced any problems and have always found the team members to be very helpful.*"

2.18 Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi Cynghorwyr ymhellach yn eu rôl. Ymhlith y sylwadau nodwyd anfodlonrwydd gyda'r gweithredu'n ddemocrataidd / gwleidyddol yn y Cyngor. Mater gwleidyddol oedd dan sylw yma.

2.19 Ymhlith y sylwadau eraill derbyniwyd y canlynol. Nodwyd cais gan aelod am 'fentor' anffurfiol, a rhestr wythnosol o'r hyfforddiant sydd ar gael. Mae'r cais eisoes wedi ei yrru ymlaen i'r Tîm Dysgu a Datblygu i drafod yn uniongyrchol gyda'r unigolyn.

2.20 Holwyd pa ddogfennau sydd ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Yn sgil y sylw, byddwn yn anfon gwybodaeth dros yr wythnosau nesaf yn amlygu cynnwys y mewnrwyd aelodau fel fod pawb yn ymwybodol o'r wybodaeth ddefnyddiol iawn sydd yno.

2.21 Mynegodd un aelod anfodlonrwydd gyda'r ffordd mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn cael ei nodi ar hyn o bryd, a byddwn yn trefnu cyfarfod gyda'r unigolyn dros yr wythnosau nesaf i drafod y mater.

2.22 Roedd cais gan un aelod am gydnabyddiaeth e-bost pan fydd y tîm democratiaeth yn derbyn ymddiheuriad o gyfarfodydd. Bydd y tîm yn symud i weithredu ar yrru neges

cydnabyddiaeth yn y dyfodol agos, fodd bynnag bydd hynny ar gyfer ymddiheuriadau a dderbynnir mewn da bryd.

2.23 Rydym yn awyddus i wella ein gwasanaeth ac ateb gofynion Cynghorwyr gan ddatgan a gweithredu'n barhaus ar hynny . Yn ogystal a'r holiadur electroneg sy'n cael ei yrru at Gynghorwyr ddwy waith y flwyddyn, rydym wedi ail afael yn ein trefniadau i gynnal sgwrs gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i chi a chael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau.

**Cyfathrebu gyda Chynghorwyr**


2.24 Roedd yr ymarferiad hefyd yn gyfle i holi barn yr Aelodau am y dulliau mae Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor yn eu defnyddio i rannu newyddion / gwybodaeth ddefnyddiol efo Cynghorwyr a sut gellir gwella'r ddarpariaeth i helpu Aelodau gyda'u gwaith.

2.25 Holwyd am bedwar maes cyffredinol – y Bwletin Wythnosol i'r Aelodau; Bwletin Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor; Mewnrwyd yr Aelodau; y bwriad i gynnal cyfarfodydd a/neu nodiadau briffio ar faterion allweddol.

2.26 Cafwyd adborth cadarnhaol ac adeiladol am y pwyntiau hyn, fydd o fudd i'r Gwasanaeth cyfathrebu barhau i ddiwallu anghenion Aelodau Etholedig. Dyma amlinelliad o'r ymatebion a dderbyniwyd:


**i)** E-bost wythnosol **Bwletin yr Aelodau** a anfonir i holl gynghorwyr yn wythnosol sy'n cynnwys dolenni i eitemau newyddion ar y fewnrwyd ac ambell eitem berthnasol arall:

- Dywedodd **76%** (31) eu bod yn ei **ddarllen bob wythnos**;
- Dywedodd **22%** (9) eu bod yn ei ddarllen yn **achlysurol** (unwaith neu ddwywaith y mis);
- Dywedodd **2%** (1) mai yn **anaml** maent yn ei ddarllen.





**ii)** **Bwletin yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd** a anfonir i holl gynghorwyr bob yn ail wythnos – gan amlaf yn rhan o'r Bwletin Aelodau wythnosol:

- Dywedodd **68%** (28) eu bod yn ei ddarllen **bob tro**;
- Dywedodd **24%** (10) eu bod yn ei ddarllen yn **achlysurol**;
- Dywedodd **7%** (3) mai yn **anaml** maent yn ei ddarllen.




**iii)** Y **gofod newyddion ar Fewnrwyd yr Aelodau** ble cyhoeddir eitemau newyddion a phytiau gwybodaeth yn rheolaidd ar gyfer cynghorwyr:


- Dywedodd **27%** (17) eu bod yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn **yn aml** (unwaith yr wythnos neu'n fwy aml);
- Dywedodd **41%** (11) eu bod yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn yn **achlysurol** (unwaith y mis neu'r fwy aml);
- Dywedodd **22%** (9) mai yn **anaml** maent yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn;
- Dywedodd **10%** (4) nad ydynt **byth** yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn.




**iv)** **Sesiynau a Nodiadau Briffio**. Mae bwriad i ddechrau cynnal sesiynau briffio a darparu nodiadau briffio ar gyfer aelodau ynghylch materion allweddol sy'n

debygol o ddwyn sylw yn y gymuned neu yn y wasg. Y nod fydd rhoi gwybodaeth gefndirol am bwnc penodol fel fod Aelodau yn cael amser i ddeall mwy am y cyd-destun cyn derbyn ymholiadau.

- Dywedodd **88%** (35) eu bod yn meddwl byddai hyn yn **ddefnyddio**l;
- Dywedodd **10%** (4) **nad oeddynt yn gwybod** os byddai hyn yn ddefnyddiol;
- Dywedodd **3%**   (1) **na fyddai hyn yn ddefnyddiol**.




2.27 Roedd cyfle i'r Aelodau nodi sylwadau ac awgrymiadau ysgrifenedig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar i'r nifer fawr a fanteisiodd ar y cyfle i gynnig sylwadau. Ar sail yr adborth yma, bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno fydd yn cynnwys:

- Eitemau rheolaidd yn y Bwletin Wythnosol fydd yn denu sylw pellach at wybodaeth defnyddiol sydd ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau, er enghraifft:
    - Calendr Hyfforddiant Aelodau;
    - Cyfarwyddiadur o swyddogion allweddol ym mhob maes;
    - Calendr o dyddiadau ac amseroedd Pwyllgorau'r Cyngor;
    - Manylion ymgynghoriadau ac ymarferiadau ymgysylltu'r Cyngor a'n partneriaid;
- Erthyglau nodwedd am unigolion sy'n gweithio i'r Cyngor a'u gwaith;
- Erthyglau achlysurol i amlygu gwaith rhai pwyllgorau yn ychwanegol i waith y Cabinet;
- Sefydlu trefn o gynnal Cyfarfodydd Briffio a darparu Nodiadau Briffio i'r Aelodau am faterion allweddol tebyg i'r cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda'r Prif Weithredwr am gyllideb y Cyngor a'r sefyllfa ariannol.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae'r canlyniadau eisoes wedi eu hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 15/11/2022 er gwybodaeth iddynt.

**3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae adolygu amseru cyfarfodydd y Cyngor yn ddarostyngedig i Ganllawiau Statudol a wnaethpwyd dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2011. Mae'r Canllawiau yma wedi bod yn destun ymgynghoriad diweddar er na ragwelir y bydd newidiadau eang yn deillio. Fodd bynnag maent yn gosod pwyslais ar ymateb i'r canlyniadau. Mae'n briodol felly fod y Cyngor yn ystyried y canlyniadau yma fel rhan o'r broses o sefydlu calendr cyfarfodydd a threfniadau cyfarfodydd gan dderbyn fod angen cloriannu agweddau ymarferol o amgylch cyfarfodydd hefyd.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol"

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TO/FM -/00617/22

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

23 Tachwedd 2022

Annwyl Eirian

Diolch am eich e-bost dyddiedig 31 Hydref 2022 a anfonwyd at Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru gyda llythyr atodedig gan Gadeirydd Cyngor Gwynedd at Swyddfa'r Cabinet ynghylch y teitl, Tywysog Cymru. Gofynnwyd imi ateb.

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud mewn cyfweliadau diweddar ei bod yn debygol iawn y bydd, ymhen amser, drafodaeth gyhoeddus mewn perthynas â Thywysog Cymru yn y cyfnod newydd hwn. Mae hefyd wedi nodi bod datblygu trafodaeth o'r fath yn fater ar gyfer Palas Buckingham.

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod Tywysog Cymru wedi ymweld â'r Senedd ar 17 Tachwedd lle y credir ei fod wedi bwriadu trafod yr arwisgiad. Ers hynny, adroddwyd yn y cyfryngau bod Palas Kensington wedi cadarnhau nad oes cynlluniau ar gyfer arwisgiad.

Yn gywir

Tobi Adeshokan
**Yr Is-adran Cyfiawnder a Thribiwnlysoedd Cymru**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

[Address]

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400